# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

SYLWCH: Fe fydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu ar ôl i'r cyfarfod orffen, a hynny drwy gyfrwng safle rhyngrwyd y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ffilmio ai peidio.

Yn gyffredinol ni fydd y rhannau lle mae'r cyhoedd yn eistedd yn cael eu ffilmio. Er hynny, trwy ddod i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r man lle mae seddi'r cyhoedd, mae'r cyhoedd yn cytuno y gallant gael eu ffilmio ac o bosibl i'r lluniau a'r sain a gaiff eu recordio gael eu defnyddio, fel y nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

15 Mawrth 2024

Annwyl Syr / Fadam

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir CYFARFOD o'r CYNGOR yn NEUADD CYNGOR CEREDIGION, PENMORFA, ABERAERON AC O BELL TRWY FIDEO-GYNHADLEDDA ar Ddydd Iau, 21 Mawrth 2024 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**
**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir CYFARFOD o CYNGOR yn HYBRID - NEUADD CYNGOR CEREDIGION, PENMORFA, ABERAERON / REMOTELY VIA VIDEO CONFERENCE Dydd Iau, 21 Mawrth 2024 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

3. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

4. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2024 a 29 Chwefror 2024 (Tudalennau 3 - 24)**

5. **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweinol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd ar y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (Tudalennau 25 - 30)**

6. **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweinol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd ar Restr Cydnabyddiaeth Ariannol i**

**Aelodau 2024/25 (Tudalennau 31 - 80)**

**7.** **I ystyried adroddiad gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth ar y Polisi Cyflogau ar gyfer 2024/25 (Tudalennau 81 - 114)**

**8.** **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweinol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd ar ar we-ddarlledu cyfarfodydd pwyllgorau ychwanegol (Tudalennau 115 - 118)**

**9.** **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweinol Corfforaethol: Y Gyfraith a Llywodraethu a Swyddog Monitro ar y Fframwaith Llywodraethu (Tudalennau 119 - 130)**

**10.** **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweinol Corfforaethol: Y Gyfraith a Llywodraethu i gadarnhau apwyntiad Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Tudalennau 131 - 132)**

**11.** **Ethol darpar Gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2024/25 i'w sefydlu yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhelir am 2.00 p.m. ddydd Gwener, 17 Mai 2024**

**12.** **Ethol darpar Is-gadeirydd ar gyfer 2024/25 i'w sefydlu yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhelir am 2.00 p.m. ddydd Gwener, 17 Mai 2024**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Cyngor**

**Cofnodion Cyfarfod y CYNGOR**
**a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideo-gynhadledda ar Ddydd Mawrth, 6 Chwefror 2024**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Maldwyn Lewis (Cadeirydd), Cynghorwyr Shelley Childs, Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Meirion Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Raymond Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Paul Hinge, Hugh Hughes, Chris James, Gwyn James, Gareth Lloyd, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, John Roberts, Mark Strong, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams a Carl Worrall.

(2.00pm - 2.50pm)

**Gweithdrefn**
Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Maldwyn Lewis, bawb I'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu.

**1 Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorydd Ceris Jones am ei hanallu i fynychu'r cyfarfod.

**2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol na buddiant sy'n rhagfarnu.

**3 Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
Llongyfarchodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis, Cadeirydd y Cyngor, Olwen Davies ar dderbyn Gwobr Wilkinson am wasanaeth i Chwaraeon Motorsport.

Cyhoeddodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis hefyd y bydd Lee Walters yn cynnal Seminar ym Mhrifysgol Aberystwyth ar 22 Chwefror 2024 i drafod y 'llwybr gwledig' – sut rydym yn cyflawni ein Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ar gyfer cymunedau gwledig. Fodd bynnag, nododd y Cynghorydd Bryan Davies ei fod newydd dderbyn cadarnhad y byddai'r Seminar hon yn cael ei gohirio ac y byddai'r Aelodau'n cael gwybod am y dyddiad newydd.

**4 I ystyried Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23**
Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod y Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal adolygiad o effeithiolrwydd eu fframwaith llywodraethu o leiaf bob blwyddyn, gan gynnwys eu systemau rheolaeth fewnol, y mae'n rhaid eu dogfennu mewn Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'i gyhoeddi fel rhan o Ddatganiad Cyfrifon Blynyddol y Cyngor.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23.

**5(a) I dderbyn Adroddiad ISA260 Archwilio Cymru ar Ddatganiad Cyfrifon 2022-23**

Croesawodd Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Maldwyn Lewis, Jason Blewitt a Lucy Herman o Archwilio Cymru i'r cyfarfod.

Cyflwynodd Jason Blewitt yr Adroddiad mewn perthynas â Datganiad Cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2022/23, gan nodi bod yr archwiliad bellach wedi'i gwblhau a'u bwriad yw cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrif y flwyddyn ar ôl derbyn y llythyr cynrychiolaeth. Nododd nad oes unrhyw wallau heb eu cywiro wrth i'r rhain gael eu diwygio yn ystod yr adolygiad ac nad ydynt yn cael unrhyw effaith gyffredinol ar y datganiad terfynol.

Nododd fod ailwerthusiad chwarterol o Eiddo, Peiriannau ac Offer bellach wedi'i gynnal, sy'n welliant sylweddol ar y blynyddoedd blaenorol, fodd bynnag, roedd y cyfrifiadau'n seiliedig ar gyfraddau chwarter 3 BCIS, lle'r oedd cyfraddau chwarter 4 ar gael adeg cynhyrchu'r cyfrifon; gosodwyd ffioedd proffesiynol ar 12% yn hytrach na 10%; a bod gwahaniaethau wedi'u nodi rhwng cyfrifiadau'r arwynebedd llawr o'i gymharu â'r wybodaeth a ddarparwyd yn flaenorol.

Diolchodd y Cadeirydd i Archwilio Cymru am eu hadroddiad anghymwys, a diolchodd i Jason Blewitt a'i dîm am eu cydweithrediad, eu cefnogaeth a'u hadborth cadarnhaol.

**5(b) Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio i gyflwyno'n ffurfiol sylwadau'r Pwyllgor hwnnw ar yr adroddiad**

Nododd Alan Davies, Aelod Lleyg a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ei bod yn bleser derbyn adroddiad anghymwys a llongyfarchodd y Prif Swyddog Cyllid a llu o swyddogion eraill am eu gwaith. Nododd ei siom o dderbyn sylwadau negyddol ar Ystadau am yr ail flwyddyn yn olynol, gan ddweud nad mater ariannol yw hwn ond yn hytrach mater llywodraethu a rheoli prosesau; fodd bynnag, roedd wedi cael adborth cadarnhaol gan y Prif Swyddog Cyllid bod y mater hwn yn cael ei drin a bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gwahodd yr Aelod Cabinet perthnasol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ymhen 6 mis.

Nododd fod perthynas gadarnhaol iawn rhwng Swyddogion ac Archwilio Cymru, a chanmolodd bawb am eu gwaith rhagorol, yn enwedig y Swyddog S151 ar dderbyn adroddiad heb gymhwyso.

**5(c) I gytuno Datganiad Cyfrifon 2022-23**

Nododd y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod y Cabinet dros Gyllid a Chaffael taw cipolwg mewn amser yw'r Datganiad Cyfrifon, sy'n seiliedig ar 31 Mawrth 2023. Nododd nad oedd ganddo gof o dderbyn adroddiad nad oedd wedi ei gymhwyso, a bod hyn yn dystiolaeth o fantolen gryf sy'n caniatáu sefyllfa ariannol dda yng Ngheredigion. Canmolodd y tîm Cyllid am eu proffesiynoldeb a'u profiad, gan nodi y bu'n heriol i geisio edrych yn ôl dros y cyfnod hwn tra'n llunio'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf a sefyllfa ariannol hynod heriol i'w hwynebu yn y dyfodol.

Nododd y Cynghorydd Gareth Davies nad oedd gorwariant o £6k yn peri pryder, roedd lefel y Gronfa Gyffredinol yn parhau i fod yn £6.7m, a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn £48.8m a fydd yn lleihau wrth i'r blynyddoedd fynd yn eu blaen. Nododd fod mater yn ymwneud ag ailwerthuso asedau wedi codi llynedd, a diolchodd i'r tîm am wneud gwaith ar y mater hwn mewn cyfnod byr iawn. Nododd fod adolygiad Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (CAAC) wedi'i gynnal, gan gadarnhau y gellir rhoi sicrwydd nad oes tystiolaeth o bryderon yn ymwneud a CAAC yn y sir. Nododd hefyd fod y Fantolen Harbyrau hefyd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad, sy'n dangos cost flynyddol o £58k i'r awdurdod, gan awgrymu efallai nad yw'r ffioedd wedi cynyddu'n ddigonol yn ystod y blynyddoedd blaenorol a bod hyn yn rhywbeth i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ei ystyried.

Diolchodd i Archwilio Cymru am eu gwaith a wnaed yn ystod amgylchiadau heriol a'i bod yn gadarnhaol mai bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio anghymwys ar y Cyfrifon.

Nododd Duncan Hall, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael a Swyddog Adran 151 ei fod wedi rhoi trosolwg manwl yn ystod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gynharach heddiw. Nododd ei fod yn fodlon o ran mesuriadau allweddol fod y Fantolen Gyffredinol wedi aros yn ddigyfnewid, a bod cyflawni archwiliad anghymwys flwyddyn ar ôl blwyddyn yn reswm i'w ddathlu.

Nododd y bu i'r Cyngor wynebu her sylweddol o ran nifer yr eitemau ystadau a oedd angen eu prisio, a bod ambell broblem wedi bod o ran hanfodion prosesu'r rhain. Mae'r adroddiadau hyn yn ymwneud â chyfnod sydd dros 12 mis yn ôl, ac ers hynny mae penodiad newydd wedi'i wneud i'r tîm i gynorthwyo o ran capasiti. Byddai rheolaethau hefyd yn cael eu cryfhau, er mwyn sicrhau ffurfioldeb a chofrestru ac mae cynlluniau i adolygu sefyllfa o ran arwynebedd y llawr yn ystod yr adolygiad pum mlynedd.

Nododd y Cynghorydd Gareth Lloyd fod gwerth mynychu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn mynychu'r Cyngor gan fod hyn yn rhoi'r manylion i'r Aelodau cyn ystyried yn y Cyngor. Nododd ei fod yn falch o dderbyn sicrwydd y bore yma y byddai systemau'n cael eu rhoi ar waith i adolygu'r sefyllfa drwy ail-werthuso ystadau, a'i fod yn edrych ymlaen at dderbyn diweddariadau ar y mater hwn.

Gofynnodd y Cynghorydd Keith Henson i Swyddog S151 egluro'r gwahaniaethau rhwng y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio a'r rhai na ellir eu defnyddio. Cadarnhaodd Duncan Hall fod cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn cynnwys eitemau fel y Gronfa Gyffredinol, y cyllidebau ysgolion dirprwyedig, a chronfeydd wrth gefn ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol, o'u gymharu â'r Gronfa Bensiwn nad yw'n gronfa wrth gefn y gellir ei defnyddio.

Gofynnodd y Cynghorydd Keith Evans pam fod y newid i'r risgiau corfforaethol wedi newid cyn lleied. Eglurodd Eifion Evans, Prif Weithredwr fod risgiau'n cael eu hadolygu ar sawl lefel, gyda'r rhai ar y lefel uchaf yn

cael eu hadolygu gan y Grŵp Arweinyddol yn ystod cyfarfodydd wythnosol. Gall y rhain gynnwys pethau fel yr argyfwng hinsawdd, na all yr awdurdod eu datrys ar ei ben ei hun; fodd bynnag, mae hyn yn cael ei ystyried wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'r ffactorau risg hyn yn tueddu i fod yn hirdymor ac felly nid oes llawer o newid blynyddol o ran y lefelau risg. Mae'r haen nesaf o risgiau yn benodol i wasanaethau unigol. Ni fyddem yn disgwyl gweld sgôr uwch na 15 yn y meysydd hyn; fodd bynnag, os yw risg gwasanaeth yn sgorio'n uchel, byddai'n cael ei gyfeirio at y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'i adolygu'n rheolaidd gan y Grŵp Arweinyddol.

Nododd y Cynghorydd Rhodri Evans ei fod wedi disgwyl y byddai'r gyllideb yn sgorio'n uwch ar y gofrestr risg ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2023-24, oherwydd yr hinsawdd ariannol a chadarnhawyd bod y risg gorfforaethol a restrir yn y Datganiad Cyfrifon 2022-2023 yn briodol ar y pryd.

Gofynnodd y Cynghorydd Wyn Evans beth fyddai'n digwydd pe na bai gwelliant o ran ffigyrau asedau am y drydedd flwyddyn yn olynol. Cadarnhaodd Duncan Hall nad yr un achos yn ail-adrodd ei hun oedd hwn, a bod Archwilio Cymru wedi canmol Swyddogion am fynd i'r afael â phryderon y flwyddyn flaenorol.

Diolchodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor i Archwilio Cymru am eu hadroddiad, ac i’r Swyddogion am eu holl gwaith caled. Nododd fod nifer o faterion gweithredol wedi'u codi a rhoddodd sicrwydd na fyddai'r Cyngor yn gorffwys ar ei rwyfau.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo Datganiad Cyfrifon y Cyngor a Datganiad Cyfrifon yr Harbwr.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2024**

**CADEIRYDD: ______________**

**Cofnodion Cyfarfod y CYNGOR**
**a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideo-gynadledda ddydd Iau, 29 Mawrth 2024**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Maldwyn Lewis (Cadeirydd), Cynghorwyr Shelley Childs, Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Raymond Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Paul Hinge, Hugh Hughes, Chris James, Gwyn James, Ceris Jones, Gareth Lloyd, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, John Roberts, Mark Strong, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams a Carl Worrall.

(10.00am - 2.06pm)

**Gweithdrefn**
Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Maldwyn Lewis, bawb I'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu.

1 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorydd Sian Maehrlein am nad oedd modd iddi fod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 **Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**
Gwnaeth y Cynghorydd Endaf Edwards ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag eitem 5.

3 **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
Llongyfarchodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis, Cadeirydd y Cyngor, Cynan Evans o Ben-uwch ar ennill y Fedal Arian ym Mhencampwriaeth Dechreuwyr Cymdeithas Focsio Amatur Cymru 2024.

Cyhoeddodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis y bydd Cymanfa Ganu Brenhines a Ffermwr Ifanc Clwb Ffermwyr Ifanc Ceredigion yn cael ei chynnal am 7:30pm nos Sul, Mawrth y 3ydd 2024 yn Eglwys Deiniol Sant, Llanddeiniol, ac y bydd 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol' yn cael ei ddarlledu o Gapel Glynarthen ar 20 Mawrth 2024.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Ifan Davies y Cynghorydd Wyn Evans ar Gadeirio'r brotest dros bolisïau newid hinsawdd yn Adeilad y Senedd y diwrnod cynt, gan dynnu sylw at yr argyfwng sy'n wynebu ardaloedd gwledig yng Nghymru.

4 **Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024**
**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024 yn gywir.

5 **Adroddiad ar y cyd gan yr Arweinydd, yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am Wasanaethau Ariannol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ar Gyllideb 2024/25, gan gynnwys y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer Rheoli'r Trysorlys**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor, yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod y wybodaeth a'r cynigion yn yr adroddiad wedi cael eu hystyried gan y Cabinet a'r holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Pwysleisiodd y byddai'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd ac na fu dim newid i'r sefyllfa ariannol ers cael y gyllideb ddrafft ym mis Rhagfyr y llynedd. Nododd fod 70 o feysydd arbed wedi'u nodi a allai effeithio ar rai Aelodau yn fwy nag eraill, fodd bynnag byddai'r arbedion cyffredinol o fudd i'r holl drigolion drwy sicrhau bod y cynnydd i Dreth y Cyngor yn parhau mor isel â phosibl. Diolchodd i Aelodau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu am eu mewnbwn, gan nodi bod y Cabinet wedi cytuno ar yr argymhelliad a gyflwynwyd ger eu bron a oedd yn ymwneud â chynnal y casgliad gwastraff Hylendid Amsugnol.

Nododd fod aelodau'r cyhoedd yn disgwyl gwasanaeth safon aur, heb gynnydd yn Nhreth y Cyngor; fodd bynnag, mae'n rhaid i ni wneud y mwyaf o'r Setliad a gafwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd fod Rebecca Evans AS. y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi cytuno i gwrdd ag ef ar sail un-i-un, fodd bynnag, roedd yr amser a gynigiwyd yn cyd-daro â chyfarfod y Cyngor heddiw; bydd y cyfarfod hwn yn cael ei aildrefnu. Nododd hefyd fod Arweinydd Cyngor Sir y Fflint, yn ystod cyfarfod diweddar o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi codi'r un pryderon â'r rheini sy'n effeithio ar Geredigion gan fod ardaloedd gwledig ar eu colled o'u cymharu ag ardaloedd mwy trefol o ran y Setliad.

Nododd y Cynghorydd Bryan Davies fod y Cabinet wedi rhoi mandad i swyddogion sicrhau bod Treth y Cyngor yn cael ei chadw ar ei lefel isaf posibl. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid gwneud toriadau. Awgrymodd amcangyfrifon cychwynnol y gallai fod yn rhaid i Dreth y Cyngor gynyddu 20% ond mae hyn bellach wedi'i ostwng i 10% ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor, ynghyd ag ardoll yr Awdurdod Tân sy'n cyfateb i 1.1% arall.

Nododd y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod y Cabinet dros Gyllid a Chaffael, fod 4 gweithdy cyllideb i Aelodau wedi'u cynnal yn ychwanegol at yr holl waith a wnaed gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Ategodd sylwadau'r Arweinydd, gan ddiolch i Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu am arwain y trafodaethau yn ymwneud â'r gyllideb. Nododd fod Llywodraeth Cymru wedi datgan yn agored mai ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2024/25 yw'r *'llymaf a'r fwyaf poenus ers datganoli'*, a bod y gyllideb ddrafft bellach wedi'i chwblhau, gan roi cynnydd 2.9% i'r Grant Cynnal Refeniw. Mae'r cynnydd hwn yn y cyllid craidd yn rhoi Ceredigion yn y 14eg safle o'r 22 Awdurdod Lleol; fodd bynnag, wrth ystyried y cyllid fesul pen o'r boblogaeth, Ceredigion sy'n cael y swm isaf.

Nododd fod y pwysau a amcangyfrifir o ran costau refeniw y mae'r Cyngor yn eu hwynebu ar gyfer 2024/25 yn dod i gyfanswm o £18m, sy'n cyfateb i ffactor chwyddiant sy'n benodol i Geredigion o 10% sy'n gadael Ceredigion â diffyg yn y gyllideb o £14m, i'w ganfod o gyfuniad o ostyngiadau yn y gyllideb a chynnydd yn Nhreth y Cyngor. Nododd fod angen 70 o gynigion i leihau'r gyllideb yn yr adroddiad i gynhyrchu cyllideb fantoledig.

Nododd hefyd bwysau o ran costau o gostau sy'n gysylltiedig â gweithwyr gwerth cyfanswm o £6.1m, yn rhannol oherwydd dyfarniadau cyflog cenedlaethol (sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor), galwadau a phwysau ar gyllidebau sy'n

gysylltiedig â Gofal Cymdeithasol ar £8.6m yn ychwanegol at ddyfarniadau cyflog gweithwyr sy'n ymwneud ag ariannu codiadau chwyddiant sylfaenol ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn allanol fel gofal cartref, Taliadau Uniongyrchol a lleoliadau preswyl i Bobl Hŷn a sicrhau bod gweithwyr Gofal Cymdeithasol cofrestredig yng Ngheredigion yn parhau i gael eu talu o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol sydd wedi codi o £10.90 i £12 yr awr.

Nododd na fu'n bosibl ariannu'n llawn yr holl bwysau o ran costau yr oedd ysgolion yn eu profi; fodd bynnag, roedd y Cabinet wedi cytuno i gynnydd cyfartalog o 3.1% er bod y Setliad gan Lywodraeth Cymru yn is na hyn ar 2.9%. Mae'r cynnydd gan Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd yn cyfateb i gynnydd o 12% yn yr Ardoll Tân, sy'n cyfateb i 1.1% fel baich Treth y Cyngor i holl drigolion Ceredigion.

Eglurodd y Cynghorydd Gareth Davies fod y pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi argymell nad oedd y Cabinet yn rhoi cap o £2m ar yr incwm a gynhyrchir gan y 25% o bremiwm Treth y Cyngor ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor; fodd bynnag, roedd y Cabinet wedi penderfynu argymell bod cap wedi'i gynnwys er mwyn osgoi unrhyw risg y bydd cronfeydd gormodol yn cael eu cronni yn anfwriadol ac er mwyn defnyddio'r cyllid i wrthbwyso pwysau gan holl wasanaethau'r Cyngor, ac osgoi'r angen i gynyddu Treth y Cyngor ymhellach fyth.

Nododd er gwaethaf heriau gweithredol, bod Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n bodloni bodlonrwydd rheoleiddwyr allanol fel Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn ac Archwilio Cymru.

Nododd mai lefel bresennol Band D Treth y Cyngor 2023/24 yng Ngheredigion yw £1,908 sy'n is na chyfartaledd cyfatebol Awdurdodau Lloegr o £2,139. Cyfeiriodd hefyd at y 4 grant penodol i'w trosglwyddo i'r Setliad Terfynol gwerth cyfanswm o £2.228m a chadarnhaodd fod y Setliad Terfynol a gyhoeddwyd ddydd Mawrth (27/02/24) yn unol â'r ffigurau yn yr adroddiad.

Nododd y Cynghorydd Gareth Davies fod cyfanswm o 70 o gynigion i leihau’r gyllideb wedi’u hargymell gan y Cabinet yn ystod eu cyfarfod ar 20 Chwefror 2024, sef cyfanswm o £5.819m.  Nododd hefyd y byddai 75% o gyllideb y Cyngor yn cael ei wario ar Ysgolion a Dysgu Gydol Oes, Llesiant a Gofal Cymdeithasol Gydol Oes a Phriffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, ac ar ôl darparu ar gyfer costau sefydlog eraill yn bennaf, megis Lwfansau Aelodau, Ardoll yr Awdurdod Tân, Costau Ariannu Cyfalaf a Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor, mae hyn ond yn gadael 14% ar gyfer holl Wasanaethau eraill y Cyngor.

Yna rhoddodd y Cynghorydd Gareth Davies drosolwg o'r ystod o Wasanaethau y mae Treth y Cyngor yn talu amdanynt gyda Chyngor Sir Ceredigion yn darparu dros 100 o wasanaethau i'w drigolion ac yn cyflogi 3,600 o weithwyr (2,614 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn).  Mae trigolion yn defnyddio’r gwasanaethau hyn ar wahanol adegau yn eu bywydau o gofrestru genedigaeth i gael eu cludo i addysg Feithrin, Gynradd ac Uwchradd hyd at addysg ôl-16 a chael mynediad i’r addysg honno, boed hynny’n 6$^{ed}$ dosbarth neu’n hyfforddiant galwedigaethol, i gael mynediad at wasanaethau cerddoriaeth a gwasanaethau ieuenctid, defnyddio canolfan chwaraeon, llyfrgelloedd neu lwybr arfordir Ceredigion,

cofrestru i bleidleisio mewn etholiad, ceisiadau cynllunio a cheisiadau rheoliadau adeiladu, bwyta mewn sefydliad bwyd diogel sy'n cael ei reoleiddio, ymweld ag Amgueddfa Ceredigion neu Theatr, cael eich gwastraff wedi'i gasglu a'i waredu neu ei ailgylchu, defnyddio safleoedd gwastraff cartrefi, gyrru ar ffyrdd a phontydd sy'n cael eu cynnal a'u cadw, a graeanu, defnyddio gwasanaethau bysiau cyhoeddus, cael goleuadau stryd wedi'u goleuo, gallu ffonio'r Gwasanaethau Tân ac Achub mewn argyfyngau ac mewn blynyddoedd diweddarach, elwa ar docynnau teithio rhatach ar drafnidiaeth gyhoeddus, gwasanaethau gofal a chymorth fel offer i alluogi byw'n annibynnol drwodd i leoliad mewn Cartref Gofal Preswyl, ac yn y pen draw Gwasanaeth y Crwner a chofrestru marwolaeth. Nid yw llawer o'r gwasanaethau hyn bob amser yn cael eu gwerthfawrogi, a bod bwlch sylweddol rhwng yr hyn y gallem ei ddymuno a'r hyn y gallwn ei gyflawni ac efallai na fydd modd cynnal y lefel bresennol o wasanaethau yn y dyfodol.

Nododd na fu dim newidiadau i'r Strategaeth Gyfalaf arfaethedig na'r Rhaglen Gyfalaf Aml-Flwyddyn, a chyfeiriodd hefyd at y Dangosyddion Darbodus ar gyfer Rheoli Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Yn olaf, diolchodd i'w gyd-aelodau o'r Cabinet am eu holl waith caled yn sicrhau bod y cynigion yn adlewyrchu amcanion cyllideb fantoledig, a diolchodd i Duncan Hall a'i dîm sydd wedi wynebu heriau eithriadol yn ystod y flwyddyn, yn enwedig gyda'r oedi i'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2022/23 yn cyd-daro â gofynion pennu cyllideb eithriadol o heriol.

Cadarnhaodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros Gyllid a Chaffael ei farn ar y Gyllideb fel Swyddog Adran 151, gan nodi pe bai'n edrych ar y gyllideb o lens cyfrifydd yn unig, byddai dim ond yn ystyried a yw'r ffigurau'n gwneud synnwyr ai peidio, fodd bynnag roedd rôl Adran 151 yn gofyn am farn llawer ehangach na hyn gan gynnwys gorfod ystyried pa mor gyflawnadwy a chyraeddadwy oedd y cynigion.  Nododd hefyd fod y Grŵp Arweiniol wedi bod yn adolygu'r Gyllideb bob wythnos.

Cadarnhaodd fod y gostyngiadau arfaethedig wedi cael eu hasesu o ran risg gan ddefnyddio fformat statws BRAG a bod ychydig o dan hanner yr eitemau wedi'u graddio'n Las neu'n Wyrdd (naill ai wedi'u cyflawni eisoes neu ar y trywydd iawn), tra bod yr arbedion a aseswyd yn risg uwch (eitemau coch - sy'n ymwneud ag oddeutu 4 neu 5 eitem) yn dod i gyfanswm o tua £1.2m. Bydd arbedion eraill yn cael eu cwrdd yn rhannol yn ystod y flwyddyn wrth iddynt gael eu gweithredu a'u cyflawni'n llawn yn ystod y blynyddoedd dilynol.  Bydd hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd.   Nid oes y fath beth â chyllideb berffaith oni bai bod yr holl bwysau o ran costau wedi'u hariannu'n llawn ac nad oes dim arbedion i'w canfod.   Felly, mae'n rhaid i'r Cyngor weithredu ar amrywiol oddefiannau ac roedd yr eitemau a aseswyd yn goch yn cyfateb i 0.6% o'r gyllideb arfaethedig o £193.6m, sy'n cael ei ystyried yn lefel dderbyniol.

Cadarnhaodd fod amcangyfrifon y Gyllideb felly yn ddigon cadarn yn ei farn ef a bod lefel y cronfeydd wrth gefn a'r balansau'n ddigonol, tra'n derbyn bod y cronfeydd wrth gefn yn gostwng ond mewn ffordd reoledig (er enghraifft oherwydd ymrwymiadau arian cyfatebol ar gynlluniau cyfalaf mawr).

Gorffennodd drwy amlygu bod heriau sylweddol o ran y rhagolygon tymor canolig, a bod llawer mwy o benderfyniadau anodd o'u blaenau i'r Cyngor.

Nododd y Cynghorydd Gareth Lloyd, Arweinydd y Grŵp Annibynnol fod Ardoll yr Awdurdod Tân yn sylweddol uwch na'r disgwyl yn wreiddiol, a bod Cyngor Sir Ceredigion ar ei golled ar sail ffigurau amcangyfrifedig y boblogaeth cyn ac ar ôl y Cyfrifiad Cenedlaethol yn 2021, a bod y cynnydd o 12% yn cynnwys elfen o gynnydd pensiwn a fydd yn cael ei ad-dalu'n rhannol fel grant gan Lywodraeth Cymru.

Nododd fod gan y Cabinet waith enfawr o'i flaen i ddod â chyllideb fantoledig ger ein bron.  Y llynedd, cytunodd y Grŵp Annibynnol ar y gyllideb gan nad oedd dewis arall ar gael; fodd bynnag, mae'r pwysau a roddwyd ar Awdurdodau Lleol gan Lywodraeth Cymru bellach wedi ei gwneud bron yn amhosibl gweithredu. Mae gan Lywodraeth Cymru'r pŵer i gynyddu trethi, fodd bynnag maen nhw'n dewis peidio â gwneud hynny, tra'n ariannu croesfan pont am ddim a gwasanaethau presgripsiwn cyffredinol am ddim a disgwyl i ni godi trethi ac ymdrin â'r cwynion a geir oddi wrth y cyhoedd.

Nododd ei fod yn siomedig bod y Cabinet wedi cytuno i argymell cap ar y cyllid o'r premiwm ar ail gartrefi a chartrefi gwag, gan bwysleisio pwysigrwydd gwarchod y Cynllun Tai Cymunedol.  Gofynnodd hefyd beth fyddai goblygiadau ymgynghori â thrigolion ar y cynigion lleihau amrywiol pe bai'r manylion ariannol yn cael eu cymeradwyo heddiw.

Yn olaf, nododd nad yw'r fformiwla gyllido ar gyfer y setliad yn deg, ac y dylai pob cyngor ddod ynghyd i wrthwynebu hyn. Cytunodd hefyd i siarad â'r Awdurdod Tân ynglŷn â'r system ariannu annheg.  Nododd na fyddai'n gallu cefnogi'r argymhellion sy'n ymwneud â'r gyllideb am y rhesymau uchod.

Nododd y Cynghorydd Elizabeth Evans, Arweinydd Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol, y bydd trigolion Ceredigion yn canolbwyntio ar un ffaith yn anad dim arall - y ffaith bod Treth y Cyngor yn cynyddu a bod gwasanaethau'n lleihau. Mae'n nodi bod bod yn wrthblaid yn anodd, ac fel rhan o'r wrthblaid, mae'n ymwneud â dwyn y weinyddiaeth i gyfrif wrth ddod o hyd i ffyrdd o gydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cymunedau lleol a sicrhau llywodraethu da. Nododd ei bod yn croesawu'r wybodaeth a'r cyfathrebu a gafwyd gan Swyddogion ac Arweinydd y Cyngor yn ogystal â pharodrwydd Swyddogion i gael eu herio, ac na ddylai neb danbrisio awydd pobl gymwys yn eu maes i ddarparu gwasanaethau.

Nododd fod yr holl Aelodau wedi bod trwy gyfres o weithdai a chyfarfodydd y gyllideb, ac wedi ymgymryd â'r broses o graffu ar gynigion y gyllideb, gan ddadansoddi'r gwahanol senarios posibl wrth aros am ddiwygiadau i'r setliad gan Lywodraeth Cymru. Mae'n amlwg bod cyllidebau ar y gorau yn ddyheadol, ac ar y gwaethaf yn anghyflawnadwy.  Mae'r Setliad gan Lywodraeth Cymru yn ormesol o wael, ac mae San Steffan yn syml wedi datganoli llymder i lywodraethau lleol ers 2008, gan olchi eu dwylo o unrhyw gyfrifoldeb.   Rydym bellach wedi cyrraedd y pwynt lle mae darparu'r gwasanaeth mwyaf sylfaenol yn dod yn her ddyddiol, ac mae trigolion yng nghefn gwlad Cymru yn haeddu gwasanaeth cyfartal â'r trefi a'r dinasoedd mwyaf trefol. Mae yna drigolion heddiw na wyddant ond llymder, ac y mae byw mewn cyfnod o ffyniant yn

ddieithr iddynt. Ac eto craidd y mater yw’r arbedion a ragwelir yn ystod y flwyddyn a’r cynhyrchu incwm arfaethedig, y mae llawer ohonynt yn destun ymgynghoriad, ac mae’n debyg y bydd eraill yn amhosibl eu cyflawni. Mae llawer o’r ffocws wedi bod ar leihau canran gychwynnol treth y cyngor, wedi’i gydbwyso yn erbyn incwm a ragwelir a thoriadau i wasanaethau, act falansio nad oes neb yn mynd i’w hennill. Mae'r gronfa wrth gefn ar gyfer eitemau digwyddiadol a'r gronfa wrth gefn ar gyfer rheoli'r gyllideb yn wag, a phe baem yn defnyddio’r balansau cyffredinol, yna rydym yn gohirio problemau i drethdalwyr Ceredigion yn y dyfodol ar unwaith.

Nododd, os caiff arbedion rhagamcanol eu trin yn gorfforaethol, yna rydym yn mynd i mewn i’r gyllideb hon â mwgwd dros ein llygaid, a bydd unrhyw ddiffyg yn destun toriadau newydd yn ystod y flwyddyn nad ydynt yn rhan o’r gyllideb hon, ac felly ni all Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol gefnogi’r gyllideb hon.

Nododd y Cynghorydd Bryan Davies fod y nifer sy’n manteisio ar y Cynllun Tai Cymunedol, a lansiwyd ym mis Hydref wedi bod yn gymharol isel, ac y byddai angen i’r cynllun gael ei adolygu gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu dros y misoedd nesaf. Gofynnodd hefyd i'r Aelodau ystyried cynigion amgen ar gyfer arbedion os nad ydynt yn hapus gyda'r cynigion presennol.

Cadarnhaodd Eifion Evans, Prif Weithredwr hefyd y byddai unrhyw benderfyniad i beidio â bwrw ymlaen ag arbediad yn y gyllideb yn creu heriau pellach yn ystod y flwyddyn ariannol, gan olygu bod angen trafodaeth ddemocrataidd bellach yn ogystal â dangos ystwythder ariannol.

Nododd sawl Aelod fod yr opsiynau ar gyfer arbedion yn y gyllideb yn bellgyrhaeddol a gwnaethant ofyn a oedd modd eu cyflawni. Cadarnhaodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ei fod wedi rhoi ei farn broffesiynol yn ffurfiol ar y Gyllideb yn Argymhelliad 1 yr adroddiad, sy'n ofyniad cyfreithiol. Cadarnhaodd os nad oes gan yr Aelodau ffydd a hyder yn y ffigurau a gyflwynwyd yna ei fod yn adlewyrchu arno’n broffesiynol ac yn y pen draw byddai’n golygu nad oes gan Aelodau ffydd ynddo fel swyddog Adran 151.

Nododd y Cynghorydd Hugh Hughes fod ganddo ffydd lwyr yn y ffigyrau oedd yn cael eu cyflwyno, fodd bynnag bu'n rhaid iddo wneud dyfarniad yn seiliedig ar ei brofiad ei hun ac nad oedd mor argyhoeddedig y byddai hyn yn bosibl er gwaethaf gwaith caled Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet. Gwnaeth sawl aelod arall gan gynnwys y Cynghorydd Rhodri Evans, y Cynghorydd Elizabeth Evans a'r Cynghorydd Gareth Lloyd sylwadau tebyg. Canmolodd yr aelodau Duncan Hall am ei waith.

Cyfeiriodd yr Aelodau hefyd at yr effaith yn y dyfodol ar drigolion sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd yn ariannol, ac a ellid nodi arbedion o weithio gydag awdurdodau eraill. Gofynnon nhw hefyd a oedd y Cyngor wedi ystyried lleihau swyddi.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Bryan Davies fod gostyngiadau sylweddol wedi bod i swyddi dros y flwyddyn, a bod y staff presennol eisoes yn ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol ac na fyddai gostyngiadau pellach yn gynaliadwy. Nododd fod gwrthdaro rhwng peidio â rhoi baich ychwanegol ar drethdalwyr a pheidio â lleihau'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Os nad yw Aelodau’n

fodlon cefnogi'r toriadau arfaethedig yna ni fyddai ganddynt ddim dewis ond codi eu dwylo a phleidleisio dros gynnydd uwch yn Nhreth y Cyngor.

Nododd y Prif Weithredwr fod rolau Uwch Reolwyr wedi'u lleihau o 29 i 15 dros y blynyddoedd diwethaf, a bod strwythur yr Uwch Reolwyr yn debyg i awdurdodau cymharol eraill fel Cyngor Sir Gwynedd.

Nododd y Cynghorydd Keith Henson fod y penderfyniadau hyn wedi bod yn anodd dros ben, a bod ardaloedd gwledig yn cael eu targedu'n gyson. Mae gan sawl awdurdod eisoes gyfyngiad ar 3 bag du, a bod Cyngor Sir Ceredigion o fewn y tri awdurdod uchaf yng Nghymru ar gyfer ailgylchu, a bod mwy o ganolfannau ailgylchu y pen o'r boblogaeth yng Ngheredigion nag unrhyw awdurdod arall. Fodd bynnag, mae'n rhaid nodi toriadau, a bydd yn rhaid i ni fynd i'r afael â materion megis 50% o gynnwys y bagiau bin du yn ailgylchadwy.

Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Lloyd bleidlais wedi'i chofnodi ar bob cynnig unigol ac eithrio'r cynigion oedd i'w nodi. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Gareth Davies ac fe'i cytunwyd drwy bleidlais fwyafrifol.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi, ym marn y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151):
    - bod amcangyfrifon y Gyllideb wedi'u paratoi mewn modd cadarn.
    - bod lefel arfaethedig y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd a'r Balansau Cyffredinol yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

2. Cymeradwyo'r canlynol parthed Premiymau Treth y Cyngor:
    a) O 01/04/24 ymlaen, y dylai 25% o'r holl arian a godir o bremiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (net o ad-daliadau / costau Treth y Cyngor) gael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol, ar yr amod drwy'r amser na fydd cyfanswm y cyllid a ddelir yn y Cynllun Tai Cymunedol yn fwy na £2.0m ac y bydd unrhyw gyllid y tu hwnt i'r lefel hon mewn unrhyw flwyddyn benodol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi sefyllfa'r gyllideb gyffredinol.

Cynhaliwyd pleidlais a gofnodwyd, fel y cytunwyd ac yn unol â Rheol 14.5 o Reolau Gweithdrefn y Cyngor a gynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor ar eitem 2.a).

*O blaid:* *Shelley Childs, Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Raymond Evans, Keith Henson, Paul Hinge, Hugh Hughes, Chris James, Ceris Jones, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, John Roberts, Mark Strong, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams, Carl Worrall, Maldwyn Lewis (28)*

*Yn erbyn: Ifan Davies, Marc Davies, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Gwyn James, Gareth Lloyd (8)*

*<u>Ymatal:</u> (0)*

b) O 01/04/24 ymlaen, y bydd 75% o'r holl arian a godir o bremiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (net o ad-daliadau / costau Treth y Cyngor) yn cael ei gadw a'i ddefnyddio i gefnogi sefyllfa'r gyllideb gyffredinol, er mwyn lleihau baich Treth y Cyngor ar drigolion Ceredigion.

Cynhaliwyd pleidlais a gofnodwyd, fel y cytunwyd ac yn unol â Rheol 14.5 o Reolau Gweithdrefn y Cyngor a gynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor ar eitem 2.b).

*<u>O blaid:</u> Shelley Childs, Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Raymond Evans, Keith Henson, Paul Hinge, Chris James, Ceris Jones, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, John Roberts, Mark Strong, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams, Carl Worrall, Maldwyn Lewis (27)*

*<u>Yn erbyn</u>: Ifan Davies, Marc Davies, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Hugh Hughes, Gwyn James, Gareth Lloyd (9)*

*<u>Ymatal:</u> (0)*

3. Cymeradwyo'r canlynol parthed y Gyllideb Refeniw:

   a) Gofyniad y Gyllideb ar gyfer 24/25 yw £193.572m, fel y nodir yn Atodiad 1, sy'n cynnwys yr holl gynigion ar gyfer Lleihau'r Gyllideb a amlinellir yn Atodiad 2.

Cynhaliwyd pleidlais a gofnodwyd, fel y cytunwyd ac yn unol â Rheol 14.5 o Reolau Gweithdrefn y Cyngor a gynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor ar eitem 3.a).

*<u>O blaid:</u> Shelley Childs, Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Eryl Evans, Keith Henson, Chris James, Ceris Jones, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, Mark Strong, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams, Maldwyn Lewis (20)*

*<u>Yn erbyn</u>: Ifan Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Raymond Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Paul Hinge, Hugh Hughes, Gwyn James, Gareth Lloyd, John Roberts, Carl Worrall (16)*

*<u>Ymatal:</u> (0)*

   b) Cyllideb a Rhagolygon diwygiedig 24/25, fel yr amlinellir yn Atodiad 3.

Cynhaliwyd pleidlais a gofnodwyd, fel y cytunwyd ac yn unol â Rheol 14.5 o Reolau Gweithdrefn y Cyngor a gynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor ar eitem 3.b).

*O blaid: Shelley Childs, Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Eryl Evans, Keith Henson, Chris James, Ceris Jones, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, Mark Strong, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams, Maldwyn Lewis (20)*

*Yn erbyn: Ifan Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Raymond Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Paul Hinge, Hugh Hughes, Gwyn James, Gareth Lloyd, John Roberts, Carl Worrall (16)*

*Ymatal: (0)*

4. Cymeradwyo’r canlynol parthed Dangosyddion Cyfalaf a Darbodus:
   a) Y Strategaeth Gyfalaf, fel yr amlinellir yn Atodiad 4.
   b) Y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn, fel yr amlinellir yn Atodiad 5.
   c) Y Dangosyddion Darbodus, fel yr amlinellir yn Atodiad 6.
   d) Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael i weithredu symudiad o fewn cyfanswm y terfyn Awdurdodedig ar gyfer benthyca allanol, a'r ffin Weithredol.

Cynhaliwyd pleidlais a gofnodwyd, fel y cytunwyd ac yn unol â Rheol 14.5 o Reolau Gweithdrefn y Cyngor a gynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor ar eitemau 4 a), b), c) and d).

*O blaid: Shelley Childs, Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Raymond Evans, Keith Henson, Paul Hinge, Hugh Hughes, Chris James, Ceris Jones, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, John Roberts, Mark Strong, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams, Carl Worrall, Maldwyn Lewis (28)*

*Yn erbyn: Ifan Davies, Marc Davies, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Gwyn James, Gareth Lloyd (8)*

*Ymatal: (0)*

Yn dilyn pleidlais **PENDERFYNWYD**:

5. Nodi parthed y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor:
   a) Mai £5.440m yw’r ardoll y cymeradwyodd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion, sef cynnydd o £584k (12%). Ar ôl darparu ar gyfer cyllid tybiedig gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau Pensiynau, mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 1.1% yn Nhreth y Cyngor.

b) Bod y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor ar gyfer Gwasanaethau eraill y Cyngor (heb yr Ardoll Tân) yn cyfateb i 10.0%.

6. Pennu Treth y Cyngor Band D o £1,726.05 ar gyfer 2024/25 at ddibenion Cyngor Sir Ceredigion, sef cynnydd o £172.45 neu 11.10%.

Cynhaliwyd pleidlais a gofnodwyd, fel y cytunwyd ac yn unol â Rheol 14.5 o Reolau Gweithdrefn y Cyngor a gynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor ar eitem 6.

*O blaid: Shelley Childs, Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Eryl Evans, Keith Henson, Chris James, Ceris Jones, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, Mark Strong, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams, Maldwyn Lewis (20)*

*Yn erbyn: Ifan Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Raymond Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Paul Hinge, Hugh Hughes, Gwyn James, Gareth Lloyd, John Roberts, Carl Worrall (16)*

*Ymatal: (0)*

**6 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ynghylch Gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2024/25**

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD**:

**3.1** I nodi y cymeradwywyd y symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2024/25 yng nghyfarfod Cabinet y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr 2023 yn unol â rheoliadau Adran 33(5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:

(a) 33,768.51 sef y swm a gyfrifir gan y Cyngor fel sylfaen treth y Cyngor ar gyfer yr ardal, yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) a Threth y Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004.

(b) RHAN O ARDAL Y CYNGOR

| **Ardaloedd Cynghora Tref a Chymuned:** | **Syfaen Treth y Cyngor** | **Ardaloedd Cynghora Tref a Chymuned:** | **Syfaen Treth y Cyngor** |
|---|---|---|---|
| ABERYSTWYTH | 4,190.91 | TREGARON | 563.01 |
| ABERAERON | 803.98 | YSBYTY YSTWYTH | 217.62 |
| ABERTEIFI / CARDIGAN | 1,877.18 | YSTRAD FFLUR | 317.05 |
| LLANBEDR P.S. / LAMPETER | 1,008.40 | YSTRAD MEURIG | 172.19 |
| CEI NEWYDD / NEW QUAY | 850.26 | CILIAU AERON | 431.98 |
| BORTH | 790.01 | HENFYNYW | 528.19 |
| CEULANAMAESMAWR | 437.60 | LLANARTH | 749.70 |
| BLAENRHEIDOL | 209.80 | LLANDYSILOGOGO | 565.66 |
| GENEU'R GLYN | 367.39 | LLANFAIR CLYDOGAU | 304.01 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| LLANBADARN FAWR | 893.28 | LLANFIHANGEL YSTRAD | 689.20 |
| LLANGYNFELIN | 279.85 | LLANGYBI | 288.18 |
| LLANFARIAN | 774.79 | LLANLLWCHAEARN | 506.52 |
| LLANGWYRYFON | 262.11 | LLANSANTFFRAED | 639.73 |
| LLANILAR | 487.51 | LLANWENOG | 598.16 |
| LLANRHYSTUD | 464.40 | LLANWNNEN | 220.37 |
| MELINDWR | 538.17 | DYFFRYN ARTH | 603.29 |
| PONTARFYNACH | 255.68 | ABERPORTH | 1,177.40 |
| TIRYMYNACH | 824.75 | BEULAH | 893.63 |
| TRAWSGOED | 457.90 | LLANDYFRIOG | 863.79 |
| TREFEURIG | 803.35 | LLANDYSUL | 1,277.37 |
| FAENOR | 827.91 | LLANGOEDMOR | 606.22 |
| YSGUBOR-Y-COED | 168.00 | LLANGRANNOG | 453.40 |
| LLANDDEWI BREFI | 307.52 | PENBRYN | 781.03 |
| LLANGEITHO | 376.22 | TROEDYRAUR | 686.39 |
| LLEDROD | 322.03 | Y FERWIG | 674.49 |
| NANTCWNLLE | 380.93 | | |

**SYLFAEN TRETH Y CYNGOR 33,768.51**

**sef y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol â Rheoliad 6 o Reoliadau 1995 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau 2004), fel symiau Treth y Cyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau mewn rhannau penodol o'r ardal y mae un eitem neu fwy yn berthnasol iddynt;**

**3.2 I cymeradwyo'r symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2024/25 yn unol ag adrannau 32 hyd 36, Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, fel y nodir isod:-**

**(a) £285,511,141 sef cyfanswm y symiau a amcangyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer eitemau a nodir yn Adran 32(2)(a) hyd (e) o'r Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys £180,000 o ran Rhyddhad Ardrethi Annomestig Cenedlaethol.**

**(b) £90,392,000 sef cyfanswm y symiau a amcangyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer eitemau a nodir yn Adran 32(3)(a) hyd (c) o'r Ddeddf.**

**(c) £195,119,141 sef swm y diffyg rhwng cyfanswm (a) uchod a chyfanswm (b) uchod, a gyfrifir gan y Cyngor fel yr anghenion cyllidebol am y flwyddyn, yn unol ag Adran 32(4) o'r ddeddf.**

**(d) £135,285,976 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif a fydd yn daladwy i Gronfa'r Cyngor am y flwyddyn ar gyfer ailddosbarthu ardrethi annomestig, y grant cymorth refeniw a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.**

**(e) £1,771.86 sef y swm a roddir o dan (c) uchod, namyn y swm a roddir o dan (d) uchod, wedi'i rannu â Sylfaen Treth y Cyngor, a**

**gyfrifir gan y Cyngor fel swm sylfaenol Treth y Cyngor am y flwyddyn yn unol ag Adran 33(1) o'r Ddeddf.**

**(f) £1,547,028 sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf.**

**(g) £1,726.05 sef y cyfanswm a roddir o dan (e) uchod, namyn y swm a geir wrth rannu'r swm a roddir o dan (f) uchod â'r Sylfaen Treth y Cyngor a gyfrifwyd gan y Cyngor fel swm sylfaenol Treth y Cyngor am y flwyddyn, yn unol ag Adran 34(2) o'r Ddeddf.**

**(h) RHAN O ARDAL Y CYNGOR**

| Ardaloedd Cynghorau Tref a Chymuned | Sylfaen Treth y Cyngor | Ardaloedd Cynghorau Tref a Chymuned | Sylfaen Treth y Cyngor |
|---|---|---|---|
| ABERYSTWYTH | 1,877.63 | TREGARON | 1,770.45 |
| ABERAERON | 1,784.29 | YSBYTY YSTWYTH | 1,737.54 |
| ABERTEIFI / CARDIGAN | 1,774.01 | YSTRAD FFLUR | 1,749.94 |
| LLANBEDR P.S. / LAMPETER | 1,768.69 | YSTRAD MEURIG | 1,740.05 |
| CEI NEWYDD / NEW QUAY | 1,771.05 | CILIAU AERON | 1,739.94 |
| BORTH | 1,769.85 | HENFYNYW | 1,739.30 |
| CEULANAMAESMAWR | 1,762.61 | LLANARTH | 1,740.59 |
| BLAENRHEIDOL | 1,748.48 | LLANDYSILOGOGO | 1,748.74 |
| GENEU'R GLYN | 1,753.27 | LLANFAIR CLYDOGAU | 1,749.08 |
| LLANBADARN FAWR | 1,781.22 | LLANFIHANGEL YSTRAD | 1,740.49 |
| LLANGYNFELIN | 1,755.53 | LLANGYBI | 1,742.01 |
| LLANFARIAN | 1,755.35 | LLANLLWCHAEARN | 1,748.89 |
| LLANGWYRYFON | 1,743.22 | LLANSANTFFRAED | 1,769.82 |
| LLANILAR | 1,740.82 | LLANWENOG | 1,751.13 |
| LLANRHYSTUD | 1,751.03 | LLANWNNEN | 1,742.25 |
| MELINDWR | 1,739.99 | DYFFRYN ARTH | 1,750.17 |
| PONTARFYNACH | 1,739.74 | ABERPORTH | 1,765.37 |
| TIRYMYNACH | 1,749.69 | BEULAH | 1,754.03 |
| TRAWSGOED | 1,737.41 | LLANDYFRIOG | 1,756.15 |
| TREFEURIG | 1,748.46 | LLANDYSUL | 1,765.77 |
| FAENOR | 1,766.89 | LLANGOEDMOR | 1,779.50 |
| YSGUBOR-Y-COED | 1,748.97 | LLANGRANNOG | 1,749.21 |
| LLANDDEWI BREFI | 1,772.88 | PENBRYN | 1,742.05 |
| LLANGEITHO | 1,740.67 | TROEDYRAUR | 1,743.53 |
| LLEDROD | 1,733.98 | Y FERWIG | 1,762.52 |
| NANTCWNLLE | 1,732.61 | | |

**sef y symiau sy'n ganlyniad o ychwanegu swm yr eitem neu eitemau arbennig a wnelo ag anheddau yn y rhannau penodol o ardal y Cyngor y cyfeirir atynt uchod at y swm a roddir o dan 3.2(g) uchod, wedi rhannu yn y ddau achos â'r swm a roddir o dan 3.1(b) uchod, a amcangyfrifwyd gan y Cyngor fel symiau sylfaenol Treth y Cyngor ar gyfer anheddau mewn rhannau penodol o'r ardal y mae un eitem arbennig neu fwy yn berthnasol iddynt, yn unol ag Adran 34(3) o'r Ddeddf.**

**(i) RHAN O ARDAL Y CYNGOR**

| ARDALOEDD CYNGHORAU TREF A CHYMUNED: | Band A £ | Band B £ | Band C £ | Band D £ | Band E £ | Band F £ | Band G £ | Band H £ | Band I £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ABERYSTWYTH | 1251.75 | 1460.38 | 1669.01 | 1877.63 | 2294.88 | 2712.13 | 3129.38 | 3755.26 | 4381.14 |
| ABERAERON | 1189.53 | 1387.78 | 1586.04 | 1784.29 | 2180.80 | 2577.30 | 2973.82 | 3568.58 | 4163.34 |
| ABERTEIFI / CARDIGAN | 1182.67 | 1379.78 | 1576.90 | 1774.01 | 2168.24 | 2562.46 | 2956.68 | 3548.02 | 4139.36 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| LLANBEDR P.S./LAMPETER | 1179.13 | 1375.64 | 1572.17 | 1768.69 | 2161.74 | 2554.77 | 2947.82 | 3537.38 | 4126.94 |
| CEI NEWYDD / NEW QUAY | 1180.70 | 1377.48 | 1574.27 | 1771.05 | 2164.62 | 2558.18 | 2951.75 | 3542.10 | 4132.45 |
| BORTH | 1179.90 | 1376.55 | 1573.20 | 1769.85 | 2163.15 | 2556.45 | 2949.75 | 3539.70 | 4129.65 |
| CEULANAMAESMAWR | 1175.07 | 1370.92 | 1566.77 | 1762.61 | 2154.30 | 2545.99 | 2937.68 | 3525.22 | 4112.76 |
| BLAENRHEIDOL | 1165.65 | 1359.93 | 1554.21 | 1748.48 | 2137.03 | 2525.58 | 2914.13 | 3496.96 | 4079.79 |
| GENEU'R GLYN | 1168.85 | 1363.65 | 1558.47 | 1753.27 | 2142.89 | 2532.50 | 2922.12 | 3506.54 | 4090.96 |
| LLANBADARN FAWR | 1187.48 | 1385.39 | 1583.31 | 1781.22 | 2177.05 | 2572.87 | 2968.70 | 3562.44 | 4156.18 |
| LLANGYNFELIN | 1170.35 | 1365.41 | 1560.47 | 1755.53 | 2145.65 | 2535.76 | 2925.88 | 3511.06 | 4096.24 |
| LLANFARIAN | 1170.23 | 1365.27 | 1560.31 | 1755.35 | 2145.43 | 2535.50 | 2925.58 | 3510.70 | 4095.82 |
| LLANGWYRYFON | 1162.15 | 1355.83 | 1549.53 | 1743.22 | 2130.61 | 2517.98 | 2905.37 | 3486.44 | 4067.51 |
| LLANILAR | 1160.55 | 1353.97 | 1547.40 | 1740.82 | 2127.67 | 2514.51 | 2901.37 | 3481.64 | 4061.91 |
| LLANRHYSTUD | 1167.35 | 1361.91 | 1556.47 | 1751.03 | 2140.15 | 2529.26 | 2918.38 | 3502.06 | 4085.74 |
| MELINDWR | 1159.99 | 1353.32 | 1546.66 | 1739.99 | 2126.66 | 2513.32 | 2899.98 | 3479.98 | 4059.98 |
| PONTARFYNACH | 1159.83 | 1353.13 | 1546.44 | 1739.74 | 2126.35 | 2512.95 | 2899.57 | 3479.48 | 4059.39 |
| TIRYMYNACH | 1166.46 | 1360.87 | 1555.28 | 1749.69 | 2138.51 | 2527.33 | 2916.15 | 3499.38 | 4082.61 |
| TRAWSGOED | 1158.27 | 1351.32 | 1544.37 | 1737.41 | 2123.50 | 2509.59 | 2895.68 | 3474.82 | 4053.96 |
| TREFEURIG | 1165.64 | 1359.91 | 1554.19 | 1748.46 | 2137.01 | 2525.55 | 2914.10 | 3496.92 | 4079.74 |
| FAENOR | 1177.93 | 1374.24 | 1570.57 | 1766.89 | 2159.54 | 2552.17 | 2944.82 | 3533.78 | 4122.74 |
| YSGUBOR-Y-COED | 1165.98 | 1360.31 | 1554.64 | 1748.97 | 2137.63 | 2526.29 | 2914.95 | 3497.94 | 4080.93 |
| LLANDDEWI BREFI | 1181.92 | 1378.90 | 1575.90 | 1772.88 | 2166.86 | 2560.82 | 2954.80 | 3545.76 | 4136.72 |
| LLANGEITHO | 1160.45 | 1353.85 | 1547.27 | 1740.67 | 2127.49 | 2514.30 | 2901.12 | 3481.34 | 4061.56 |
| LLEDROD | 1155.99 | 1348.65 | 1541.32 | 1733.98 | 2119.31 | 2504.63 | 2889.97 | 3467.96 | 4045.95 |
| NANTCWNLLE | 1155.07 | 1347.58 | 1540.10 | 1732.61 | 2117.64 | 2502.66 | 2887.68 | 3465.22 | 4042.76 |
| TREGARON | 1180.30 | 1377.01 | 1573.74 | 1770.45 | 2163.89 | 2557.31 | 2950.75 | 3540.90 | 4131.05 |
| YSBYTY YSTWYTH | 1158.36 | 1351.42 | 1544.48 | 1737.54 | 2123.66 | 2509.78 | 2895.90 | 3475.08 | 4054.26 |
| YSTRAD FFLUR | 1166.63 | 1361.06 | 1555.51 | 1749.94 | 2138.82 | 2527.69 | 2916.57 | 3499.88 | 4083.19 |
| YSTRAD MEURIG | 1160.03 | 1353.37 | 1546.71 | 1740.05 | 2126.73 | 2513.40 | 2900.08 | 3480.10 | 4060.12 |
| CILIAU AERON | 1159.96 | 1353.28 | 1546.62 | 1739.94 | 2126.60 | 2513.24 | 2899.90 | 3479.88 | 4059.86 |
| HENFYNYW | 1159.53 | 1352.79 | 1546.05 | 1739.30 | 2125.81 | 2512.32 | 2898.83 | 3478.60 | 4058.37 |
| LLANARTH | 1160.39 | 1353.79 | 1547.19 | 1740.59 | 2127.39 | 2514.18 | 2900.98 | 3481.18 | 4061.38 |
| LLANDYSILOGOGO | 1165.83 | 1360.13 | 1554.44 | 1748.74 | 2137.35 | 2525.95 | 2914.57 | 3497.48 | 4080.39 |
| LLANFAIR CLYDOGAU | 1166.05 | 1360.39 | 1554.74 | 1749.08 | 2137.77 | 2526.45 | 2915.13 | 3498.16 | 4081.19 |
| LLANFIHANGEL YSTRAD | 1160.33 | 1353.71 | 1547.11 | 1740.49 | 2127.27 | 2514.04 | 2900.82 | 3480.98 | 4061.14 |
| LLANGYBI | 1161.34 | 1354.89 | 1548.46 | 1742.01 | 2129.13 | 2516.23 | 2903.35 | 3484.02 | 4064.69 |
| LLANLLWCHAEARN | 1165.93 | 1360.24 | 1554.57 | 1748.89 | 2137.54 | 2526.17 | 2914.82 | 3497.78 | 4080.74 |
| LLANSANTFFRAED | 1179.88 | 1376.52 | 1573.18 | 1769.82 | 2163.12 | 2556.40 | 2949.70 | 3539.64 | 4129.58 |
| LLANWENOG | 1167.42 | 1361.99 | 1556.56 | 1751.13 | 2140.27 | 2529.41 | 2918.55 | 3502.26 | 4085.97 |
| LLANWNNEN | 1161.50 | 1355.08 | 1548.67 | 1742.25 | 2129.42 | 2516.58 | 2903.75 | 3484.50 | 4065.25 |
| DYFFRYN ARTH | 1166.78 | 1361.24 | 1555.71 | 1750.17 | 2139.10 | 2528.02 | 2916.95 | 3500.34 | 4083.73 |
| ABERPORTH | 1176.91 | 1373.06 | 1569.22 | 1765.37 | 2157.68 | 2549.98 | 2942.28 | 3530.74 | 4119.20 |
| BEULAH | 1169.35 | 1364.24 | 1559.14 | 1754.03 | 2143.82 | 2533.60 | 2923.38 | 3508.06 | 4092.74 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| LLANDYFRIOG | 1170.77 | 1365.89 | 1561.03 | 1756.15 | 2146.41 | 2536.66 | 2926.92 | 3512.30 | 4097.68 |
| LLANDYSUL | 1177.18 | 1373.37 | 1569.58 | 1765.77 | 2158.17 | 2550.55 | 2942.95 | 3531.54 | 4120.13 |
| LLANGOEDMOR | 1186.33 | 1384.05 | 1581.78 | 1779.50 | 2174.95 | 2570.39 | 2965.83 | 3559.00 | 4152.17 |
| LLANGRANNOG | 1166.14 | 1360.49 | 1554.86 | 1749.21 | 2137.93 | 2526.63 | 2915.35 | 3498.42 | 4081.49 |
| PENBRYN | 1161.37 | 1354.92 | 1548.49 | 1742.05 | 2129.18 | 2516.29 | 2903.42 | 3484.10 | 4064.78 |
| TROEDYRAUR | 1162.35 | 1356.08 | 1549.81 | 1743.53 | 2130.98 | 2518.43 | 2905.88 | 3487.06 | 4068.24 |
| Y FERWIG | 1175.01 | 1370.85 | 1566.69 | 1762.52 | 2154.19 | 2545.86 | 2937.53 | 3525.04 | 4112.55 |

**sef y symiau sy'n ganlyniad o luosi'r symiau a roddir o dan 3.2(h) gyda'r rhif sydd, yn ôl y gyfran a bennir yn Adran 5(1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band prisio penodol wedi rhannu gyda'r rhif sydd, yn ôl y gyfran honno, yn berthnasol i anheddau a restrir ym mand prisio D gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf, sef y symiau a gaiff eu hystyried ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategorïau o anheddau a restrir mewn gwahanol fandiau prisio.**

**3.3 I nodi'r symiau yn y praeseptau a gyflwynwyd i'r Cyngor gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ar gyfer 2024/25 yn unol ag Adran 47 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, ar gyfer pob categori o anheddiad a ddengys isod:-**

**Treth Gyngor Heddlu Dyfed-Powys**

**BANDIAU PRISIO**

| A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **221.35** | **258.25** | **295.14** | **332.03** | **405.81** | **479.60** | **553.38** | **664.06** | **774.74** |

**3.4 To set the Council Tax in accordance with Section 30 of the Local Government Finance Act 1992. Having calculated the aggregate in each case of the amounts at 3.2(i) and 3.3 above, the Council, in accordance with Section 30(2) of the Local Government Finance Act 1992, hereby sets the following amounts, which can be seen in Appendix A, as the amounts of Council Tax for the year 2024/25 for each of the categories of dwellings.**

| **ARDALOEDD CYNGHORAU TREF A CHYMUNED:** | **Band A £** | **Band B £** | **Band C £** | **Band D £** | **Band E £** | **Band F £** | **Band G £** | **Band H £** | **Band I £** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ABERYSTWYTH | 1473.10 | 1718.63 | 1964.14 | 2209.66 | 2700.69 | 3191.73 | 3682.76 | 4419.32 | 5155.88 |
| ABERAERON | 1410.88 | 1646.03 | 1881.17 | 2116.32 | 2586.61 | 3056.90 | 3527.20 | 4232.64 | 4938.08 |
| ABERTEIFI / CARDIGAN | 1404.02 | 1638.03 | 1872.03 | 2106.04 | 2574.05 | 3042.06 | 3510.06 | 4212.08 | 4914.10 |
| LLANBEDR P.S. / LAMPETER | 1400.48 | 1633.89 | 1867.30 | 2100.72 | 2567.55 | 3034.37 | 3501.20 | 4201.44 | 4901.68 |
| CEI NEWYDD / NEW QUAY | 1402.05 | 1635.73 | 1869.40 | 2103.08 | 2570.43 | 3037.78 | 3505.13 | 4206.16 | 4907.19 |
| BORTH | 1401.25 | 1634.80 | 1868.33 | 2101.88 | 2568.96 | 3036.05 | 3503.13 | 4203.76 | 4904.39 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CEULANAMAESMAWR | 1396.42 | 1629.17 | 1861.90 | 2094.64 | 2560.11 | 3025.59 | 3491.06 | 4189.28 | 4887.50 |
| BLAENRHEIDOL | 1387.00 | 1618.18 | 1849.34 | 2080.51 | 2542.84 | 3005.18 | 3467.51 | 4161.02 | 4854.53 |
| GENEU’R GLYN | 1390.20 | 1621.90 | 1853.60 | 2085.30 | 2548.70 | 3012.10 | 3475.50 | 4170.60 | 4865.70 |
| LLANBADARN FAWR | 1408.83 | 1643.64 | 1878.44 | 2113.25 | 2582.86 | 3052.47 | 3522.08 | 4226.50 | 4930.92 |
| LLANGYNFELIN | 1391.70 | 1623.66 | 1855.60 | 2087.56 | 2551.46 | 3015.36 | 3479.26 | 4175.12 | 4870.98 |
| LLANFARIAN | 1391.58 | 1623.52 | 1855.44 | 2087.38 | 2551.24 | 3015.10 | 3478.96 | 4174.76 | 4870.56 |
| LLANGWYRYFON | 1383.50 | 1614.08 | 1844.66 | 2075.25 | 2536.42 | 2997.58 | 3458.75 | 4150.50 | 4842.25 |
| LLANILAR | 1381.90 | 1612.22 | 1842.53 | 2072.85 | 2533.48 | 2994.11 | 3454.75 | 4145.70 | 4836.65 |
| LLANRHYSTUD | 1388.70 | 1620.16 | 1851.60 | 2083.06 | 2545.96 | 3008.86 | 3471.76 | 4166.12 | 4860.48 |
| MELINDWR | 1381.34 | 1611.57 | 1841.79 | 2072.02 | 2532.47 | 2992.92 | 3453.36 | 4144.04 | 4834.72 |
| PONTARFYNACH | 1381.18 | 1611.38 | 1841.57 | 2071.77 | 2532.16 | 2992.55 | 3452.95 | 4143.54 | 4834.13 |
| TIRYMYNACH | 1387.81 | 1619.12 | 1850.41 | 2081.72 | 2544.32 | 3006.93 | 3469.53 | 4163.44 | 4857.35 |
| TRAWSGOED | 1379.62 | 1609.57 | 1839.50 | 2069.44 | 2529.31 | 2989.19 | 3449.06 | 4138.88 | 4828.70 |
| TREFEURIG | 1386.99 | 1618.16 | 1849.32 | 2080.49 | 2542.82 | 3005.15 | 3467.48 | 4160.98 | 4854.48 |
| FAENOR | 1399.28 | 1632.49 | 1865.70 | 2098.92 | 2565.35 | 3031.77 | 3498.20 | 4197.84 | 4897.48 |
| YSGUBOR-Y-COED | 1387.33 | 1618.56 | 1849.77 | 2081.00 | 2543.44 | 3005.89 | 3468.33 | 4162.00 | 4855.67 |
| LLANDDEWI BREFI | 1403.27 | 1637.15 | 1871.03 | 2104.91 | 2572.67 | 3040.42 | 3508.18 | 4209.82 | 4911.46 |
| LLANGEITHO | 1381.80 | 1612.10 | 1842.40 | 2072.70 | 2533.30 | 2993.90 | 3454.50 | 4145.40 | 4836.30 |
| LLEDROD | 1377.34 | 1606.90 | 1836.45 | 2066.01 | 2525.12 | 2984.23 | 3443.35 | 4132.02 | 4820.69 |
| NANTCWNLLE | 1376.42 | 1605.83 | 1835.23 | 2064.64 | 2523.45 | 2982.26 | 3441.06 | 4129.28 | 4817.50 |
| TREGARON | 1401.65 | 1635.26 | 1868.87 | 2102.48 | 2569.70 | 3036.91 | 3504.13 | 4204.96 | 4905.79 |
| YSBYTY YSTWYTH | 1379.71 | 1609.67 | 1839.61 | 2069.57 | 2529.47 | 2989.38 | 3449.28 | 4139.14 | 4829.00 |
| YSTRAD FFLUR | 1387.98 | 1619.31 | 1850.64 | 2081.97 | 2544.63 | 3007.29 | 3469.95 | 4163.94 | 4857.93 |
| YSTRAD MEURIG | 1381.38 | 1611.62 | 1841.84 | 2072.08 | 2532.54 | 2993.00 | 3453.46 | 4144.16 | 4834.86 |
| CILIAU AERON | 1381.31 | 1611.53 | 1841.75 | 2071.97 | 2532.41 | 2992.84 | 3453.28 | 4143.94 | 4834.60 |
| HENFYNYW | 1380.88 | 1611.04 | 1841.18 | 2071.33 | 2531.62 | 2991.92 | 3452.21 | 4142.66 | 4833.11 |
| LLANARTH | 1381.74 | 1612.04 | 1842.32 | 2072.62 | 2533.20 | 2993.78 | 3454.36 | 4145.24 | 4836.12 |
| LLANDYSILOGOGO | 1387.18 | 1618.38 | 1849.57 | 2080.77 | 2543.16 | 3005.55 | 3467.95 | 4161.54 | 4855.13 |
| LLANFAIR CLYDOGAU | 1387.40 | 1618.64 | 1849.87 | 2081.11 | 2543.58 | 3006.05 | 3468.51 | 4162.22 | 4855.93 |
| LLANFIHANGEL YSTRAD | 1381.68 | 1611.96 | 1842.24 | 2072.52 | 2533.08 | 2993.64 | 3454.20 | 4145.04 | 4835.88 |
| LLANGYBI | 1382.69 | 1613.14 | 1843.59 | 2074.04 | 2534.94 | 2995.83 | 3456.73 | 4148.08 | 4839.43 |
| LLANLLWCHAEARN | 1387.28 | 1618.49 | 1849.70 | 2080.92 | 2543.35 | 3005.77 | 3468.20 | 4161.84 | 4855.48 |
| LLANSANTFFRAED | 1401.23 | 1634.77 | 1868.31 | 2101.85 | 2568.93 | 3036.00 | 3503.08 | 4203.70 | 4904.32 |
| LLANWENOG | 1388.77 | 1620.24 | 1851.69 | 2083.16 | 2546.08 | 3009.01 | 3471.93 | 4166.32 | 4860.71 |
| LLANWNNEN | 1382.85 | 1613.33 | 1843.80 | 2074.28 | 2535.23 | 2996.18 | 3457.13 | 4148.56 | 4839.99 |
| DYFFRYN ARTH | 1388.13 | 1619.49 | 1850.84 | 2082.20 | 2544.91 | 3007.62 | 3470.33 | 4164.40 | 4858.47 |
| ABERPORTH | 1398.26 | 1631.31 | 1864.35 | 2097.40 | 2563.49 | 3029.58 | 3495.66 | 4194.80 | 4893.94 |
| BEULAH | 1390.70 | 1622.49 | 1854.27 | 2086.06 | 2549.63 | 3013.20 | 3476.76 | 4172.12 | 4867.48 |
| LLANDYFRIOG | 1392.12 | 1624.14 | 1856.16 | 2088.18 | 2552.22 | 3016.26 | 3480.30 | 4176.36 | 4872.42 |
| LLANDYSUL | 1398.53 | 1631.62 | 1864.71 | 2097.80 | 2563.98 | 3030.15 | 3496.33 | 4195.60 | 4894.87 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| LLANGOEDMOR | 1407.68 | 1642.30 | 1876.91 | 2111.53 | 2580.76 | 3049.99 | 3519.21 | 4223.06 | 4926.91 |
| LLANGRANNOG | 1387.49 | 1618.74 | 1849.99 | 2081.24 | 2543.74 | 3006.23 | 3468.73 | 4162.48 | 4856.23 |
| PENBRYN | 1382.72 | 1613.17 | 1843.62 | 2074.08 | 2534.99 | 2995.89 | 3456.80 | 4148.16 | 4839.52 |
| TROEDYRAUR | 1383.70 | 1614.33 | 1844.94 | 2075.56 | 2536.79 | 2998.03 | 3459.26 | 4151.12 | 4842.98 |
| Y FERWIG | 1396.36 | 1629.10 | 1861.82 | 2094.55 | 2560.00 | 3025.46 | 3490.91 | 4189.10 | 4887.29 |

**7 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (IDR) 2024-25**

Rhoddodd y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cyllid a Caffael drosolwg o gynnwys yr adroddiad a nododd fod y Cabinet, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2024, wedi ystyried yr adroddiad hwn ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Pholisi'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2024/ 25, gan argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Benthyca a Buddsoddiadau ar gyfer 2024/25; Polisi'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2024/25 ac i ddirprwyo awdurdod i'r Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael, i ddiwygio Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a'r Rhaglen Fuddsoddi, yn ystod y flwyddyn.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

a) cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Benthyca a Buddsoddiadau ar gyfer 2024/25
b) cymeradwyo Polisi y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2024/25; a
c) bod y Cyngor yn dirprwyo awdurdod i'r swyddog Adran 151, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael, i ddiwygio Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a'r Rhaglen Fuddsoddi, yn ystod y flwyddyn.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 21 Mawrth 2024**

**CADEIRYDD:** ______________

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 5

**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

**Adroddiad i'r:** **Cyngor**

**Dyddiad y cyfarfod:** **21 Mawrth 2024**

**Teitl:** **Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Ystyried y pwerau a gychwynnwyd yn ddiweddar i awdurdodau lleol amrywio eu system etholiadol ar gyfer etholiadau Cyngor Sir.**

**Er:** **Penderfyniad**

**Portffolio'r Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet dros Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad, a Phobol a Sefydliadau.**

**Cyflwyniad**
Mae holl Gynghorwyr Cymru ar hyn o bryd yn cael eu hethol trwy ddefnyddio'r system fwyafrifol syml, sy'n cael ei adnabod yn fwy cyffredin fel y System Bleidleisio Cyntaf i'r Felin (FPTP). Bydd pob Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r dull hwn heblaw eu bod yn penderfynu newid y system i un sy'n cael ei adnabod fel y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV) o dan y pwerau a ddeddfir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf).

Dylid nodi nad oes unrhyw ddarpariaeth i newid y system bleidleisio ar gyfer etholiadau Cynghorau Tref a Chymuned.

**Newid y System Bleidleisio**
Mae'r Ddeddf yn nodi'r camau (yn adran 8 a 9) sy'n rhaid i awdurdod lleol eu cymryd os yw'n bwriadu newid y system bleidleisio. Dechreuodd yr adrannau hyn ar 6 Mai 2022, yn syth ar ôl y rownd olaf o etholiadau llywodraeth leol. Mae'r camau sydd angen eu dilyn gan y Cyngor os yw'n bwriadu newid y system bleidleisio fel a ganlyn:

- Cyn ymarfer y pwerau i newid, rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori ag etholwyr llywodraeth leol, cynghorau cymuned ac unrhyw bersonau y mae'r awdurdod lleol yn ystyried eu bod yn briodol.
- Byddai angen Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor, gan roi o leiaf 21 diwrnod o rybudd. Byddai newid o'r fath yn gofyn am benderfyniad a gefnogir gan fwyafrif o ddwy ran o dair o'r Cyngor llawn.
- Os yw Cyngor yn dewis i newid y system bleidleisio, rhaid iddo ddefnyddio'r system STV newydd ar gyfer y ddwy rownd nesaf o etholiadau cyffredin, wedi hyn gall ddewis i ddychwelyd yn ôl at FPTP.
- Er mwyn newid i STV ar gyfer y gyfres o etholiadau llywodraeth leol nesaf yn 2027, rhaid gwneud penderfyniad i'r perwyl hwn cyn 15 Tachwedd 2024.
- Os gwneir penderfyniad i newid y system bleidleisio, rhaid i'r Cyngor hysbysu Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

Mae Atodlen 1 y Ddeddf yn amlinellu'r darpariaethau ar gyfer cynnal adolygiad terfyn, sy'n ei gwneud yn ofynnol, os yw’r Cyngor yn mabwysiadu STV, bod nifer y cynghorwyr ar gyfer pob ward etholiadol i fod yn ddim llai na 3, ond dim mwy na 6.

Felly, mae elfen sylweddol o waith y byddai angen ei wneud i symud ymlaen i'r pwynt o fabwysiadu'r system bleidleisio amgen, ac mae angen arweiniad gan y Cyngor ynghylch os yw hwn yn fater y mae'n dymuno ei ddilyn cyn ymrwymo adnoddau i'r prosiect hwn.

Mae manylion llawn FPTP a STV wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

**Casgliad**

Os bydd y Cyngor yn dymuno parhau gyda’r system FPTP, ni fydd angen unrhyw weithredu pellach ar hyn o bryd gan y Cyngor

Os bydd y Cyngor yn dod i’r casgliad eu bod yn dymuno ystyried yr STV ymhellach, yna byddwn yn symud i gyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus cyn dod â’r adroddiad yn ôl i gyfarfod o’r Cyngor Arbennig, ac ar yr adeg honno bydd y Cyngor yn pleidleisio dros newid y system i STV, ond bydd angen mwyafrif o ddwy ran o dair i wneud hynny.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam.**

Na. Bydd Asesiad Effaith Integredig yn cael ei gwblhau os bydd y Cyngor yn penderfynu eu bod yn dymuno symud i gyfnod ymgynghori, a chyflwynir adroddiad pellach mewn cyfarfod o’r Cyngor Arbennig.

**Crynodeb o’r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Ddim yn berthnasol |
| **Cydweithio:** | Ddim yn berthnasol |
| **Cynnwys:** | Ddim yn berthnasol |
| **Atal:** | Ddim yn berthnasol |
| **Integreiddio:** | Ddim yn berthnasol |

**Argymhelliad:**

**Bod y Cyngor naill ai:**

a) **Yn pleidleisio i barhau â’r system y Cyntaf i'r Felin ar gyfer etholiadau'r Cyngor Sir;**
   **NEU**
b) **Yn pleidleisio i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar newid posibl i'r system bleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cyngor Sir, sef ei newid i'r system ‘Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy’.**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**

**I hysbysu Aelodau am y pwerau a gychwynnwyd yn neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Deddf Cymru 2021) (y ‘Ddeddf’), i awdurdodau lleol newid eu system bleidleisio, wrth baratoi at yr etholiadau llywodraeth leol gyffredin nesaf sydd i’w cynnal yn 2027; a cheisio cyfarwyddyd gan y Cyngor mewn perthynas â threfniadau pleidleisio yn y dyfodol.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Amherthnasol.

**Fframwaith Polisi:**
Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Amherthnasol.

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Byddai gweithredu trefniadau pleidleisio newydd yn gofyn am adnoddau ariannol ychwanegol i alluogi'r Cyngor i weithredu'r newid sylweddol hwn mewn trefniadau etholiadol.

**Goblygiadau Cyfreithiol:**
Mae angen penderfyniad er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol.

**Goblygiadau staffio:**
Bydd goblygiadau staffio os bydd y penderfyniad yn cael ei wneud i symud i system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy oherwydd yr amser cynyddol sydd ei angen i gwblhau cyfrif pleidleisiau.

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Bydd goblygiadau eiddo os penderfynir symud i system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy oherwydd yr amser cynyddol sydd ei angen i gwblhau cyfrif pleidleisiau.

**Risg(iau):**
Bydd gweithredu trefniadau pleidleisio newydd yn arwain at oblygiadau ariannol a staffio i'r Cyngor.

**Pŵerau Statudol:**
Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Adrannau 8 a 9).

**Papurau Cefndir:**
Rheolau drafft ar gyfer etholiadau llywodraeth leol (prif gynghorau) gan ddefnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy

**Atodiadau:**
Atodiad A – Sut mae'r System Bledleisio Cyntaf i'r Felin a'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn gweithio?

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**Swyddog Adrodd:**
Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**Dyddiad:**
14 Mawrth 2024.

**Sut mae'r System Bleidleisio Cyntaf i'r Felin (FPTP) yn gweithio?**

- Mewn pleidlais sy'n defnyddio FPTP lle ceir un cynrychiolydd ei ethol, bydd pleidleiswyr y gosod marc (croes yn arferol) ar y papur pleidleisio ar bwys enw'r ymgeisydd y maent yn dymuno pleidleisio drosto.
- Mewn ward lle ceir dau aelod, mae cyfarwyddid i ymgeiswyr ar frig y papur pleidleisio i bleidleisio dros hyd at ddau ymgeisydd.
- Mae ymgeisydd yn cael ei ethol os yw'n derbyn un neu fwy o bleidleisiau na'r ymgeiswyr eraill. Mewn ward gyda dau aelod, bydd y ddau unigolyn sydd wedi derbyn y nifer fwyaf o bleidleisiau yn cael eu hethol.
- Mae cyfrif y pleidleisiau ar gyfer FPTP yn broses syml pan mai dim ond un ymgeisydd sydd i'w ethol.
- Mae cyfrif pleidleisiau ar gyfer ward dau aelod angen system sy'n cofnodi'r pleidleisiau a roddir ar bob papur pleidleisio-caiff papurau pleidleisio eu cyfrif unwaith.
- Mae 4 Ward presennol yng Ngheredigion sy'n wardiau â mwy nag un aelod h.y. Aberporth a'r Ferwig, Aberystwyth Penparcau, Aberystwyth Morfa a Glais, a Beulah a Llangoedmor.

**Sut mae Pleidlais Drosglwyddadwy Sengl (STV) yn gweithio?**

- **Wardiau â mwy nag un aelod** - bydd STV angen wardiau sydd â mwy nag un aelod ar draws ardal yr awdurdod i gyd. Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi nodi bod nifer y cynghorwyr ar gyfer pob ward etholiadol i fod yn ddim llai na thri, ond dim mwy na 6.

- **Rheolau STV –** Mae'r system STV y manylir arni isod yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

- **Dylunio Papur Pleidleisio** – byddai ymgeiswyr yn ymddangos ar bapur pleidleisio STV yn nhrefn yr wyddor yn ôl cyfenw, fel sy'n digwydd ar bapur pleidleisio FPTP. Mae pleidleiswyr yn cael cyfarwyddyd ar frig y papur pleidleisio i raddio'r ymgeiswyr yn ôl eu trefn dewisol.

- **Cyfrif Pleidleisiau** – Nid oes darpariaeth ar gyfer cyfrif electronig yn y rheolau drafft. Felly, derbynnir y bydd cyfrif etholiadau STV yn broses hir, gyda'r cyfrif yn defnyddio STV yn cymryd hyd at 2 ddiwrnod i'w gwblhau.

- **Cwota (dull cyfrifo)** – Mae'r dull o gyfrif yn hanfodol i unrhyw system STV. Y dull o gyfrif y darperir ar ei gyfer yw'r cwota Droop (fel y'i defnyddir mewn etholiadau yng Ngogledd Iwerddon a phrif etholiadau'r cyngor yn yr Alban).

$$\text{nifer y pleidleisiau i ennill sedd} = \frac{\text{nifer o bapurau pleidleisio dilys}}{\text{nifer y seddi} + 1} \quad +1$$

- **Gwarged Trosglwyddiad** – yn ystod y cyfrif, trosglwyddir pleidleisiau dros ben o'r ymgeisydd etholedig i'r ymgeisydd dewis nesaf os oes gan yr ymgeisydd dewis cyntaf bleidleisiau sy'n fwy na'r cwota neu wedi'i ddileu.

Pan fydd ymgeisydd yn derbyn pleidleisiau sy’n fwy na'r nifer cwota, archwilir y pleidleisiau dros ben i weld a yw'r ymgeisydd dewis nesaf sydd ar gael yn dal yn y ras (heb ei ethol na'i ddileu). Caiff papurau pleidleisio eu trosglwyddo i'r dewis nesaf sydd ar gael ar werth sy'n cael ei gyfrifo drwy gymryd gwarged yr ymgeisydd a'i rannu â chyfanswm y papurau pleidleisio sy'n cael eu trosglwyddo. Mae'r broses hon yn parhau nes bod nifer briodol yr ymgeiswyr yn cael eu hethol.

Mae cam ychwanegol i sicrhau nad yw gwerth pleidleisiau a drosglwyddwyd yn fwy na gwerth y bleidlais ar y papur pleidleisio pan gafodd ei dderbyn gan yr ymgeisydd y mae'n cael ei drosglwyddo ohono nawr.

Gwneir yr holl gyfrifiadau i 2 le degol felly gellir eu rheoli ar gyfer cyfrif â llaw.

- **Gwahardd ymgeiswyr** - Os bydd swyddi gwag yn parhau ar ôl i'r broses drosglwyddo ddigwydd, mae'r rheolau'n darparu i'r ymgeisydd sydd â'r nifer isaf o bleidleisiau gael eu dileu. Yna caiff pleidleisiau'r ymgeisydd a ddilëwyd eu hailddosbarthu fesul cam.

  Mae'r cam cyntaf yn golygu trosglwyddo pleidleisiau dewis cyntaf yr ymgeisydd sydd wedi'i eithrio. Mae'r Swyddog Canlyniadau yn archwilio'r pleidleisiau a roddwyd i weld a roddwyd dewis nesaf, sy'n dal i fod ar gael. Mae pob pleidlais sy'n mynegi dewis nesaf ar gael yn cael ei drosglwyddo i'r ymgeisydd y rhoddir y dewis ar ei gyfer, ar werth trosglwyddo o 1.

- **Papurau pleidleisio nad ydynt yn drosglwyddadwy** - mae papur pleidleisio yn dod yn anhrosglwyddadwy lle nad yw'n glir i’r Swyddog Canlyniadau pa ymgeisydd sydd nesaf yn nhrefn y dewis.

- **Swyddi gwag diwethaf** – mae'r rheolau drafft yn darparu ar gyfer llenwi'r swyddi gwag diwethaf gyda'r bwriad o sicrhau nad yw'n ofynnol i'r swyddfa ganlyniadau barhau i gyfrif pan fyddai'n ddibwrpas gwneud hynny. Er enghraifft, mae'r rheol yn darparu, lle mae nifer yr ymgeiswyr sy'n dal yn y ras yn hafal i nifer y swyddi gwag sy'n weddill, bod yr ymgeiswyr hynny'n cael eu trin fel rhai etholedig.

- **Ail Gyfrif** – gwahaniaeth hanfodol rhwng rheolau'r FPTP a'r rheolau STV drafft yw'r ddarpariaeth a wneir i ymgeiswyr neu asiantau etholiadol ofyn am ailgyfrif. Byddai gorfod adrodd am y bleidlais gyfan, sy'n golygu ailadrodd pob un cam, yn afresymol. Felly, lle cynhelir etholiad gan ddefnyddio STV, mae'r ddarpariaeth ar gyfer ail-gyfrif y cam hwnnw o'r cyfrif yn unig.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **21 Mawrth 2024** |
| **Teitl:** | **Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau ar gyfer 2024/2025** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Ystyried Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2024/2025 a chymeradwyo Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau ar gyfer 2024/2025.** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Bryan Davies**
**Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Democrataidd, Polisi a Pherfformiad, a Phobl a Threfniadaeth.**

**Cyflwyniad**

### 1. CYFLWYNIAD

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ym mis Chwefror 2024, ac mae'n pennu lefel y gydnabyddiaeth ariannol sy'n daladwy i'r Aelodau yn 2024/2025. Mae copi o'r adroddiad ynghlwm er gwybodaeth (Atodiad B).

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y cyfnod bwrdeistrefol o ddyddiad Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor, h.y. 17 Mai 2024.

### 2. MATERION A GODWYD YN ADRODDIAD PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Ychydig o benderfyniadau a wnaed gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn Adroddiad Blynyddol eleni; nodir pob penderfyniad arall yn Adroddiad Blynyddol 2022 a 2023 y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac maent yn parhau'n ddilys a dylid eu cymhwyso.

Mae crynodeb o'r cyflogau a'r lwfansau perthnasol, yn unol â phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, wedi'i gynnwys yn y Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau sydd ynghlwm - Atodiad A (gweler Atodlen 1).

### 3. CYFLOGAU SYLFAENOL AC UWCH GYFLOGAU

Mae'r symiau sy'n daladwy fel Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau wedi'u nodi ac mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu y dylai'r Cyflogau Sylfaenol sy'n daladwy ar gyfer 2024/2025 gynyddu i £18,666. Felly, y ffigurau a nodir yn Atodlen 1, Atodiad A fydd y symiau taladwy ar gyfer 2024/2025.

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu y dylid cynyddu Uwch Gyflogau (gweler Atodlen 1 o Atodiad A).

Nid oes unrhyw newid yn y nifer uchaf o aelodau sy'n gymwys i gael Uwch Gyflog, h.y. 17 yw'r ffigwr o hyd.

Mae'r cyflogau hyn yn cael eu pennu gan y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac **nid oes gan y Cyngor unrhyw ddisgresiwn ynghylch y symiau a delir i Gynghorwyr**.

## 4. CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y CYNGOR

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu ar gyfer 2024/2025 bod yn rhaid talu cyflog Band 3 i bennaeth dinesig h.y. Cadeirydd y Cyngor (pan fo'n cael ei dalu), a rhaid talu cyflog Band 5 i ddirprwy bennaeth dinesig h.y. Is-gadeirydd.

Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn gymwys i hawlio costau teithio wrth gyflawni eu dyletswyddau dinesig.

## 5. AD-DALU COSTAU GOFAL A CHYMORTH PERSONOL

Atgoffir Aelodau eu bod yn gymwys i hawlio ad-daliad am gostau gofal a chymorth personol.

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu na fydd newid yn yr hyn y gellir ei ad-dalu o ran costau gofal a chymorth personol yn 2024/2025 – gweler Atodlen 1 am ragor o fanylion ar yr hyn y gellir hawlio amdano.

O ran y broses o gyhoeddi'r costau gofal a ad-dalwyd, mae'r Panel yn caniatáu i'r awdurdodau benderfynu sut mae'n cyhoeddi'r wybodaeth hon, hynny yw:

1. Cyhoeddi manylion y symiau a ad-dalwyd i Aelodau a enwyd; neu
2. Cyhoeddi cyfanswm y swm a ad-dalwyd gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn heb ei bennu'n benodol i unrhyw Aelod a enwyd.

Cytunodd y Cyngor yn 2017/18 ac yn y blynyddoedd wedi hynny i gyhoeddi cyfanswm y swm a ad-dalwyd gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn heb ei bennu'n benodol i unrhyw Aelod a enwyd **ac felly argymhellir y dylid parhau â'r un drefn ar gyfer 2024/2025.**

## 6. FFIOEDD AELODAU CYFETHOLEDIG

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu na fydd newid yn y symiau sy'n daladwy i aelodau cyfetholedig yn 2024/2025 – gweler Atodiad B am ragor o fanylion. Fodd bynnag, mae darpariaeth wedi'i gwneud i dalu fesul awr (yn hytrach na diwrnod llawn neu hanner diwrnod).

Gall y Cyngor benderfynu ar uchafswm y diwrnodau y gellir talu Aelodau Cyfetholedig amdanynt mewn blwyddyn. Ar gyfer y cyfnod rhwng 2014/15 a 2023/24 penderfynodd y Cyngor y byddai cyfyngiad yn cael ei gyflwyno a oedd yn cyfateb i uchafswm o 10

diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y mae unigolyn wedi'i gyfethol iddo. **Argymhellir felly y dylid gosod yr un uchafswm o ddiwrnodau ar gyfer 2024/2025.**

## 7. DARPARIAETH BENSIYNAU

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu y dylai'r hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fod yn berthnasol i holl Aelodau etholedig y Cyngor fel ag yr oedd yn flaenorol. Mae'r Cyngor eisoes yn caniatáu i'r Aelodau ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## 8. LWFANSAU TEITHIO, CYNHALIAETH A LLETY DROS NOS

Nid oes newidiadau arfaethedig o ran lwfansau neu drefniadau hawlio ar gyfer teithio, cynhaliaeth a llety dros nos.

## 9. CEFNOGAETH I AELODAU

Mae'r Panel wedi penderfynu y dylai pob awdurdod sicrhau, trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, bod ei holl aelodau'n cael cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylai pob aelod etholedig gael cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngrwyd digonol i'w galluogi i gael mynediad electronig at wybodaeth briodol. Mae'r Panel wedi penderfynu y dylid rhoi cymorth o'r fath heb gostau i'r aelod unigol. Ni ddylai'r priod awdurdod ddidynnu symiau o gyflogau aelodau fel cyfraniad at y costau cymorth y mae'r awdurdod wedi penderfynu eu bod yn angenrheidiol ar gyfer effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd aelodau.

Yn 2018/19, cymeradwyodd y Cyngor gynnig i gyflwyno cynllun lwfans misol o £10 y gellir optio i mewn iddo i dalu am gostau ffôn, band eang a phostio ar gyfer yr Aelodau. **Argymhellir bod y cynllun hwn - y gellir optio i mewn iddo - yn parhau yn 2024/2025.**

Dylid nodi hefyd fod Gwasanaeth Cwnsela'r Cyngor ar gael i'r Aelodau ers 2018/19.

## 10. RHESTR O'R TALIADAU A WNEIR I'R AELODAU A'R AELODAU CYFETHOLEDIG A ENWIR YN 2024/2025

Rhaid i'r Cyngor baratoi rhestr flynyddol o'r taliadau y mae'n bwriadu eu gwneud i'r Aelodau a'r Aelodau Cyfetholedig a enwir. Rhaid paratoi'r rhestr ddim hwyrach na phedair wythnos ar ôl Cyfarfod Blynyddol yr Awdurdod. Mae'r rhestr berthnasol ar gyfer 2024/2025 i'w gweld yn Atodlen 1, a bydd angen ei diweddaru yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol ar 17 Mai 2024. Bydd y symiau a nodir yn y rhestr daliadau ar gyfer 2024/2025 yn adlewyrchu'r cyfraddau y cyfeirir atynt uchod.

## 11. DISGRESIWN

Pan gyhoeddir adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, rhaid i brif gynghorau gydymffurfio â'r gofynion statudol a gweithredu'r holl benderfyniadau perthnasol. **Ar hyn o bryd nid oes opsiynau ar gael o ran lefelau cydnabyddiaeth prif gynghorau sy'n gofyn am benderfyniad gan y Cyngor. Ni**

**ellir amrywio lefelau'r taliadau y mae gan Aelodau hawl iddynt drwy bleidlais prif gyngor.**

Dim ond Aelod unigol all gyfathrebu'n ysgrifenedig â'r Swyddog Priodol (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd) os yw'n dymuno, fel unigolyn, gwrthod y cyfan neu ran o'r taliad y mae ganddo hawl i'w gael.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**
Nid oes angen un – nid yw'r adroddiad ynglŷn â newid mewn gwasanaeth.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Amherthnasol |
| **Cydweithio:** | Amherthnasol |
| **Cynnwys:** | Amherthnasol |
| **Atal:** | Amherthnasol |
| **Integreiddio:** | Amherthnasol |

**Argymhellion:**

**Argymhellir bod y Cyngor yn cymeradwyo'r canlynol:**

1. **Parhau â'r arfer presennol o beidio â thalu costau teithio wrth gyflawni dyletswyddau yn yr etholaeth;**

2. **Cymeradwyo bod y lwfansau teithio, cynhaliaeth, llety dros nos a pharcio ceir yn 2024/25 yn parhau ar yr un lefelau ag yr oeddent yn 2023/24;**

3. **Parhau â'r cynllun lwfans misol y gellir optio i mewn iddo gydag uchafswm o £10 i dalu am gostau ffôn, band eang a phostio;**

4. **Adlewyrchu talu'r lwfans hwn yn y Datganiad Taliadau blynyddol a wneir i Aelodau;**

5. **Talu ffioedd i Aelodau Cyfetholedig yn amodol ar uchafswm cyfwerth â 10 diwrnod llawn ar gyfer pob pwyllgor y cafodd unigolyn ei gyfethol iddo ar sail taliad hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn;**

6. **Parhau i gyhoeddi cyfanswm y swm a ad-dalwyd gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn heb ei bennu'n benodol i unrhyw Aelod a enwyd o ran y costau gofal a ad-dalwyd;**

7. **Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau ar gyfer 2024/2025, yn amodol ar gynnwys unrhyw newidiadau y penderfyna'r Cyngor arnynt yn y cyfarfod hwn; ac**

8. **Awdurdodi'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd i gynnwys unrhyw newidiadau cyn cyhoeddi'r ddogfen ar ôl y Cyfarfod Blynyddol sydd i'w gynnal ar 17 Mai 2024.**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**
**Er mwyn cymeradwyo Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau ar gyfer 2024/2025 fel sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Amherthnasol

**Fframwaith Polisi:**
- Penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol;
- Cyfansoddiad y Cyngor

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Amherthnasol

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Goblygiadau ychwanegol ar y Gyllideb ar gyfer 2024/2025 o ganlyniad i gynnydd yn y cyflogau sylfaenol a'r uwch-gyflogau. Mae'r cynnydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor, 29 Chwefror 2024.

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Dim.

**Goblygiadau staffio:**
Dim.

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Dim.

**Risg(iau):**
Dim.

**Pwerau Statudol:**
- Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011 fel y'i diwygiwyd gan Adrannau 62 hyd 67, Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013;
- Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol;
- Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dyddiedig Chwefror 2021;
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.

**Papurau Cefndir:**
Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dyddiedig Chwefror 2024.

**Atodiadau:**
- Atodiad A - Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau 2024/2025;
- Atodiad B – Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dyddiedig Chwefror 2024.

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Lowri Edwards
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd (Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd)

**Swyddog Adrodd:** Lowri Edwards

**Dyddiad:** 1 Mawrth 2024

ATODIAD A

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I'R AELODAU**

**BLWYDDYN FWRDEISTREFOL 2024-2025**
**(o 17 Mai 2024 ymlaen; fel y cymeradwywyd gan y Cyngor xxxx 2024)**

Mae'r Cynllun hwn yn cael ei greu o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) sy'n ymwneud â'r taliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol.

## 1. Cyflog Sylfaenol

1.1 Bydd Cyflog Sylfaenol yn cael ei dalu i bob Aelod etholedig o'r Awdurdod.

1.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfradd y Cyflog Sylfaenol yn cael ei hadolygu bob blwyddyn fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

1.3 Lle mae cyfnod swydd Aelod yn dechrau neu'n gorffen, heblaw am ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl ef/hi i gael y Cyflog Sylfaenol ar sail pro-rata.

1.4 Nid oes mwy nag un Cyflog Sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

## 2. Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig

2.1 Bydd Aelodau mewn swyddi penodol yn cael Uwch Gyflog fel y nodir yn **Atodlen 1**.

2.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfraddau'r Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel y pennir gan Adroddiad Blynyddol neu Adroddiad Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

2.3 Dim ond un Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig sy'n daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

2.4 Ni all Uwch Gyflog a Chyflog Dinesig gael eu talu i Aelod o'r Awdurdod.

2.5 Mae pob Uwch Gyflog a Chyflog Dinesig yn cynnwys y Cyflog Sylfaenol.

2.6 Ni chaiff Uwch Gyflog ei dalu i fwy na nifer yr aelodau a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol ac ni all fod yn fwy na hanner cant y cant o gyfanswm aelodaeth yr awdurdod, ac eithrio i gynnwys Deiliad Swydd dros dro sy'n derbyn Uwch Gyflog ac sy'n cyflenwi i'r teulu yn absenoldeb y deiliad swydd a benodwyd.

2.7 Caniateir i Aelodau o'r Cabinet 'rannu swydd'. Bydd pob "rhannwr" yn cael cyfran briodol o'r cyflog fel y nodir yn Atodlen 1. Serch hynny, ni ellir mynd y tu hwnt i'r uchafswm statudol ar gyfer cabinetau felly bydd y ddau rannwr swydd yn cyfrif tuag at yr uchafswm.

2.8 **Ni all** Aelod o'r Awdurdod sy’n derbyn Uwch Gyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) neu Awdurdod Tân ac Achub (ATA) y mae ef / hi wedi cael ei enwebu iddynt.

2.9 Lle mae tymor Aelod sy’n derbyn Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig yn dechrau neu'n gorffen ar adeg wahanol i ddechrau neu ddiwedd y flwyddyn arferol, bydd ei hawl ef/hi i’r Cyflog yn un pro-rata.

## 3. Penderfyniad i Beidio â Derbyn y Lwfans

3.1 Gall Aelod, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i Swyddog Priodol[1] yr awdurdod, ddewis, yn bersonol, i beidio â derbyn unrhyw ran o’i hawl i unrhyw gyflog, lwfans neu ffi sy'n daladwy o dan y Cynllun hwn o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad.

## 4. Atal Aelod

4.1 Pan fydd Aelod o'r Awdurdod yn cael ei atal, yn llwyr neu’n rhannol, o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, bydd rhan o’r Cyflog Sylfaenol sy’n daladwy iddo/iddi mewn perthynas â’r cyfnod y mae ef neu hi wedi cael ei atal/ei hatal yn cael ei ymatal gan yr Awdurdod (Adran 155 (1) y Mesur).

4.2 Pan fydd Aelod sy’n derbyn Uwch Gyflog yn cael ei atal, yn llwyr neu’n rhannol, rhag bod yn Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod beidio â gwneud taliadau Uwch Gyflog i’r Aelod drwy gydol cyfnod yr atal (Adran 155 (1) y Mesur). Os yw'r atal rhannol yn ymwneud ag elfen gyfrifoldeb benodol y taliad yn unig, gall yr aelod gadw'r Cyflog Sylfaenol.

## 5. Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd

5.1 Pan fydd taliad unrhyw gyflog, lwfans neu ffi wedi cael ei wneud i Aelod o'r Awdurdod neu i Aelod Cyfetholedig mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan fydd yr Aelod dan sylw:

(a) wedi’i atal/hatal neu wedi’i atal/hatal yn rhannol o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau’r Aelod / Aelod Cyfetholedig yn unol â Rhan 3 Deddf 2000 neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno;
(b) wedi rhoi’r gorau i fod yn Aelod neu Aelod Cyfetholedig o’r Awdurdod; neu
(c) mewn unrhyw ffordd arall heb yr hawl i dderbyn cyflog, lwfans neu ffi mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw,

bydd yr Awdurdod yn ei wneud yn ofynnol bod y cyfryw ran o'r lwfans sy'n ymwneud ag unrhyw gyfnod o'r fath yn cael ei ad-dalu.

[1] Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

## 6. Taliadau

6.1 Bydd taliadau'r holl lwfansau yn cael eu gwneud trwy *gredyd banc uniongyrchol* mewn rhandaliadau o un rhan o ddeuddeg o hawl blynyddol yr Aelod ar y diwrnod gwaith olaf bob mis.

6.2 Pan fydd y taliad wedi arwain at Aelod yn derbyn mwy na'i hawl ef/hi i gyflogau, lwfansau neu ffioedd, bydd yr Awdurdod yn gofyn bod y rhan honno sy'n ordaliad yn cael ei had-dalu.

6.3 Mae'r holl daliadau yn ddarostyngedig i'r didyniadau treth ac Yswiriant Gwladol priodol.

## 7. Cyfraniad tuag at Costau Gofal a Chymorth Personol

7.1 Dylai aelodau, gan gynnwys aelodau cyfetholedig, gael yr hawl i ad-daliad o'u costau gofal, ar gyfer gweithgareddau y mae'r cyngor unigol wedi'u dynodi'n fusnes swyddogol neu'n ddyletswydd gymeradwy a allai gynnwys amser priodol a rhesymol ar gyfer paratoi a theithio. Mater i'r awdurdodau unigol yw penderfynu ar drefniadau penodol i roi hyn ar waith; rhaid i bob awdurdod sicrhau bod unrhyw daliadau a wneir â chysylltiad priodol â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy.

7.2 Rhaid i'r cyfraniad fod am y **costau ychwanegol** a ysgwyddwyd gan yr Aelodau i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau cymeradwy.

7.3 Gellir gwneud hawliad mewn perthynas â dibynnydd o dan 16 mlwydd oed neu berson ifanc dan oed neu oedolyn sydd fel arfer yn byw gyda'r aelod fel rhan o'i deulu ac na ellir ei adael heb oruchwyliaeth.

7.4 Gellir hawlio ad-daliad pan am gofal neu gymorth yr Aelod eu hyn ble nad yw'r cymorth a/neu gost unrhyw anghenion ychwanegol ar gael gan yr awdurdod, neu pan nad yw'r awdurdod yn talu'n uniongyrchol amdanynt (megis Mynediad i Waith, Taliadau Personol, yswiriant).

7.5 Gellir hawlio cyfraniadau ar gyfer gofal ffurfiol neu anffurfiol fel a ganlyn:

- Costau gofal ffurfiol (wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru) i'w talu yn unol â thystiolaeth.
- Costau gofal anffurfiol (heb gofrestru) i'w talu hyd at gyfradd uchaf sy'n gyfwerth â Chyflog Byw Gwirioneddol y DU ar yr adeg pan aethpwyd i'r costau.

Ni ellir talu costau gofal i rywun sy'n rhan o aelwyd yr aelod.

7.6 Dylid gwneud yr holl hawliadau am gyfraniad tuag at costau gofal a chymorth personol yn ysgrifenedig i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd gan roi manylion yr amserau, y dyddiadau a'r rhesymau dros hawlio. Mae'n ofynnol i gyflwyno derbynebau ar gyfer trefniadau gofal ffurfiol ac anffurfiol.

## 8. Absenoldeb Teuluol

8.1 Mae gan Aelodau hawl o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 i gyfnod o absenoldeb teuluol, lle os ydynt yn bodloni'r amodau a ragnodir, y mae ganddynt hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd yr awdurdod.

8.2 Mae Absenoldeb Teuluol yn cynnwys absenoldebau mamolaeth, newydd-anedig, mabwysiadu ac absenoldeb rhiant o fusnes swyddogol.

8.3 Wrth gymryd absenoldeb teuluol mae gan Aelodau'r hawl i gadw cyflog sylfaenol beth bynnag yw eu cofnod presenoldeb yn union cyn cychwyn yr absenoldeb teuluol.

8.4 Petai deiliad uwch gyflog yn gymwys i gael absenoldeb teuluol bydd yn gallu parhau i dderbyn ei uwch gyflog drwy gydol yr absenoldeb.

8.5 Os bydd yr awdurdod yn cytuno ei bod yn angenrheidiol i benodi eilydd i ddirprwyo yn ystod absenoldeb teuluol y deiliad ar uwch gyflog, bydd yr Aelod sy'n dirprwyo yn gymwys i dderbyn uwch gyflog hefyd os yw'r awdurdod yn penderfynu felly.

8.6 Os bydd y taliad i'r eilydd a benodir yn achosi i'r awdurdod gael mwy na'r nifer uchaf o Uwch Gyflogau a bennwyd ar ei gyfer, bydd hyn yn cael ei ganiatáu am gyfnod penodiad yr eilydd.

8.7 Os bydd y Cyngor yn cytuno i benodi eilydd gyda thâl ar gyfer absenoldeb teuluol, rhaid hysbysu'r Panel o'r manylion o fewn 14 diwrnod o'r penderfyniad, gan gynnwys y swydd dan sylw a hyd y penodiad. Rhaid diwygio Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau hefyd i adlewyrchu goblygiadau'r absenoldeb teuluol.

## 9. Absenoldeb Salwch Rhai sydd ar Uwch Gyflogau

9.1 Mae'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol (a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn 2014) yn benodol iawn mewn perthynas â hawliau, ac ar gael i aelodau etholedig prif gynghorau'n unig. Nid yw absenoldeb oherwydd afiechyd wedi'i gynnwys.

9.2 Mae'r Panel wedi ystyried pryderon a godwyd ynghylch y trefniadau o'u cymharu â rhai absenoldeb teuluol ac felly mae wedi diwygio'r Fframwaith i ddarparu trefniadau penodol ar gyfer salwch hirdymor fel y nodir isod:

a) Diffinnir salwch hirdymor fel absenoldeb ardystiedig o dros 4 wythnos.

b) Y cyfnod absenoldeb salwch hiraf a ganiateir o fewn y cynigion hyn yw 26 wythnos neu nes bod cyfnod mewn swydd yr unigolyn yn dod i ben, pa un bynnag a ddaw gyntaf (ond os caiff yr unigolyn ei ail-benodi, bydd unrhyw gyfnod sy'n weddill o'r 26 wythnos yn cael ei gynnwys).

c) O fewn y paramedrau hyn, gall rhywun sydd ar gyflog uwch sydd ar absenoldeb salwch hirdymor, yn ôl disgresiwn yr awdurdod, barhau i dderbyn tâl am y swydd.

d) Yr awdurdod fydd yn penderfynu p'un ai i benodi eilydd ai peidio, ond bydd yr eilydd yn gymwys i dderbyn y cyflog uwch priodol ar gyfer y swydd.

e) Os bydd cyflog yr eilydd yn golygu bod yr awdurdod yn talu mwy o uwch gyflogau na'r hyn a ganiateir ar gyfer yr awdurdod hwnnw yn yr Adroddiad Blynyddol, caniateir ychwanegiad dros gyfnod talu'r eilydd.

f) Pan fydd awdurdod yn cytuno i gael eilydd gyda thâl, rhaid hysbysu'r Panel o'r manylion o fewn 14 diwrnod o'r penderfyniad, gan gynnwys y swydd dan sylw ac amcangyfrif o hyd penodiad yr eilydd. Rhaid diwygio Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol yr awdurdod fel y bo angen hefyd.

g) Nid yw hyn yn berthnasol i aelodau etholedig prif gynghorau nad ydynt ar uwch gyflogau, am eu bod yn parhau i dderbyn cyflog sylfaenol am o leiaf chwe mis, p'un ai ydyn nhw'n mynychu ai peidio, ac mae unrhyw estyniad y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw'n fater ar gyfer yr awdurdod.

9.3 Nid yw'r trefniant hwn yn berthnasol i aelodau cyfetholedig.

9.4 Mae'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol yn berthnasol i aelodau etholedig mewn achosion o absenoldeb mamolaeth, absenoldeb newydd-anedig, absenoldeb mabwysiadu ac absenoldeb rhiant, o fusnes swyddogol (gweler uchod).

## 10. Gwasanaeth Cwnsela

10.1 Gall yr Aelodau ddefnyddio Gwasanaeth Cwnsela'r Cyngor. Mae'r gwasanaeth yn gyfrinachol ac ni chedwir cofnodion ynglŷn â'r sawl sydd wedi cysylltu â'r gwasanaeth.

## 11. Taliadau Aelodau Cyfetholedig

Rhaid i ffi ddyddiol Aelodau Cyfetholedig (gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod) gael ei thalu i aelodau cyfetholedig, ar yr amod eu bod yn Aelodau Cyfetholedig statudol gyda hawliau pleidleisio.

11.2 Bydd taliadau Aelodau Cyfetholedig yn cael eu capio ar uchafswm sy'n cyfateb i 10 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y gall unigolyn gael ei gyfethol iddo.

11.3 Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd wedi'i ddynodi fel y "swyddog priodol" a bydd yn pennu amser paratoi, amser teithio a hyd y cyfarfod. Telir y ffi ar sail y penderfyniad hwn.

11.4 Gall y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd benderfynu ymlaen llaw a yw'r cyfarfod wedi'i raglennu ar gyfer diwrnod llawn, a thelir y ffi ar sail y penderfyniad hwn, hyd yn oed os bydd y cyfarfod yn dod i ben cyn bod pedair awr wedi mynd heibio.

11.5 Mae cyfarfod hanner diwrnod yn cael ei ddiffinio fel un hyd at 4 awr.

11.6 Mae cyfarfod diwrnod llawn yn cael ei ddiffinio fel un dros 4 awr.

11.7 Gall y taliadau fod ar gyfer cyfnodau mynychu cyfarfodydd priodol, digwyddiadau hyfforddi awdurdodedig, cynadleddau, a chwrdd â swyddogion ymlaen llaw.

11.8 Mae'r amser a dreulir yn paratoi ac yn teithio i/o gyfarfodydd yn cael ei ystyried wrth asesu lefel y ffi sy'n daladwy. Gellir ystyried yr amser paratoi a theithio hefyd felly wrth benderfynu a yw'r cyfnod dros 4 awr ai peidio.

11.9 Mae'r ffi ddyddiol a'r ffi hanner diwrnod ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel y'u pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn cael eu nodi yn **Atodlen 1**.

11.10 Mae'r ffi ddyddiol a'r ffi hanner diwrnod ar gyfer Aelodau Cyfetholedig statudol eraill sydd â hawliau pleidleisio, fel y'u pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn cael eu nodi yn **Atodlen 1**.

## 12. Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth

### 12.1 Egwyddorion Cyffredinol

12.2 Gall Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig hawlio costau teithio wrth deithio ar fusnes yr Awdurdod ar gyfer 'dyletswyddau cymeradwy' fel y nodir yn **Atodlen 2**. Lle bo aelodau'n teithio ar fusnes yr Awdurdod, disgwylir iddynt deithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-effeithiol. Wrth asesu cost-effeithiolrwydd bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i amser teithio. Gall cais costau gan Aelod nad yw'n teithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-effeithiol gael ei leihau gan y swm priodol.

12.3 Os yw Cynghorydd yn bwriadu hawlio costau teithio a threuliau, rhaid i bresenoldeb wyneb yn wyneb mewn cynadleddau, seminarau, cyfarfodydd allanol a digwyddiadau hyfforddi tu allan i'r Sir, gysylltu â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Democrataidd er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn y gyllideb a bod angen mynychu'n bersonol.

12.4 Lle'n bosibl dylai Aelodau rannu cludiant.

12.5 Dylai'r pellter a hawlir am filltiroedd fod am y daith fyrraf resymol ar y ffordd o'r man ymadael hyd at y pwynt lle mae'r ddyletswydd yn digwydd, ac yn yr un modd o'r man lle y mae'r ddyletswydd yn digwydd i'r man dychwelyd.

12.6 Mae cyfraddau Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth Aelodau wedi'u nodi yn **Atodlen 3** ac maent yn destun adolygiad blynyddol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

12.7 Pan fydd Aelod yn cael ei atal/hatal yn llwyr neu'n rhannol o'i gyfrifoldebau/chyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i unrhyw lwfansau teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy iddo/iddi mewn perthynas â'r cyfnod y mae ef neu hi yn cael ei atal/hatal gael eu hymatal gan yr Awdurdod.

## 13. Teithio mewn Cerbyd Personol

13.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu mai’r cyfraddau teithio uchaf sy'n daladwy fydd y cyfraddau a nodir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) ar gyfer y defnydd o geir preifat, beiciau modur a beiciau pedal yn ogystal â thâl ychwanegol am deithwyr eraill.

13.2 Mae'r cyfraddau milltiredd ar gyfer cerbydau preifat fel y’u pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi'u nodi yn **Atodlen 3**.

13.3 Pan fydd Aelod yn defnyddio ei g/cherbyd preifat ar gyfer dibenion dyletswydd gymeradwy, rhaid i'r cerbyd gael ei yswirio at ddefnydd busnes. Rhaid darparu prawf o yswiriant priodol i'r Awdurdod ar gais.

## 14. Teithio ar Gludiant Cyhoeddus

### 14.1 Taith Trên / Bws

Oni bai bod caniatâd arbennig wedi’i roi, bydd pob tocyn a brynir yn docyn ail-ddosbarth.

Bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn prynu tocynnau bws a rheilffyrdd gofynnol i Aelodau cyn y teithiau. Yn yr achos annhebygol bod angen i Aelod brynu tocyn yn uniongyrchol, bydd y taliad yn cael ei ad-dalu ar ôl cyflwyno'r tocyn a ddefnyddiwyd a / neu dderbynneb.

### 14.2 Costau Tacsi

Bydd costau tacsi ond yn cael eu had-dalu lle mae eu defnydd wedi eu caniatáu ar gyfer achosion brys, lle nad oes cludiant cyhoeddus ar gael yn rhesymol, neu fod gan Aelod angen personol penodol. Bydd ad-daliad ar sail derbynneb yn unig.

### 14.3 Costau Teithio Eraill

Bydd hawl gan Aelodau i gael ad-daliad o ran ffioedd tollau, ffioedd parcio, garejis dros nos a chostau eraill sy'n gysylltiedig â theithio angenrheidiol. Bydd ad-daliad ar sail derbynneb yn unig.

## 15. Llety Dros Nos

15.1 Bydd aros dros nos yn cael ei ganiatáu lle mae busnes yr Awdurdod yn ymestyn i ddau ddiwrnod neu fwy yn unig, neu os yw'r lleoliad mor bell y byddai teithio’n gynnar yn y bore neu’n hwyr y nos yn afresymol. Rhaid i bob arhosiad dros nos gael ei ganiatáu ymlaen llaw gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

15.2 Bydd llety dros nos yn cael ei archebu gan y Gwasanaethau Democrataidd. Lle bynnag y bo modd, bydd y llety dros nos yn cael ei ragdalu neu ei anfonebu.

15.3 Bydd llety dros nos a archebwyd yn uniongyrchol gan Aelod yn cael ei ganiatáu mewn achos o argyfwng yn unig. Bydd ad-dalu ond yn digwydd pan fydd derbynneb yn cael ei chyflwyno ac ystyrir bod y lefel yn rhesymol ac nad yw’n fwy na'r cyfraddau a nodir yn **Atodlen 3**.

## 16. Lwfans Cynhaliaeth

16.1 Mae’r gyfradd gynhaliaeth am ddiwrnod er mwyn cwrdd â chostau prydau bwyd a lluniaeth mewn cysylltiad â dyletswyddau cymeradwy (gan gynnwys brecwast pan nad yw’n cael ei ddarparu fel rhan o lety dros nos) yn cael ei nodi yn **Atodlen 3**. Mae'r gyfradd ddyddiol uchaf yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd sy'n berthnasol, ar yr amod fod cais o'r fath yn cael ei gefnogi gan dderbynneb/dderbynebau.

16.2 Nid oes darpariaeth ar gyfer hawlio cynhaliaeth o fewn y Sir.

## 17. Ceisiadau a Thaliadau

17.1 Rhaid i gais am lwfansau teithio a chynhaliaeth gael ei wneud yn ysgrifenedig o fewn un mis i ddiwedd y mis calendr y mae’r cais yn perthyn iddo a rhaid anfon y derbynebau perthnasol.

17.2 Cyflwynir ceisiadau drwy’r system Hunan-wasanaeth Ceri.

17.3 Bydd lwfansau yn cael eu talu gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd drwy *gredyd banc uniongyrchol.*

17.4 Ni fydd lwfansau’n cael eu talu ar gyfer hawliadau a wneir tri mis (92 diwrnod) ar ôl i’r dyddiad y mae’r hawl i’r lwfans yn perthyn iddo.

## 18. Lwfans Cymorth i Aelodau

18.1 Bydd lwfans o £10 y mis y gellir optio i mewn iddo ar gael i Aelodau i dalu am gostau ffôn, band eang a phostio.

18.2 Gall Aelod, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i Swyddog Priodol[2] yr awdurdod, optio i mewn i’r Lwfans Cymorth i Aelodau, o’r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad.

## 19. Pensiynau

19.1 Bydd yr Awdurdod yn galluogi ei aelodau sy'n gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol.

[2] Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

## 20. Cefnogi gwaith yr Aelodau

20.1 Bydd yr Aelodau yn derbyn offer TGCh a chyfeiriad e-bost gan y Cyngor er mwyn cyflawni eu dyletswyddau wyneb yn wyneb neu o bell.

20.2 Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn adolygu lefel y cymorth a roddir i Aelodau i gyflawni eu dyletswyddau yn rheolaidd.

## 21. Cydymffurfio

21.1 Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â gofynion y Panel mewn perthynas â monitro a chyhoeddi taliadau a wnaed i aelodau ac aelodau cyfetholedig fel y nodir yn **Atodlen 4**.

**Atgoffir yr Aelodau bod ceisiadau am dreuliau yn destun archwilio mewnol ac allanol.**

## ATODLEN 1

## RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2024/2025

| | AELODAU SYDD Â'R HAWL I GYFLOG SYLFAENOL | SWM BLYNYDDOL Y CYFLOG SYLFAENOL |
|---|---|---|
| | Aelodau etholedig canlynol yr awdurdod a enwir:<br><br>1. Cynghorydd<br>2. Cynghorydd<br>3. Cynghorydd<br>4. Cynghorydd<br>5. Cynghorydd<br>6. Cynghorydd<br>7. Cynghorydd<br>8. Cynghorydd<br>9. Cynghorydd<br>10. Cynghorydd<br>11. Cynghorydd<br>12. Cynghorydd<br>13. Cynghorydd<br>14. Cynghorydd<br>15. Cynghorydd<br>16. Cynghorydd<br>17. Cynghorydd<br>18. Cynghorydd<br>19. Cynghorydd<br>20. Cynghorydd | £18,666 |

| | HAWL I UWCH GYFLOGAU (yn cynnwys cyflog sylfaenol) | | SWM BLYNYDDOL YR UWCH GYFLOG | BAND |
|---|---|---|---|---|
| | RÔL | AELOD | | |
| 1. | Arweinydd | Cynghorydd | £59,498 | 1 |
| 2. | Dirprwy Arweinydd | Cynghorydd | £41,649 | 1 |
| 3. | Aelod Cabinet | Cynghorydd | £35,699 | 2 |
| 4. | Aelod Cabinet | Cynghorydd | £35,699 | 2 |
| 5. | Aelod Cabinet | Cynghorydd | £35,699 | 2 |
| 6. | Aelod Cabinet | Cynghorydd | £35,699 | 2 |
| 7. | Aelod Cabinet | Cynghorydd | £35,699 | 2 |

| | HAWL I UWCH GYFLOGAU (yn cynnwys cyflog sylfaenol) | | SWM BLYNYDDOL YR UWCH GYFLOG | BAND |
|---|---|---|---|---|
| | **RÔL** | **AELOD** | | |
| 8. | Aelod Cabinet | Cynghorydd | £35,699 | 2 |
| 9. | Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol | Cynghorydd | £27,999 | 3 |
| 10. | Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach | Cynghorydd | £27,999 | 3 |
| 11. | Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu | Cynghorydd | £27,999 | 3 |
| 12. | Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus | Cynghorydd | £27,999 | 3 |
| 13. | Cadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu | Cynghorydd | £27,999 | 3 |
| 14. | Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu | Cynghorydd | £27,999 | 3 |
| 15. | Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu | Cynghorydd | £27,999 | 3 |
| 16. | Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Cynghorydd | £27,999 | 3 |
| 17. | Arweinydd Grŵp yr Wrthblaid Fwyaf | Cynghorydd | £27,999 | 4 |
| Gall uchafswm o 17 o uwch gyflogau gael eu talu ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion ac nid yw hyn wedi'i dorri. | | | | |

| HAWL I GYFLOGAU DINESIG | | SWM BLYNYDDOL Y CYFLOG DINESIG |
|---|---|---|
| **RÔL** | **AELOD** | |
| Arweinydd Dinesig (Cadeirydd y Cyngor) | Cynghorydd | £27,999 |
| Dirprwy Arweinydd Dinesig (Is-gadeirydd y Cyngor) | Cynghorydd | £22,406 |

| HAWL FEL AELODAU CYFETHOLEDIG STATUDOL | | SWM LWFANS AELOD CYFETHOLEDIG |
|---|---|---|
| **RÔL** | **AELOD** | |
| Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau | | £268 (4 awr a mwy)<br><br>£134 (hyd at 4 awr)<br><br>(£33.50 yr awr) |
| Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | | £268 (4 awr a mwy)<br><br>£134 (hyd at 4 awr)<br><br>(£33.50 yr awr) |
| Aelodau Cyffredin<br>- Pwyllgor Safonau<br>- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu<br>- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | <u>Safonau:</u><br><br><u>Craffu</u><br><br><u>Llywodraethu ac Archwilio</u> | £210 (4 awr a mwy)<br><br>£105 (hyd at 4 awr)<br><br>(£26.25 yr awr) |
| Cynghorwyr Cymuned a Thref sy'n eistedd ar y Pwyllgor Safonau | Cynghorydd<br>Cynghorydd | £238 (4 awr a mwy)<br><br>£119 (hyd at 4 awr)<br><br>(£29.75 yr awr) |

| AELODAU SY’N GYMWYS I DDERBYN CYFRANIAD TUAG AT COSTAU GOFAL NEU CHYMORTH PERSONOL | |
|---|---|
| Pob Aelod<br><br>Rhaid i ofalwyr gyflwyno derbynebau gyda phob hawliad. | • Costau gofal ffurfiol (wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru) i’w talu yn unol â thystiolaeth.<br>• Costau gofal anffurfiol (heb gofrestru) i’w talu hyd at gyfradd uchaf sy’n gyfwerth â Chyflog Byw Gwirioneddol y DU ar yr adeg pan aethpwyd i’r costau.<br><br>Ni ellir talu costau gofal i rywun sy’n rhan o aelwyd yr aelod. |

**ATODLEN 2**

Mae gan aelodau, gan gynnwys aelodau cyfetholedig, hawl i hawlio ad-daliad ar gyfer costau teithio, ar gyfer gweithgareddau sydd wedi'u dynodi'n fusnes swyddogol neu'n ddyletswydd gymeradwy gan Gyngor Sir Ceredigion. Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gall aelodau fynychu holl gyfarfodydd swyddogol y Cyngor o bell neu wyneb yn wyneb.

Oni bai y gofynnir yn benodol iddynt fod yn bresennol wyneb yn wyneb, disgwylir i aelodau fynychu o bell, gan gyfrannu at y manteision economaidd a'r manteision amgylcheddol i'r Cyngor.

Mae Aelodau, gan gynnwys aelodau cyfetholedig, hefyd yn gymwys i hawlio tuag at y costau angenrheidiol ar gyfer gofalu am blant ac oedolion dibynnol ac ar gyfer anghenion cymorth personol, yn unol â manylebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, fel y'i mabwysiadwyd gan Gyngor Sir Ceredigion. Rhaid i hyn fod ar gyfer y **costau ychwanegol** a ysgwyddir gan aelodau i'w galluogi i gyflawni busnes swyddogol neu ddyletswyddau cymeradwy, ar ôl iddynt gyflwyno derbynebau gan y darparwr gofal.

**Dyletswyddau cymeradwy**:

Dylai cynghorwyr gysylltu â Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Democrataidd os ydynt yn bwriadu hawlio costau teithio a threuliau ar gyfer presenoldeb wyneb yn wyneb mewn cynadleddau, seminarau, cyfarfodydd y tu allan i'r sir a digwyddiadau hyfforddi, er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn y gyllideb a bod angen presenoldeb wyneb yn wyneb.

- bod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Awdurdod neu unrhyw bwyllgor o'r Awdurdod neu unrhyw gorff y mae'r Awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu unrhyw bwyllgor o'r fath gorff;

- bod yn bresennol mewn cyfarfod o unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r Awdurdod yn aelod ohoni;

- bod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod arall y mae ei gynnal wedi cael ei awdurdodi gan yr Awdurdod neu gan bwyllgor o'r Awdurdod neu gan bwyllgor ar y cyd o'r Awdurdod ac un neu fwy o Awdurdodau eraill;

- dyletswydd a ymgymerir at y diben o gyflawni swyddogaethau'r Cabinet neu mewn cysylltiad â'u cyflawni;

- bod yn bresennol mewn unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwywyd gan yr Awdurdod neu ei Gabinet;

- unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwywyd gan yr Awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd o ddosbarth a gymeradwywyd felly, a ymgymerir at y diben o gyflawni neu mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau;

- mynychu cynadleddau, seminarau a chyfarfodydd eraill y mae Aelodau wedi'u hawdurdodi i'w mynychu;

- mynychu cyfarfodydd fforymau ymgynghori, partneriaethau, paneli neu weithgorau;
- mynychu cyfarfodydd cyrff allanol y mae Aelodau wedi'u hawdurdodi i'w mynychu, neu pan na ellir eu cynnal o bell;
- mynychu cyfarfodydd dilys gyda swyddogion y Cyngor a chyrff eraill er mwyn cyflawni'u swyddogaethau fel aelodau;
- aelodau anweithredol i fynychu cyfarfodydd y Cabinet trwy wahoddiad, neu fel arsylwyr, pan na allant fod yn bresennol o bell.

  Sylwer: Ni chaiff yr Aelodau hawlio costau teithio, costau cynhaliaeth na chostau sy'n ymwneud â pharcio ceir pan fyddant yn ymgymryd â dyletswyddau etholaethol.

**ATODLEN 3**

**Cyfraddau Milltiredd**

| | |
|---|---|
| Cerbydau modur o bob maint<br>Hyd at 10,000 milltir<br>Dros 10,000 milltir | <br>45 ceiniog y filltir<br>25 ceiniog y filltir |
| Beiciau modur preifat<br>Beiciau pedal | 24 ceiniog y filltir<br>20 ceiniog y filltir |
| Tâl ychwanegol am deithwyr eraill h.y. am bob teithiwr sydd ar fusnes yr awdurdod | 5 ceiniog y filltir |

**Lwfans Cynhaliaeth**

Uchafswm y gyfradd gynhaliaeth am ddiwrnod yw £28 ac mae'n cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd bwyd, os yw'n berthnasol, ar yr amod ei fod yn cael ei gefnogi gan dderbynebau (gan gynnwys brecwast os nad yw hwnnw wedi'i gynnwys yn y tâl dros nos).

Yr uchafsymiau ar gyfer y lwfansau cynhaliaeth yw:

| **Uchafsymiau'r Lwfansau Cynhaliaeth**<br>Nid yw hyn ond yn berthnasol i gyfarfodydd, ac ati, a gynhelir y tu allan i Geredigion | |
|---|---|
| Brecwast: am absenoldeb o 4 awr neu fwy cyn 11.00am a phan na ddarperir brecwast yn rhan o lety dros nos | £6.30 |
| Cinio: am absenoldeb o 4 awr neu fwy sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 12.00 canol dydd a 2.00pm | £8.65 |
| Te: am absenoldeb o 4 awr neu fwy sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 3.00pm a 6.00pm | £3.45 |
| Swper: am absenoldeb o 4 awr neu fwy sy'n dod i ben ar ôl 7.00pm | £11.55 |
| **YN AMODOL ar uchafswm dyddiol o:** | **£28.00** |
| Sylwer:<br>• £28 y dydd yw'r uchafswm y gellir ei hawlio os arhosir dros nos (felly os na arhosir dros nos, byddai'r uchafswm yn llai na £28);<br>• Os bydd y Cynghorydd wedi aros dros nos a bod y llety'n cynnwys brecwast, ni ddylai'r £28 gynnwys cost brecwast. | |

Ni chaniateir ad-daliad ar gyfer diodydd alcoholig.

Ni ellir hawlio lwfansau cynhaliaeth ar gyfer dyletswyddau a wneir ar ran y Cyngor o fewn y Sir.

**Llety dros nos**

Uchafswm y lwfansau ar gyfer aros dros nos yw £200 ar gyfer Llundain a £95 ar gyfer mannau eraill (llety yn unig). Mae uchafswm o £30 ar gael ar gyfer aros dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau tra ar ddyletswydd gymeradwy.

**Lwfans Cymorth i Aelodau y gellir optio i mewn iddo**

Gall yr Aelodau optio i mewn i dderbyn lwfans o £10 y mis i dalu am gostau ffôn, band eang a phostio.

**Parcio Ceir**

Gall yr Aelodau hawlio am y costau sy'n ymwneud â pharcio ceir ar yr amod eu bod yn cyflwyno derbynneb. Ni thelir y costau am barcio ceir os bydd y cais am ad-daliad yn cael ei wneud mwy na 3 mis (92 diwrnod) o'r diwrnod y talwyd y gost.

**Rhaid i'r holl hawliadau, gan gynnwys derbynebau i'w cefnogi, gael eu cyflwyno o fewn 3 mis (92 diwrnod) i'r diwrnod y talwyd y gost.**

**ATODLEN 4**

**Cydymffurfio**

- Bydd yr awdurdod yn trefnu i gyhoeddi, ar wefan y cyngor, y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob Aelod ac aelod cyfetholedig o ran cyflogau, lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau ddim hwyrach na 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud ag ef. Er budd tryloywder bydd hyn yn cynnwys cydnabyddiaeth yn sgil bob penodiad o ran gwasanaethau cyhoeddus a ddelir gan aelodau etholedig.

- Bydd yr awdurdod yn cyhoeddi, ar wefan y Cyngor, ddatganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd a disgrifiadau rôl ar gyfer deiliaid swyddi uwch gyflog, sy’n nodi'n glir y dyletswyddau disgwyliedig.

- Bydd yr awdurdod yn cyhoeddi yn flynyddol, ar wefan y Cyngor, Restr o Gydnabyddiaeth Ariannol i’r Aelodau ddim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae’r Rhestr yn cyfeirio ati.

- Bydd yr awdurdod yn anfon copi o'r Rhestr i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ddim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae’r Rhestr yn cyfeirio ati.

- Bydd yr awdurdod yn cadw cofnodion o bresenoldeb Aelodau / aelodau cyfetholedig mewn cyfarfodydd o'r Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau ac yn cadw cofnodion o ddyletswyddau cymeradwy eraill y mae aelod / aelodau cyfetholedig yn cyflwyno cais am ad-daliad amdanynt.

- Bydd yr awdurdod yn trefnu i gyhoeddi’r adroddiadau blynyddol a baratoir gan yr aelodau ar wefan y Cyngor.

- Pan fydd yr awdurdod yn cytuno i dalu dirprwy am gyfnod absenoldeb teuluol, bydd yn rhoi gwybod i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o fewn 14 diwrnod o’r penderfyniad gyda’r manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd y dirprwyad.

- Mae’r Cyngor wedi cadw o fewn yr uchafswm o Uwch Gyflogau (h.y. 17) a osodwyd ar ei gyfer.

Atodiad B

Panel Annibynnol Cymru
ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration
Panel for Wales

# Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

## Adroddiad Blynyddol

Chwefror 2024

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49490, ISBN digidol 978-1-83577-681-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Cynnwys

**Tudalen(nau)**

| Cynnwys | Tudalen(nau) |
|---|---|
| Rhagair | 1 |
| Crynodeb Gweithredol | 2-3 |
| Rôl a chyfrifoldebau'r Panel | 4-5 |
| Methodoleg: Trafodaethau a phenderfyniadau ar gyfer 2024- 2025 | 6 |
| Ymgynghoriad: Crynodeb o'r Ymatebion | 7-11 |
| Penderfyniadau’r Panel ar gyfer 2024 i 2025 | 12-19 |
| Crynodeb o'r Penderfyniadau ar gyfer 2024 i 2025 | 20-21 |
| Manylion cyswllt | 22 |

**Rhagair**

Croeso i Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sy'n nodi'r penderfyniadau ynghylch taliadau, treuliau a buddion i aelodau etholedig Prif Gynghorau, Cynghorau Cymuned a Thref, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub sydd i'w rhoi ar waith o fis Ebrill 2024 ymlaen.

Bu hon yn flwyddyn o newid i'r Panel, gydag un aelod hirsefydlog yn ymadael a dau aelod newydd yn cael eu penodi. Hoffwn ddiolch i Helen Wilkinson am ei chyfraniad i'r panel dros y blynyddoedd a dymuno'n dda iddi ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, llwyddwyd i benodi dau aelod newydd sy'n golygu bod gan y Panel bum aelod erbyn hyn. Croeso i Dianne Bevan a Kate Watkins i'r Panel a diolch i Saz Willey, yr Is-gadeirydd, a Bev Smith am eu cyfraniad drwy gydol y flwyddyn. Ceir rhagor o wybodaeth am aelodau'r Panel ar ein gwefan.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Rhan 8 (Y Mesur), sy'n rhoi'r awdurdod statudol dros waith y Panel, yn caniatáu penodi isafswm o 3 aelod ac uchafswm o 7 aelod.



Frances Duffy
Cadeirydd

Ceir gwybodaeth fanwl am yr aelodau, ein Cynllun Strategol a'n trafodaethau, ynghyd ag ymchwil a thystiolaeth ategol, ar wefan y Panel.

**Crynodeb Gweithredol**

Y llynedd, cyhoeddwyd ein Cynllun Strategol cyntaf. Mae hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2023 a 2025 ac mae'n amlinellu'r fframwaith ar gyfer ein trafodaethau a chyd-destun ehangach ein penderfyniadau. Nodir yr elfennau allweddol isod o dan Rolau a Chyfrifoldebau'r Panel.

Ar ôl cryfhau'r Panel, roeddem yn gallu canolbwyntio ar lunio ein cynllun ymchwil a thystiolaeth i gefnogi ein trafodaethau ar ein fframwaith cydnabyddiaeth ariannol. Mae ein cynllun tystiolaeth ar gael ar ein gwefan yn unol â'n nod o fod yn agored ac yn dryloyw yn ein holl benderfyniadau.

Ein nod o hyd yw sicrhau bod lefelau cydnabyddiaeth ariannol yn deg ac yn rhesymol. Gwnaethom gytuno i barhau i gysoni lefelau cydnabyddiaeth ariannol i aelodau etholedig Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yng nghyd-destun enillion cyfartalog yng Nghymru. Mae hyn wedi golygu defnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yng Nghymru (ASHE) a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn brif feincnod wrth bennu cydnabyddiaeth ariannol.

Mae'r Mesur yn nodi bod rhaid i'r Panel ystyried beth, yn ei farn ef, fydd effaith ariannol debygol ei benderfyniadau ar awdurdodau perthnasol. Ystyriodd y Panel dystiolaeth ynglŷn â sefyllfa ariannol y sector cyhoeddus a'r effaith ar gyllidebau Prif Awdurdodau. Er bod cyfanswm cost cydnabyddiaeth ariannol i aelodau etholedig yn gymharol isel yn nhermau'r cyllidebau cyffredinol, roedd y Panel yn ystyriol o'r pwysau economaidd a chyllidol cynyddol ar Brif Gynghorau.

**Wrth wneud ein penderfyniad i gadw'r cysylltiad rhwng cydnabyddiaeth ariannol aelodau etholedig Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub ac enillion cyfartalog eu hetholwyr (ASHE),** mae'r Panel o'r farn y bydd pecyn cydnabyddiaeth ariannol teg a rhesymol yn parhau i gefnogi aelodau etholedig ac na fydd yn rhwystr i bobl rhag cymryd rhan. Mae hon yn egwyddor bwysig, sy'n sail i'n hystyriaethau o gydnabyddiaeth ariannol briodol. Cafodd hyn gefnogaeth eang yn ein cyfarfodydd ymgysylltu ac yn yr adborth i'r ymgynghoriad.

Yn unol â'n hymrwymiad i symleiddio prosesau adrodd a chydymffurfio, y flwyddyn hon, edrychodd y Panel ar y gofynion adrodd ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref. Ar hyn o bryd, rhaid i bob Cyngor Cymuned a Thref gyflwyno adroddiad i'r Panel bob blwyddyn a chyhoeddi ar ei wefan fanylion ac enwau pob cynghorydd sy'n cael unrhyw dreuliau. Mewn blynyddoedd blaenorol, gwnaethom gytuno, o ran costau lwfansau gofal a chymorth personol, y byddai'n amhriodol enwi cynghorwyr unigol, ac y byddai'n ddigon rhestru'r cyfansymiau a dalwyd a chyfanswm nifer y rhai a'u cafodd.

**Mae'r Panel yn teimlo y byddai'n briodol estyn hyn i'r taliad gorfodol am weithio gartref, y lwfans cyfradd safonol am nwyddau traul, a hawliadau teithio a chynhaliaeth.** Bydd hyn yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng atebolrwydd cyhoeddus a phreifatrwydd unigolion, ac rydym yn gobeithio y bydd yn annog pawb i hawlio'r taliadau y mae ganddynt yr hawl i'w derbyn. Cafwyd ymateb cadarnhaol i hyn yn ystod yr ymgynghori a'r ymgysylltu.

Byddwn yn darparu adroddiad templed newydd i'w ddefnyddio o fis Medi 2024 a byddwn yn parhau i fonitro lefel y taliadau a wneir.

Rydym yn parhau i gael ymholiadau ynglŷn â'r ymdriniaeth PAYE â'r lwfans gorfodol am weithio gartref (£156 y flwyddyn) a'r opsiwn o dalu cyfradd safonol o £52 y flwyddyn am nwyddau traul. Rydym yn diweddaru ein canllawiau ar y mater hwn, a ddylai helpu i roi eglurder i glercod lleol.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod rhai cynghorwyr Cymuned a Thref yn penderfynu peidio â hawlio'r symiau y mae ganddynt hawl iddynt, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, er bod y niferoedd yn lleihau erbyn hyn. Credwn yn gryf y dylai cynghorwyr gael ad-daliad o'r treuliau y maent, yn annorfod, yn eu hysgwyddo wrth gyflawni eu dyletswyddau, neu y dylent gael cyfraniad i helpu i'w digolledu am y costau hyn. Rydym yn pwysleisio eto bod y taliadau sylfaenol yn orfodol ac y dylent fod ar gael i'r holl gynghorwyr sydd â hawl i'w cael. Rhaid i unrhyw benderfyniad i beidio â derbyn y taliadau hyn fod yn ddewis personol ac unigol.

Y maes olaf a ystyriwyd gan y Panel oedd y dull o gyfrifo taliadau a wneir i aelodau cyfetholedig o Brif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub.

Yn dilyn adborth ar Adroddiad Blynyddol y llynedd ac ymholiadau a godwyd drwy gydol y flwyddyn gan rai aelodau cyfetholedig a chan sawl Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, cymerodd y Panel dystiolaeth gan y gohebwyr ynglŷn ag effaith y cynnydd yn nifer yr aelodau cyfetholedig a natur newidiol patrymau gwaith. Roedd hyn yn dangos nad oedd y trefniant presennol o gyfradd hanner diwrnod am unrhyw beth hyd at 4 awr a chyfradd diwrnod llawn am unrhyw beth dros hynny, yn ddigon hyblyg i adlewyrchu'r patrymau gwaith sy'n fwy arferol erbyn hyn, yn bennaf o ganlyniad i fwy o weithio ar-lein neu weithio hybrid.

Yn ein Hadroddiad drafft, cynigiodd y Panel y dylai'r swyddog lleol perthnasol gael yr hyblygrwydd i benderfynu pryd y bydd yn briodol defnyddio cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod a phryd y gellir defnyddio cyfradd yr awr pan fo'n gwneud synnwyr cyfuno nifer o gyfarfodydd byr. Mynegwyd ystod eithaf eang o safbwyntiau ar hyn yn ystod ein cyfarfodydd ymgysylltu, ond yr adborth cyffredinol yw y byddai'r newid hwn yn cael ei gefnogi**. Felly, cytunodd y Panel y dylid rhoi'r hyblygrwydd hwn ac y dylai penderfyniadau ynghylch ai cyfradd yr awr neu gyfradd y dydd sy'n briodol gael eu gwneud yn lleol.**

Yn olaf, mae'r Panel yn ymwybodol o adborth y gall ein gwefan fod yn anodd ei defnyddio ac nad yw bob amser yn hawdd dod o hyd i'r Penderfyniad cywir i ymdrin â mater penodol, yn enwedig i swyddogion neu aelodau etholedig newydd. Felly, rydym wedi diweddaru'r dolenni ar y wefan ac wedi creu dolen newydd i dudalen sy'n nodi'r holl Benderfyniadau cyfredol y dylid eu cymhwyso. Caiff ei diweddaru bob blwyddyn pan gaiff yr Adroddiad Blynyddol Terfynol ei gyhoeddi, a'r gobaith yw y bydd hyn yn haws i'w ddefnyddio na gorfod cyfeirio at Adroddiad pob blwyddyn.

Ategir hyn gan ein Canllawiau sydd newydd eu diweddaru (a elwid gynt yn Rheoliadau).

**Rôl a chyfrifoldebau'r Panel**

**Ein rôl:**

Mae'r Panel yn gyfrifol am bennu lefelau cydnabyddiaeth ariannol aelodau etholedig a chyfetholedig y sefydliadau canlynol, a'r trefniadau ar eu cyfer:

- Prif Gynghorau – Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
- Cynghorau Cymuned a Thref
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu
- Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mae'r Panel yn sefydliad annibynnol ac mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i'r sefydliadau a restrir uchod roi'r penderfyniadau a wneir ganddo ar waith.

Rydym yn gwneud penderfyniadau am:

- Y strwythur cyflog ar gyfer rhoi cydnabyddiaeth ariannol i aelodau
- Y math o lwfansau a delir i aelodau a'u natur
- A yw taliadau yn orfodol neu a oes rhywfaint o hyblygrwydd lleol
- Trefniadau mewn perthynas ag absenoldeb teuluol
- Trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Panel

**Ein Nod:**

- Cefnogi democratiaeth leol a rhoi llais i gymunedau, drwy sefydlu fframwaith priodol a theg ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol, sy'n annog cynhwysiant a chyfranogiad.

**Ein Nodau:**

- Dylai ein Penderfyniadau sicrhau bod lefelau cydnabyddiaeth ariannol yn deg, yn rhesymol, yn rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr, ac yn cael eu gwneud o fewn cyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.

- Dylai ein Penderfyniadau gefnogi aelodau etholedig o ystod eang o gefndiroedd ac ni ddylai lefelau cydnabyddiaeth ariannol rwystro cyfranogi.

**Ein Hamcanion Strategol:**

- Gwneud Penderfyniadau ar sail tystiolaeth
- Cyfathrebu mewn ffordd glir a hygyrch
- Mynd ati i ymgysylltu ac ymgynghori'n rhagweithiol
- Symleiddio trefniadau cydymffurfio ac adrodd
- Cydweithio

**Y Panel:**

Frances Duffy (Cadeirydd)
Saz Willey (Is-gadeirydd)
Dianne Bevan (Aelod)
Bev Smith (Aelod)
Kate Watkins (Aelod)

Ceir rhagor o wybodaeth am yr aelodau ar wefan y Panel.

**Methodoleg**

**Trafodaethau a Phenderfyniadau ar gyfer 2024 i 2025**

Fel y noda ein hamcanion strategol, mae'r Panel wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.

Eleni, gwnaethom baratoi papur tystiolaeth ac ymchwil i ddwyn ynghyd y gwahanol ffynonellau o wybodaeth a ystyriwyd gan y Panel wrth wneud ei Benderfyniadau. Roedd hwn yn cynnwys amrywiaeth eang o ddata, tystiolaeth a ffactorau cyd-destunol er mwyn llywio proses gwneud penderfyniadau'r Panel mewn perthynas â'i Benderfyniadau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-2025. Roedd hynny'n cynnwys:

- Data ar enillion wythnosol cyfartalog yn y DU ac yng Nghymru, gan gynnwys ASHE (yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion)
- Meincnodau cyfraddau chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr Blynyddol Tai (CPIH) a Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), gan gynnwys cydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr yn yr Alban.
- Ymchwil i lwyth gwaith cynghorwyr, safbwyntiau ac agweddau tuag at gydnabyddiaeth ariannol ac amrywiaeth (Llywodraeth Cymru)
- Canfyddiadau Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Senedd Cymru (2019)
- Data a gasglwyd ar nifer y cynghorwyr sy'n hawlio cydnabyddiaeth ariannol a phecynnau buddion
- Data ar sefyllfa ariannol awdurdodau lleol

Mae'r set lawn o dystiolaeth ac ymchwil a ystyriwyd ar gael ar ein gwefan.

Yn unol â'n Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi'i diweddaru, cynhaliodd y Panel nifer o drafodaethau â rhanddeiliaid allweddol a roddodd gyfle i'r Panel ystyried safbwyntiau ynglŷn â'r trefniadau presennol, effaith penderfyniadau ar unigolion, sut mae'r trefniadau'n gweithio'n ymarferol ac unrhyw faterion neu bryderon y mae unigolion am eu codi. Mae hefyd yn gyfle i drafod sefyllfaoedd sy'n dod i'r amlwg y bydd angen i'r Panel eu hystyried o bosibl mewn perthynas â'i brosesau gwneud penderfyniadau.

Bu'r Panel yn trafod yn uniongyrchol â grwpiau sy'n cynrychioli rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Grŵp Prif Arweinwyr Cynghorau, Pwyllgor Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd, Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol a Chymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru. Cynhaliodd y Panel seminar ar-lein ym mis Tachwedd ar gyfer cynghorwyr Cymuned a Thref a Chlercod lleol. Cafwyd cynrychiolaeth dda, a chawsom adborth da ar ein gwaith. Yn benodol, nododd y panel fater cydnabyddiaeth ariannol i Gynrychiolwyr Ieuenctid a chytunodd i adolygu hyn yn y dyfodol.

Eleni, canolbwyntiodd y Panel ar dri phrif fater – fforddiadwyedd, taliadau a wneir i aelodau cyfetholedig a gofynion adrodd Cynghorau Cymuned a Thref. Hoffai'r Panel ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein trafodaethau, naill ai'n uniongyrchol neu drwy adborth ac ymatebion i'r ymgynghoriad ar ein Hadroddiad Drafft.

**Ymgynghoriad: Crynodeb o'r ymatebion**

Lluniodd a chyhoeddodd y Panel adroddiad drafft ddydd Gwener 13 Hydref 2023 ar gyfer ymgynghoriad wyth wythnos, a ddaeth i ben ddydd Gwener 8 Rhagfyr 2023. Estynnwyd y cyfnod ymgynghori hyd at ddydd Mercher 20 Rhagfyr 2023, er mwyn caniatáu mwy o amser i bob ymatebydd gyflwyno adborth.

Yn ogystal, fel rhan o'r broses ymgynghori, gwahoddwyd rhanddeiliaid i ateb chwe chwestiwn gan ddefnyddio arolwg ar-lein neu drwy anfon e-bost. Cafwyd cyfanswm o 44 o ymatebion ar-lein, ac ymatebodd 12 drwy e-bost i fewnflwch y Panel. Bu'r Panel yn cymryd rhan mewn nifer o gyfarfodydd rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori i gasglu adborth pwysig. Hoffai'r Panel ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad. Ceir crynodeb o'r ymatebion yn yr adroddiad isod.

Anfonwyd dolen y wefan a fersiwn Pdf o'r adroddiad drafft i:

- Un Llais Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol
- Prif Gynghorau
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Cynghorau Cymuned a Thref

***Penderfyniad 1: Cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau***
***Penderfyniad 2: Cyflogau a delir i Uwch-aelodau, aelodau Dinesig ac aelodau Llywyddol gynghorau***
***Penderfyniad 3: Cyflogau Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu***
***Penderfyniad 4: Taliadau i awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub***
***Penderfyniad 7: Digolledu am golled ariannol***

Ni chafwyd unrhyw sylwadau/ymatebion uniongyrchol, ynglŷn â'r Penderfyniadau uchod. Fodd bynnag, yn ystod ein sesiynau ymgysylltu, clywodd y Panel bryderon am ddiffyg taliadau i Gynrychiolwyr Ieuenctid ar Gynghorau Cymuned a Thref a siom nad oedd y Panel wedi codi'r lefelau cydnabyddiaeth ar gyfer aelodau cyfetholedig Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Mae'r rhain yn faterion y bydd y Panel yn eu hystyried yn Adroddiadau'r dyfodol, o bosibl.

***Penderfyniad 5: Taliadau a wneir i aelodau etholedig Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub***

Dim ond nifer bach o ymatebion a gafwyd ynglŷn â'r cynnig hwn. Roedd un ymateb yn cytuno â'r cynnig ynghylch newid mewn arferion gwaith ac yn cefnogi cyflwyno cyfradd yr awr ac roedd ymateb arall yn argymell y dylai'r canllawiau a gyhoeddir ynglŷn â'r taliad yr awr fod yn glir ynghylch pryd y dylai gael ei gymhwyso.

Roedd un arall yn cefnogi'n gryf yr egwyddor y dylai awdurdodau allu bod yn hyblyg i weddu i'w gofynion eu hunain.

***Penderfyniad 6: Taliadau gorfodol Cynghorau Cymuned a Thref***

***Taliad am gostau ychwanegol gweithio gartref a thaliad sefydlog ar gyfer nwyddau traul***

Gofynnodd dau Gyngor Cymuned am newid y cynnig i wneud y taliad o £156 i Gynghorwyr yn orfodol, er mwyn caniatáu i Gynghorwyr ddewis peidio â derbyn y taliad fel yn y blynyddoedd blaenorol.

Mae dau gyngor Cymuned yn cefnogi cynwysoldeb yn llawn ac yn gwerthfawrogi y gallai'r taliad fod o gymorth i aelodau etholedig ond maent yn teimlo'n gryf iawn na ddylai fod yn orfodol.

Mae'r Panel yn ailddatgan bod unigolion yn gallu dewis peidio â derbyn taliadau gorfodol. Dylai unrhyw ddymuniad i beidio â derbyn taliadau gael ei ddatgan yn ysgrifenedig.

***Penderfyniad 8: Y gofynion adrodd***

Cytunwyd bod adrodd ar y taliad gorfodol am weithio gartref, y lwfans cyfradd safonol a hawliadau teithio a chynhaliaeth fel cyfansymiau i'r holl gynghorwyr, yn hytrach na rhestru unigolion, yn rhoi'r cydbwysedd cywir rhwng atebolrwydd cyhoeddus a phreifatrwydd unigolion.

Yn ogystal, fel rhan o'r broses ymgynghori, gwahoddwyd rhanddeiliaid i ateb chwe chwestiwn drwy arolwg ar-lein neu drwy anfon e-bost. Derbyniwyd cyfanswm o 44 o ymatebion ar-lein, a chyflwynwyd 12 drwy e-bost i fewnflwch y Panel. Mynychodd y Panel gyfarfodydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y broses ymgynghori i gasglu a chael adborth.

**Crynodeb o'r ymatebion i holiadur ar-lein**

**Cwestiwn 1**
**Cynyddu cydnabyddiaeth ariannol drwy ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)**

Mae'r Panel yn gwbl ymwybodol o'r cyfyngiadau presennol ar gyllid cyhoeddus ac effaith ei benderfyniadau ar gyllidebau Prif Awdurdodau. Mae'r Panel hefyd yn cadw mewn cof ein Nodau a'n Hamcanion i gynnig pecyn cydnabyddiaeth ariannol teg a rhesymol i gefnogi aelodau etholedig ac annog amrywiaeth mewn cynrychiolaeth. Felly, rydym yn cynnig y dylid cynyddu eu cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar enillion cyfartalog eu hetholwyr.

*A ydych chi'n credu bod y Panel wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng fforddiadwyedd a chydnabyddiaeth ariannol ddigonol i gynrychiolwyr? Os nad ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill?*

**Ymatebion**

Roedd 55% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno bod y Panel wedi sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng fforddiadwyedd a chydnabyddiaeth ariannol ddigonol i gynrychiolwyr. Nid oedd 21% yn cytuno ac nid oedd gan 19% unrhyw farn ar y cwestiwn hwn.

Nododd rhai ymatebwyr ei bod yn bwysig denu ystod amrywiol o ymgeiswyr i sefyll mewn etholiad a bod angen gwneud mwy i gynyddu amrywiaeth.

Cynigiodd un arall y dylai'r adroddiad ddangos y cynnydd a argymhellir fel codiad canran, yn debyg i ddyfarniadau cyflog, fel bod y cyhoedd yn deall o ran tryloywder.

**Cwestiwn 2**
**Hyblygrwydd lleol ar gyfer taliadau i unigolion cyfetholedig**

Mae'r Panel wedi cael tystiolaeth y byddai'n fwy costeffeithiol ac yn decach i roi hyblygrwydd o ran talu'r rhai sy'n aelodau cyfetholedig o bwyllgorau Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub.

Felly, mae'r Panel yn cynnig y dylai fod hyblygrwydd lleol i'r swyddog perthnasol benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod neu ddefnyddio cyfradd yr awr lle mae'n gwneud synnwyr cyfuno nifer o gyfarfodydd byr.

*A ydych yn cytuno â’r cynnig hwn? Os nad ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill?*

**Ymatebion**

Roedd 64% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno. Nid oedd 11% yn cytuno ac nid oedd gan 19% unrhyw farn. Teimlid bod cyfradd yr awr yn fwy cost-effeithiol ac y byddai'n rhoi hyblygrwydd i fynychu cyfarfodydd byrrach gyda swyddogion pan fo angen. Roedd un unigolyn yn gryf o blaid yr egwyddor bod awdurdodau yn gallu bod yn hyblyg i weddu i'w gofynion eu hunain.

**Cwestiwn 3**
**Hybu teithio cynaliadwy**

Hoffai'r Panel sicrhau ein bod yn cefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol yn ein penderfyniadau ynglŷn â chydnabyddiaeth ariannol. Rydym yn ymwybodol bod cynlluniau mewn llawer o gyrff yng Nghymru sy'n annog teithio cynaliadwy ac rydym wedi cynghori y dylai aelodau etholedig, os oes modd, gael eu hannog i gymryd rhan yn y cynlluniau hyn.

*A oes gennych unrhyw enghreifftiau o arfer da neu syniadau eraill o ffyrdd y gallem ddefnyddio ein pwerau i annog teithio mwy cynaliadwy ymhlith aelodau?*

**Ymatebion**

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, fe wnaeth 34% ddarparu enghreifftiau o arferion da i annog teithio mwy cynaliadwy. Byddai cynnal cyfarfodydd ar-lein yn ddefnyddiol o ran sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol, ond cynigiwyd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn ogystal ag ar-lein.

Ymhlith yr awgrymiadau eraill roedd awgrym y gallai darparu amserlenni gwasanaethau cyhoeddus yn adeiladau cynghorau helpu i annog pobl i ddewis dulliau cludiant gwahanol i geir preifat, ac awgrym y dylid annog aelodau sy'n mynychu'r un cyfarfod i rannu ceir. Un enghraifft a gafwyd oedd bod gan un awdurdod fap ardal a oedd yn dangos lle roedd pob aelod o Awdurdod y Parc yn byw, i annog rhannu ceir.

**Cwestiwn 4**
**Cwestiwn 4 – Ymwybyddiaeth o hawliau cynrychiolwyr**

Mae'r Panel wedi gweld tystiolaeth o ddiffyg ymwybyddiaeth ymhlith aelodau etholedig lleol o'r taliadau y maent yn gallu eu hawlio. Hoffem glywed a yw hyn yn broblem sylweddol, ac os felly, byddwn yn anelu at godi ymwybyddiaeth ymhellach, drwy dargedu meysydd lle y gall hyn fod yn broblem.

*Pa gamau y mae eich cyngor neu'ch awdurdod yn eu cymryd i sicrhau bod ei aelodau a'i aelodau cyfetholedig yn ymwybodol o'r symiau y mae ganddynt hawl iddynt?*

**Ymatebion**

Roedd y sylwadau'n nodi bod aelodau'n cael gwybod am eu hawliau drwy e-bost gan y Clerc wrth gael eu penodi, eu bod wedi'u cynnwys mewn pecyn briffio sy'n cael ei roi i aelodau newydd, a'u bod yn cael eu trafod adeg paratoi ar gyfer y gyllideb ac yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol.

Fodd bynnag, cawsom enghreifftiau hefyd o ddiwylliant o aelodau nad ydynt yn hawlio'r hyn y mae ganddynt hawl iddo, a phwysau'n cael ei roi ar rai aelodau i lenwi ffurflen optio allan. Gall unigolyn wrthod derbyn taliad yn rhannol neu'n llwyr os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Rhaid i hynny gael ei wneud yn ysgrifenedig, ac mae'n fater i'r unigolyn. Rhaid i aelod o gyngor cymuned neu dref sydd am wrthod taliadau ysgrifennu'n bersonol at y swyddog priodol i wneud hynny. Rhaid i bob prif awdurdod cyngor cymuned a thref sicrhau nad yw'n creu hinsawdd sy'n atal pobl rhag cael gafael ar unrhyw arian y mae ganddynt hawl iddo a allai eu cefnogi i gymryd rhan mewn democratiaeth leol.

**Cwestiwn 5**
**Cyhoeddi symiau wedi'u cyfuno**

Mae'n ofynnol i Gynghorau Cymuned a Thref gyflwyno datganiad blynyddol o daliadau i'r Panel erbyn 30 Medi bob blwyddyn, a'i gyhoeddi hefyd ar eu gwefan. Mae'r Panel wedi darparu ffurflen dempled at ddefnydd clercod. Mae'r Panel wedi trafod ac wedi ystyried newid y gofynion ar Gynghorau Cymuned a Thref wrth gyflwyno eu datganiad o daliadau. Nod y Panel yw symleiddio'r trefniadau gweinyddol ac annog Cynghorau i sicrhau bod yr holl daliadau gorfodol yn cael eu gwneud i aelodau unigol.

Mae'r Panel yn cynnig, o fis Medi 2024, mai dim ond y cyfansymiau a dalwyd mewn perthynas â'r taliadau gorfodol a grybwyllir uchod y bydd angen i'r datganiadau eu dangos. Hynny yw, y cyfraniad o £156 at gostau gweithio gartref a'r gyfradd benodedig o £52 am lwfans nwyddau traul a'r treuliau teithio a chynhaliaeth a dalwyd.

Mae hyn yn golygu y bydd y taliadau hyn yn gyson ag adrodd ar gostau lwfansau gofal a chymorth personol.

*A ydych chi'n cytuno y gall y ffigurau hyn gael eu cyhoeddi fel cyfanswm i'r holl aelodau yn hytrach nag yn unigol? Beth yw'r rhesymau dros eich barn?*

***Ymatebion***

Roedd y mwyafrif llethol yn cytuno â'r cynnig i gyhoeddi'r datganiad taliadau fel cyfanswm i'r holl aelodau. Nid oedd 11% yn cytuno ac nid oedd gan 2% farn ar y cwestiwn. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai cyhoeddi cyfanswm i'r holl aelodau yn haws yn weinyddol ac yn rhoi cyfrinachedd i'r aelodau. Mae hefyd yn lleihau unrhyw embaras pe bai aelod yn dymuno hawlio. Fodd bynnag, nodwyd y dylid dangos bod cynghorwyr wedi cael y taliadau, er mwyn i drigolion allu gweld ble mae'r arian wedi wedi'i wario.

**Cwestiwn 6**

Mewn adroddiadau yn y dyfodol, rydym yn ystyried caniatáu cyfuno costau teithio a chynhaliaeth aelodau prif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub a hoffem glywed eich barn.

*A ydych chi'n cytuno y gall y ffigurau hyn gael eu cyhoeddi fel cyfanswm i'r holl aelodau yn hytrach nag yn unigol? Beth yw'r rhesymau dros eich barn?*

Roedd ychydig llai na hanner yr ymatebwyr yn cytuno y dylid cyhoeddi'r taliadau ar gyfer teithio a chynhaliaeth fel cyfanswm i'r holl aelodau. Nid oedd 13% yn cytuno ac nid oedd gan 28% farn ar y cwestiwn. Byddai'r cynnig hwn yn helpu i osgoi adnabod unigolion / rhagfarn bosibl i'r rhai sydd angen hawlio. Fodd bynnag, dywedodd y rhai a oedd yn anghytuno fod dadansoddiad o'r holl dreuliau yn rhoi tryloywder ynghylch gweithgarwch cynghorwyr, yn caniatáu i drigolion graffu ar y manylion, ac yn rhoi tryloywder ynghylch y cyfiawnhad dros bob gweithgaredd.

**Penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2024 i 2025**

Ar ôl ystyried y safbwyntiau a ddaeth i law mewn ymateb i'w ymgynghoriad, mae'r Panel yn awr yn gwneud ei benderfyniadau terfynol.

**Cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau: Penderfyniad 1**

Mae'r cyflog sylfaenol, a delir i bob aelod etholedig, yn gydnabyddiaeth ariannol am ymgymryd â chyfrifoldeb cynrychioliaeth gymunedol ac am gymryd rhan yn swyddogaethau craffu, swyddogaethau rheoleiddio a swyddogaethau cysylltiedig llywodraeth leol. Mae'n seiliedig ar yr hyn sy'n gyfwerth â gweithio tri diwrnod yr wythnos yn amser llawn. Mae'r Panel yn adolygu'r ymrwymiad hwn o ran amser yn rheolaidd, ac ni chynigir unrhyw newidiadau ar gyfer 2024 i 2025.

Mae'r Panel yn gwbl ymwybodol o'r cyfyngiadau presennol ar gyllid cyhoeddus ac effaith ei benderfyniadau ar gyllidebau Prif Awdurdodau. Mae'r Panel hefyd yn cadw mewn cof ein Nodau a'n Hamcanion i gynnig pecyn cydnabyddiaeth ariannol teg a rhesymol i gefnogi aelodau etholedig ac i annog amrywiaeth mewn cynrychioliaeth.

Nododd y Panel hefyd fod cydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr, yn y cylchoedd etholiadol blaenorol, dipyn yn is na meincnod allweddol Enillion Cyfartalog yr Awr yng Nghymru (ASHE) a bod angen codiad sylweddol felly yn 2022.

Felly, mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer y flwyddyn ariannol rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 ei bod yn briodol cadw'r cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr. **Bydd y cyflog sylfaenol yn cyd-fynd â thair rhan o bump o ASHE Cymru gyfan 2022. £18,666 fydd hyn, fel y nodir yn Nhabl 1.**

**Cyflogau a delir i Uwch-aelodau, aelodau Dinesig ac aelodau Llywyddol prif gynghorau: Penderfyniad 2**

Bydd y terfyn ar nifer yr uwch gyflogau sy'n daladwy ("y cap") yn parhau.

Mae'r holl uwch gyflogau yn cynnwys taliad y cyflog sylfaenol. Cydnabyddir lefelau gwahanol cyfrifoldeb ychwanegol pob rôl a rhwng pob rôl mewn fframwaith â bandiau. Ni chynigir unrhyw newidiadau i'r bandiau eleni.

Bydd yr elfen cyflog sylfaenol yn cynyddu yn unol ag ASHE a bydd y cynnydd hwn hefyd yn gymwys i elfen rôl Bandiau 1, 2, 3 a 4. Lle y telir Band 5, nid oes unrhyw gynnydd yn yr elfen rôl am fod y band hwn wedi'i rewi dros dro. Bydd y cynnydd yn y cyflog sylfaenol yn gymwys.

Felly, cyflog arweinydd y cyngor mwyaf (Grŵp A) fydd £69,998. Penderfynwyd ar yr holl daliadau eraill gan gyfeirio at y cyflog hwn ac maent wedi'u nodi yn Nhabl 1.

**Tabl 1 – Cyflogau a delir i Aelodau Sylfaenol, Uwch-aelodau, aelodau Dinesig ac Aelodau Llywyddol Prif Gynghorau (Grŵp A)**

**Grŵp A**
Caerdydd
Rhondda Cynon Taf
Abertawe

| **Disgrifiad** | **Swm** |
|---|---|
| Cyflog sylfaenol (sy'n daladwy i bob aelod etholedig) | £18,666 |
| Band 1 Arweinydd | £69,998 |
| Band 1 Dirprwy Arweinydd | £48,999 |
| Band 2 Aelodau Gweithredol | £41,999 |
| Band 3 Cadeiryddion Pwyllgorau (os y'u telir) | £27,999 |
| Band 4 Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol Mwyaf | £27,999 |
| Band 5 Arweinydd Grwpiau Gwleidyddol Eraill (os y'i telir) | £22,406 |
| Pennaeth Dinesig (os y'i telir) | £18,666 |
| Dirprwy Bennaeth Dinesig (os y'i telir) | £22,406 |
| Aelod Llywyddol (os y'i telir) | £27,999 |
| Dirprwy Aelod Llywyddol (sylfaenol yn unig) | £18,666 |

**Tabl 1 – Cyflogau sy'n daladwy i Aelodau Sylfaenol, Uwch, Dinesig a Llywyddol y prif gynghorau (Grŵp B)**

**Grŵp B**
Pen-y-bont ar Ogwr
Caerffili
Sir Gaerfyrddin
Conwy
Sir y Fflint
Gwynedd
Casnewydd
Castell-nedd Port Talbot
Sir Benfro
Powys
Bro Morgannwg
Wrecsam

| Disgrifiad | Swm |
|---|---|
| Cyflog sylfaenol (sy'n daladwy i bob aelod etholedig) | £18,666 |
| Band 1 Arweinydd | £62,998 |
| Band 1 Dirprwy Arweinydd | £44,099 |
| Band 2 Aelodau Gweithredol | £37,799 |
| Band 3 Cadeiryddion Pwyllgorau (os y'u telir) | £27,999 |
| Band 4 Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol Mwyaf | £27,999 |
| Band 5 Arweinydd Grwpiau Gwleidyddol Eraill (os y'i telir) | £22,406 |
| Pennaeth Dinesig (os y'i telir) | £27,999 |
| Dirprwy Bennaeth Dinesig (os y'i telir) | £22,406 |
| Aelod Llywyddol (os y'i telir) | £27,999 |
| Dirprwy Aelod Llywyddol (sylfaenol yn unig) | £18,666 |

**Tabl 1 – Cyflogau sy'n daladwy i Aelodau Sylfaenol, Uwch, Dinesig a Llywyddol y prif gynghorau (Grŵp C)**

**Grŵp C**
Blaenau Gwent
Ceredigion
Sir Ddinbych
Merthyr Tudful
Caerffili
Torfaen
Ynys Môn

| Disgrifiad | Swm |
|---|---|
| Cyflog sylfaenol (sy'n daladwy i bob aelod etholedig) | £18,666 |
| Band 1 Arweinydd | £59,498 |
| Band 1 Dirprwy Arweinydd | £41,649 |
| Band 2 Aelodau Gweithredol | £35,699 |
| Band 3 Cadeiryddion Pwyllgorau (os y'u telir) | £27,999 |
| Band 4 Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol Mwyaf | £27,999 |
| Band 5 Arweinydd Grwpiau Gwleidyddol Eraill (os y'i telir) | £22,406 |
| Pennaeth Dinesig (os y'i telir) | £27,999 |

**Grŵp A:** Caerdydd, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe.

**Grŵp B:** Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd, Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Bro Morgannwg a Wrecsam.

**Grŵp C:** Blaenau Gwent, Ceredigion, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Torfaen ac Ynys Môn.

Nid oes unrhyw newidiadau pellach i'r taliadau a'r buddion a delir i aelodau etholedig. Mae'r holl Benderfyniadau cyfredol wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan.

**Cyflogau Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu: Penderfyniad 3**

Bydd cyflog cadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn parhau i fod yn gyson â Band 3 a chaiff ei bennu ar £9,333.

Pennir cyflog is-gadeirydd yn 50% o gyflog y Cadeirydd, sef £4,667.

Nid oes unrhyw newidiadau eraill.

**Taliadau i aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub: Penderfyniad 4**

Mae tri pharc cenedlaethol yng Nghymru. Ffurfiwyd Parciau Cenedlaethol Eryri, Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog i ddiogelu tirweddau ysblennydd a chynnig cyfleoedd hamdden i'r cyhoedd. Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cynnwys aelodau sydd naill ai'n aelodau etholedig a enwebir gan y prif gynghorau o fewn ardal y parc cenedlaethol neu'n aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru drwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus. Caiff aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru ac aelodau a enwebwyd gan gynghorau eu trin yn gyfartal o ran cydnabyddiaeth ariannol.

Mae tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru: Ffurfiwyd gwasanaethau Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru a De Cymru fel rhan o ad-drefnu Llywodraeth Leol ym 1996. Maent yn cynnwys aelodau etholedig sy'n cael eu henwebu gan y Prif Gynghorau o fewn ardal pob gwasanaeth tân ac achub.

Yn unol â phenderfyniad y Panel i gynyddu cyflog sylfaenol aelodau etholedig prif gynghorau, bydd lefel cydnabyddiaeth ariannol aelodau cyffredin Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub hefyd yn cynyddu yn unol ag ASHE. Bydd cydnabyddiaeth ariannol Cadeiryddion yn parhau'n gysylltiedig â chyflog uwch-aelod Band 3 prif gyngor. Felly, bydd eu helfen rôl yn cynyddu'n unol â hynny. Bydd swyddi dirprwy gadeiryddion, cadeiryddion pwyllgorau ac uwch-swyddi eraill sy'n cael eu talu yn parhau'n gysylltiedig â Band 5. Mae'n hyn yn golygu y bydd elfen rôl eu cyflog yn parhau i gael ei rhewi dros dro. Ceir manylion llawn lefelau'r gydnabyddiaeth ariannol i aelodau awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yn Nhabl 2.

**Tabl 2: Taliadau i aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub**

Mae'r holl Benderfyniadau cyfredol, gan gynnwys cyfyngiadau ar dderbyn lwfansau dwbl, ar gael ar ein gwefan. Heblaw am y codiadau uchod, ni chynigir unrhyw newidiadau y flwyddyn hon.

**Tabl 2 – Taliadau i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol**

| **Awdurdodau Parciau Cenedlaethol** | **Swm** |
|---|---:|
| Y cyflog sylfaenol ar gyfer aelod cyffredin | £5,265 |
| Cadeirydd | £14,598 |
| Dirprwy Gadeirydd (os penodir un) | £9,005 |
| Cadeirydd Pwyllgor neu uwch-swydd arall | £9,005 |

**Tabl 2 - Taliadau i Awdurdodau Tân ac Achub**

| **Awdurdodau Tân ac Achub** | **Swm** |
|---|---:|
| Y cyflog sylfaenol ar gyfer aelod cyffredin | £2,632 |
| Cadeirydd | £11,965 |
| Dirprwy Gadeirydd (os penodir un) | £6,372 |
| Cadeirydd Pwyllgor neu uwch-swydd arall | £6,372 |

**Taliadau a wneir i aelodau cyfetholedig Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub: Penderfyniad 5**

Mae'r Penderfyniad cyfredol (a wnaed yn Adroddiad Blynyddol 2022-2023) yn nodi y dylai aelodau cyfetholedig y cyrff perthnasol gael cydnabyddiaeth ariannol ar sail diwrnod neu hanner diwrnod. Hefyd, gall y swyddog perthnasol benderfynu ar gyfanswm y diwrnodau y rhoddir cydnabyddiaeth ariannol ar eu cyfer mewn blwyddyn a phennu amser rhesymol am baratoi ar gyfer cyfarfodydd.

Mae'r Panel wedi nodi'r newidiadau i arferion gwaith, a roddwyd ar waith yn ystod Covid ac sydd bellach yn dod yn fwy arferol, sydd wedi golygu newid tuag at ddefnydd amlach o gyfarfodydd a/neu gyrsiau hyfforddi ar-lein, sydd yn aml yn fyr, yn ogystal â chyfarfodydd pwyllgor mwy rheolaidd. Mae'r Panel hefyd wedi cael adborth gan Benaethiaid Gwasanaethau Democrataidd yn codi'r mater hwn.

Ystyriodd y Panel newid i gyfradd yr awr yn lle hynny. Byddai hyn yn adlewyrchu'n well y ffyrdd newydd o weithio a'r oriau a weithiwyd mewn gwirionedd. Fodd bynnag, cydnabu'r Panel na fyddai hyn bob amser yn briodol o bosibl, yn enwedig ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb y disgwylir iddynt bara sawl awr.

Felly, mae'r Panel yn cynnig y dylai fod hyblygrwydd lleol i'r swyddog perthnasol benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod neu ddefnyddio cyfradd yr awr pan fo'n gwneud synnwyr cyfuno nifer o gyfarfodydd byr. Bydd y Panel hefyd yn darparu canllawiau sy'n cynnwys enghreifftiau o arferion da. Nodir y symiau hyn yn Nhabl 3:

**Tabl 3: Taliadau a wneir i aelodau etholedig Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub**

| Rôl | Taliad cyfradd fesul awr | Cyfradd talu hyd at 4 awr | Cyfradd talu 4 awr a throsodd |
|---|---|---|---|
| Cadeiryddion pwyllgorau safonau, a phwyllgorau archwilio | £33.50 | £134 | £268 |
| Aelodau Cyffredin o Bwyllgorau Safonau sydd hefyd yn cadeirio Pwyllgorau Safonau ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref | £29.75 | £119 | £238 |
| Aelodau Cyffredin o Bwyllgorau Safonau; Pwyllgor Craffu Addysg; Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anrhefn a Phwyllgor Archwilio | £26.25 | £105 | £210 |

## Cynghorau Cymuned a Thref

Mae'r Panel yn parhau i wneud taliadau am gostau ychwanegol gweithio gartref a thaliadau am nwyddau traul swyddfa yn orfodol. Ni fydd unrhyw newid i'r Penderfyniad a wnaed y llynedd.

**Taliadau Gorfodol: Penderfyniad 6**

**Taliad am gostau ychwanegol gweithio gartref**

Rhaid i bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w aelodau (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol y bydd yn rhaid i'r aelwyd eu talu (gan gynnwys gwres, golau, ynni a band eang) o ganlyniad i weithio gartref.

**Taliad penodol am nwyddau traul**

Rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall rhaid i gynghorau ei gwneud yn bosibl i'w haelodau hawlio ad-daliad llawn am gost eu nwyddau traul swyddfa.

Mater i bob cyngor yw gwneud a chofnodi penderfyniad polisi o ran pryd a sut y caiff y taliadau eu gwneud ac a ydynt yn cael eu talu'n fisol, yn flynyddol neu fel arall. Dylai'r polisi nodi hefyd a fydd unrhyw daliadau a wneir i aelod sy'n ymadael neu sy'n newid ei rôl yn ystod y flwyddyn ariannol yn cael eu hadennill, a sut.

**Iawndal am Golled Ariannol; Penderfyniad 7**

Taliad dewisol yw digolledu am golled ariannol. Ni chafodd y swm am golled ariannol ei gynyddu y llynedd. Yn flaenorol, penderfynodd y Panel y dylid pennu lefel briodol o daliadau ar gyfradd ddyddiol ASHE. Er mwyn cynnal y cyswllt hwn, mae'r ffigurau ar gyfer 2024 bellach wedi'u pennu ar £119.62 am ddiwrnod llawn a £59.81 am hanner diwrnod.

**Gofynion Adrodd; Penderfyniad 8**

Mae'n ofynnol i Gynghorau Cymuned a Thref gyflwyno datganiad blynyddol o daliadau i'r Panel erbyn 30 Medi bob blwyddyn, a'i gyhoeddi hefyd ar eu gwefan. Mae'r Panel wedi darparu ffurflen dempled at ddefnydd clercod.

Mae'r Panel wedi trafod ac wedi ystyried newid y gofynion ar Gynghorau Cymuned a Thref wrth gyflwyno eu datganiad o daliadau. Nod y Panel yw symleiddio'r trefniadau gweinyddol ac annog Cynghorau i sicrhau bod yr holl daliadau gorfodol yn cael eu gwneud i aelodau unigol.

Mae'r Panel yn cynnig, o fis Medi 2024, mai dim ond y cyfansymiau a dalwyd mewn perthynas â'r taliadau gorfodol a grybwyllir uchod y bydd angen i'r datganiadau eu dangos. Hynny yw, y cyfraniad o £156 at gostau gweithio gartref a'r gyfradd benodedig o £52 am lwfans nwyddau traul a'r treuliau teithio a chynhaliaeth a dalwyd.

Mae hyn yn golygu y bydd y taliadau hyn yn gyson ag adrodd ar gostau lwfansau gofal a chymorth personol.

**Taliadau i Aelodau Cynghorau Cymuned a Thref**

| **Math o daliad** | **Grŵp** | **Gofyniad** |
|---|---|---|
| Taliad costau ychwanegol | 1 (Etholaeth dros 14,000) | Gorfodol ar gyfer pob Aelod |
| Uwch rôl | 1 (Etholaeth dros 14,000) | Gorfodol: £500 ar gyfer 1 aelod; dewisol ar gyfer hyd at 7 |
| Maer neu Gadeirydd | 1 (Etholaeth dros 14,000) | Dewisol: hyd at uchafswm o £1,500 |
| Dirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd | 1 (Etholaeth dros 14,000) | Dewisol: hyd at uchafswm o £500 |
| Lwfans presenoldeb | 1 (Etholaeth dros 14,000) | Dewisol |
| Colled ariannol | 1 (Etholaeth dros 14,000) | Dewisol |
| Teithio a chynhaliaeth | 1 (Etholaeth dros 14,000) | Dewisol |
| Costau gofal neu gynhorthwy personol | 1 (Etholaeth dros 14,000) | Gorfodol |
| Taliad costau ychwanegol | 2 (Etholaeth 10,000 i 13,999) | Gorfodol ar gyfer pob aelod |
| Uwch rôl | 2 (Etholaeth 10,000 i 13,999) | Gorfodol ar gyfer 1 aelod; dewisol ar gyfer hyd at 5 |
| Maer neu gadeirydd | 2 (Etholaeth 10,000 i 13,999) | Dewisol: hyd at uchafswm o £1,500 |
| Dirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd | 2 (Etholaeth 10,000 i 13,999) | Dewisol: hyd at uchafswm o £500 |
| Lwfans presenoldeb | 2 (Etholaeth 10,000 i 13,999) | Dewisol |
| Colled ariannol | 2 (Etholaeth 10,000 i 13,999) | Dewisol |
| Teithio a chynhaliaeth | 2 (Etholaeth 10,000 i 13,999) | Dewisol |
| Costau cofal neu gynhorthwy personol | 2 (Etholaeth 10,000 i 13,999) | Gorfodol |
| Taliad costau ychwanegol | 3 (Etholaeth 5,000 i 9,999) | Gorfodol ar gyfer pob aelod |
| Uwch rôl | 3 (Etholaeth 5,000 i 9,999) | Dewisol hyd at 3 aelod |
| Maer neu gadeirydd | 3 (Etholaeth 5,000 i 9,999) | Dewisol: hyd at uchafswm o £1,500 |
| Diprwy faer neu ddirprwy gadeirydd | 3 (Etholaeth 5,000 i 9,999) | Dewisol: hyd at uchafswm o £500 |
| Lwfans presenoldeb | 3 (Etholaeth 5,000 i 9,999) | Dewisol |
| Colled ariannol | 3 (Etholaeth 5,000 i 9,999) | Dewisol |
| Teithio a chynhaliaeth | 3 (Etholaeth 5,000 i 9,999) | Dewisol |

| | | |
|---|---|---|
| Costau gofal neu gynhorthwy personol | 3 (Etholaeth 5,000 i 9,999) | Gorfodol |
| Taliad costau ychwanegol | 4 (Etholaeth 1,000 i 4,999) | Gorfodol ar gyfer pob aelod |
| Uwch rôl | 4 (Etholaeth 1,000 i 4,999) | Dewisol hyd at 3 aelod |
| Maer neu gadeirydd | 4 (Etholaeth 1,000 i 4,999) | Dewisol: hyd at uchafswm o £1,500 |
| Dirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd | 4 (Etholaeth 1,000 i 4,999) | Dewisol: hyd at uchafswm o £500 |
| Lwfans presenoldeb | 4 (Etholaeth 1,000 i 4,999) | Dewisol |
| Colled ariannol | 4 (Etholaeth 1,000 i 4,999) | Dewisol |
| Teithio a chynhaliaeth | 4 (Etholaeth 1,000 i 4,999) | Dewisol |
| Costau gofal neu gynhorthwy personol | 4 (Etholaeth 1,000 i 4,999) | Gorfodol |
| Taliad costau ychwanegol | 5 (Etholaeth llai na 1,000) | Gorfodol ar gyfer pob aelod |
| Uwch rôl | 5 (Etholaeth llai na 1,000) | Dewisol hyd at 3 aelod |
| Maer neu gadeirydd | 5 (Etholaeth llai na 1,000) | Dewisol: hyd at uchafswm o £1,500 |
| Dirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd | 5 (Etholaeth llai na 1,000) | Dewisol: hyd at uchafswm o £500 |
| Lwfans presenoldeb | 5 (Etholaeth llai na 1,000) | Dewisol |
| Colled ariannol | 5 (Etholaeth llai na 1,000) | Dewisol |
| Teithio a chynhaliaeth | 5 (Etholaeth llai na 1,000) | Dewisol |
| Costau gofal neu gynhorthwy personol | 5 (Etholaeth llai na 1,000) | Gorfodol |

| **Rhif y Grŵp** | **Nifer yr Etholwyr** |
|---|---|
| Grŵp 1 | Dros 14,000 o etholwyr |
| Grŵp 2 | 10,000 i 13,999 |
| Grŵp 3 | 5,000 i 9,999 |
| Grŵp 4 | 1,000 i 4,999 |
| Grŵp 5 | O dan 1,000 |

Ni wnaed unrhyw newidiadau i daliadau am ymgymryd ac uwch-rolau; lwfansau ar gyfer teithio a chynhaliaeth; Lwfans Gofal a Chymorth Personol neu Lwfans Mynychu. Mae'r holl Benderfyniadau cyfredol bellach wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan.

**Crynodeb o'r Penderfyniadau ar gyfer 2024 i 2025**

**Penderfyniad 1:**

Caiff lefel sylfaenol y cyflog i aelodau etholedig prif gynghorau ei phennu ar £18,666.

**Penderfyniad 2:**

Cyflog arweinydd y cyngor mwyaf (Grŵp A) fydd £69,998. Penderfynwyd ar yr holl daliadau eraill gan gyfeirio at y cyflog hwn.

**Penderfyniad 3:**

Cyflog cadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu fydd £9,333.

Cyflog is-gadeirydd fydd £4,667.

**Penderfyniad 4:**

Mae cyflog sylfaenol aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub wedi cynyddu.

Cyhoeddir yr holl Benderfyniadau cyfredol, gan gynnwys cyfyngiadau ar dderbyn lwfansau dwbl, ar ein gwefan. Heblaw am y codiadau uchod, ni chynigir unrhyw newidiadau y flwyddyn hon.

**Penderfyniad 5:**

O ran taliadau i aelodau cyfetholedig Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub, mae'r Panel yn cynnig y dylai fod hyblygrwydd lleol i'r swyddog perthnasol benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod neu ddefnyddio cyfradd yr awr pan fo'n gwneud synnwyr cyfuno nifer o gyfarfodydd byr.

Nid yw cyfraddau diwrnod llawn na hanner diwrnod wedi newid ers 2023-2024. Yr unig newid yw pennu cyfraddau yr awr.

**Penderfyniad 6:**

Bydd aelodau o Gynghorau Cymuned a Thref yn cael taliad o £156 y flwyddyn (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol y bydd rhaid i'r aelwyd eu talu (gan gynnwys gwres, golau, ynni a band eang) o ganlyniad i weithio gartref. A rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall rhaid i gynghorau ei gwneud yn bosibl i'w haelodau hawlio ad-daliad llawn am gost eu nwyddau traul swyddfa. Felly, nid oes unrhyw newid ers y llynedd.

**Penderfyniad 7**

Taliad dewisol yw digolledu am golled ariannol. Ni chafodd y swm am golled ariannol ei gynyddu y llynedd. Penderfynodd y Panel y dylai'r taliad hwn barhau i fod yn gysylltiedig â chyfradd ddyddiol ASHE.
Er mwyn cynnal y cyswllt hwn, mae'r ffigurau ar gyfer 2024 bellach wedi'u pennu ar £119.62 am ddiwrnod llawn a £59.81 am hanner diwrnod.

**Penderfyniad 8:**

Mae'r Panel wedi penderfynu, o fis Medi 2024, mai dim ond y cyfansymiau a dalwyd mewn perthynas a'r taliadau gorfodol a grybwyllir uchod y bydd angen i ddatganiadau pob Cyngor Tref a Chymuned eu dangos. Hynny yw, y cyfraniad o £156 at gostau gweithio gartref a'r gyfradd benodedig o £52 am lwfans nwyddau traul a'r treuliau teithio a chynhaliaeth a dalwyd.

Mae hyn yn golygu y bydd y taliadau hyn yn gyson ag adrodd ar gostau lwfansau gofal a chymorth personol.

Mae'r holl Benderfyniadau eraill a nodir ar ein gwefan yn parhau'n ddilys a dylent gael eu cymhwyso.

**Manylion cysylltu**

I ofyn am fersiwn brintiedig o'r Adroddiad Blynyddol anfonwch e-bost atom neu ysgrifennwch at:

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Trydydd Llawr - Dwyrain
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 03000 616095
Ebost: irpmailbox@llyw.cymru

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn a gwybodaeth arall am y Panel a'i waith ar gael ar ein gwefan.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 7

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **MEWNOSOD TESTUN** |
| **Teitl:** | **Adroddiad ynghylch Polisi Cyflogau arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2024/25** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Yn unol ag Adran 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011, rhaid i'r Cyngor lunio a chyhoeddi Datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer pob blwyddyn ariannol.**<br><br>**Mae'r Polisi Cyflogau arfaethedig ar gyfer 2024/25 yn amgaeedig er mwyn i'r Cyngor ei ystyried.** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet ar gyfer Polisi a Pherfformiad, Gwasanaethau Democrataidd, a Phobl a Threfniadaeth**

**Cyflwyniad**

Diben yr adroddiad hwn yw gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Polisi Cyflogau ar gyfer 2023/24 yn unol â gofynion Deddf Lleoliaeth 2011. Mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi a chymeradwyo datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer pob blwyddyn ariannol a'i gyhoeddi ar y wefan berthnasol erbyn 31 Mawrth.

Mae polisïau cyflogau wedi'u paratoi o dan y Ddeddf hon a'u hystyried a'u cymeradwyo gan y Cyngor bob blwyddyn ers mis Mawrth 2012. Nodwyd y manylion sydd yn rhaid eu cynnwys mewn datganiad polisi cyflogau, a'u diben yn gyffredinol, ar adeg cymeradwyo'r datganiad cyntaf a thynnwyd sylw at y newidiadau a wnaed ar ôl hynny fel y bo'n briodol.

Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau Statudol ar 'Atebolrwydd Cyflog o fewn Llywodraeth Leol', sy'n cyflwyno'r cynnwys ychwanegol sydd i'w gynnwys yn y Datganiad Polisi Cyflogau blynyddol, megis:

- rôl y Prif Weithredwr;
- disgrifiad cryno o ddeiliad y swydd;
- y polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn ymwneud â chyflog prif swyddog;
- proses gymeradwyo pecynnau ymadael dros £100k am Brif Swyddog;
- rheoli talent;
- trefniadau oddi ar y gyflogres.

Cyhoeddwyd y Datganiad Polisi Tâl yn y fformat newydd ers 2022/23.

Er eglurder, mae polisi cyflogau 2024/25 yn ymwneud â thâl a chyflog y staff a gyflogir o dan y telerau a'r amodau canlynol yn unig:

- Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol
- Y Cyngor Cenedlaethol ar y Cyd (JNC) ar gyfer Prif Weithredwyr
- Y Cyngor Cenedlaethol ar y Cyd (JNC) ar gyfer Prif Swyddogion
- Pwyllgor Soulbury

Sylwer, fodd bynnag, bod y cymal ail-gyflogaeth yn dilyn diswyddiad gwirfoddol (11.3.3) yn berthnasol i bob gweithiwr, gan gynnwys y rhai a gyflogir o dan Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru)

**Newidiadau**

1. Cytunwyd ar ddyfarniadau cyflog cenedlaethol 2023/24 ar gyfer Prif Swyddogion ym mis Mai 2023; ar gyfer Prif Weithredwr a staff NJC, cyhoeddwyd y dyfarniadau cyflog ym mis Tachwedd 2023 a'u hôl-ddyddio i 1 Ebrill 2023. Noder nad yw'r trafodaethau wedi dechrau eto ar gyfer 2024/25.

2. Cytunwyd ar y dyfarniad cyflog cenedlaethol i staff NJC o:
   - £1,925 wedi'i ychwanegu at bwyntiau golofn gyflogau 2 i 43.
   - 3.88% wedi'i ychwanegu at bwyntiau golofn gyflogau 44 i 53

3. Cytunwyd ar y dyfarniad cyflog cenedlaethol ar gyfer y Prif Weithredwr o 3.5% wedi'i ychwanegu i bob pwynt ar y golofn gyflogau.

4. Cytunwyd ar y dyfarniad cyflog cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion o 3.5% wedi'i ychwanegu i bob pwynt ar y golofn gyflogau.

5. Cytunwyd ar ddyfarniadau cyflog cenedlaethol 2022/23 a 2023/24 ar gyfer Pwyllgor Soulbury ym mis Rhagfyr 2023 ac maent wedi'u hôl-ddyddio i 1 Medi 2022 a 2023 fel a ganlyn: .
   - £1,925 wedi'i ychwanegu at bob pwynt golofn gyflogau yn effeithiol o 1 Medi 2022
   - 4.04% wedi'u hychwanegu at yr holl lwfansau sy'n weithredol o 1 Medi 2022
   - 4.0% wedi'i ychwanegu at bob pwynt golofn gyflogau yn effeithiol o 1 Medi 2023
   - 3.88% wedi'i ychwanegu at yr holl lwfansau sy'n weithredol o 1 Medi 2023

6. Cadarnhad bod y trothwy talu ymadael 'Atebolrwydd cyflog mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru' yn berthnasol i Brif Swyddogion yn unig.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**
Naddo, pennir hyn gan ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:**

**Cydweithio:**
**Cynnwys:**
**Atal:**
**Integreiddio:**

**Argymhelliad / Argymhellion:**
Cymeradwyo'r Polisi Cyflogau ar gyfer 2024/25 sydd ynghlwm.

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**
Er mwyn sicrhau y cydymffurfir ag Adran 38(1) Deddf Lleoliaeth 2011.

**Trosolwg a Chraffu:**
Heb ei ystyried.

**Fframwaith Polisi:**
Rheoliadau Llywodraeth Cymru

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Mae Polisi Cyflogau 2024/25 yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni pob un o'i Flaenoriaethau Corfforaethol

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Rhan o broses pennu'r gyllideb ar gyfer 2024/25

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Dim

**Goblygiadau staffio:**
Dim

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Dim

**Risg(iau):**
Byddai methu â chymeradwyo'r Polisi Cyflogau o fewn y terfyn amser yn mynd yn groes i'r ddeddfwriaeth.

**Pwerau Statudol:**
Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972
Deddf Lleoliaeth 2011
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**Papurau Cefndir:**

**Atodiadau:**
Polisi Cyflogau Cyngor Sir Ceredigion 2024/25

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth

**Swyddog Adrodd:**
Geraint Edwards

**Dyddiad:**
27/02/2024

Cyngor Sir CEREDIGION County Council
Pobl a Threfniadaeth | People and Organisation

# Datganiad Polisi Cyflogau

## 2024/2025

www.ceri.ceredigion.gov.uk

## Cyngor Sir Ceredigion

# Datganiad Polisi Cyflogau 2024/2025


| | Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad a phwrpas | 3 |
| 2 | Y Fframwaith Deddfwriaethol | 3 |
| 3 | Telerau ac Amodau Cyflogaeth | 4 |
| 4 | Gwneud Penderfyniadau | 7 |
| 5 | Trefniadau Cyd-fargeinio gyda'r Undebau Llafur | 7 |
| 6 | Cydnabyddiaeth Ariannol Cyflogau Uwch | 7 |
| 7 | Rheoli Talent | 10 |
| 8 | Tâl yn ôl Perfformiad | 10 |
| 9 | Cymorth ar gyfer Staff sy'n Derbyn Tâl Is | 11 |
| 10 | Cymharu Cyflogau o fewn y Cyngor | 11 |
| 11 | Polisi Ymadael | 11 |
| 12 | Trefniadau Oddi ar y Gyflogres | 12 |
| 13 | Cyhoeddi | 13 |

| | Atodiadau | |
|---|---|---|
| A | Graddfeydd Cyflog Gweithwyr NJC | 14 |
| B | Graddfeydd Cyflog Prif Swyddogion | 16 |
| C | Graddfeydd Cyflogau Soulbury | 17 |
| D | Yr Holl Grwpiau Gweithwyr – Prif Amodau Gwasanaeth | 21 |
| E | Cynllun Honorariwm | 23 |
| F | Cynllun Taliadau Atodol Grym y Farchnad | 25 |
| G | Polisi Disgresiwn LGPS y Cyflogwr – Rheoliad 5 a 6 | 29 |

## 1 CYFLWYNIAD A PHWRPAS

1.1 Pwrpas y datganiad yw bod yn dryloyw ynghylch ymagwedd y Cyngor at bennu cyflog ei weithwyr (ac eithrio athrawon), trwy nodi sut y penderfynir ar gyflogau'r holl weithwyr. Mae'n rhoi ystyriaeth i Ganllawiau Statudol "Atebolrwydd Cyflog mewn Llywodraeth Leol" a gyhoeddwyd gyntaf gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2017 a'i ddiwygio ym mis Tachwedd 2021.

1.2 Mae'r Datganiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

## 2 Y FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL

2.1 Mae'r datganiad Polisi Cyflogau hwn yn cyflwyno ymagwedd y Cyngor at Bolisi Cyflogau, yn unol â gofynion Adran 38 (1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol Cymru a Lloegr lunio a chyhoeddi Datganiad Polisi Cyflogau sy'n cynnwys y manylion canlynol:

a) Polisïau'r Cyngor ar gyfer holl agweddau ac elfennau cydnabyddiaeth ariannol y Prif Swyddogion
b) Y dull sydd ganddo o gyhoeddi a sicrhau mynediad at wybodaeth sy'n ymwneud â phob agwedd ar gydnabyddiaeth ariannol i'r Prif Swyddogion
c) Polisïau'r Cyngor ar gyfer talu'r gweithwyr sydd ar y cyflogau isaf
d) Y berthynas sydd rhwng y gydnabyddiaeth ariannol i Brif Swyddogion ac i weithwyr eraill.

2.2 Nid yw darpariaethau'r Ddeddf yn berthnasol i staff addysgu mewn ysgolion awdurdodau lleol ac felly nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yng nghwmpas y ddogfen hon.

2.3 O dan Adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan y Cyngor "rym i benodi swyddogion ar sail telerau ac amodau rhesymol y mae'r Awdurdod yn barnu eu bod yn addas". Wrth bennu cyflogau a thâl ei holl weithwyr, bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyflogaeth berthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

a) Deddf Cydraddoldeb 2010
b) Rheoliadau Gwaith Rhan Amser (Atal Triniaeth Llai Ffafriol) 2000
c) Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010; a, lle bo'n berthnasol
d) Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth).

2.4 O ran y gofynion Cyflog Cyfartal a geir yn y Ddeddf Cydraddoldeb, nod y Cyngor yw sicrhau nad oes gwahaniaethu o ran tâl o fewn ei strwythurau tâl, a bod modd cyfiawnhau'r gwahaniaethau tâl yn wrthrychol trwy systemau Gwerthuso Swyddi a wiriwyd o ran cydraddoldeb, fel bod cyflogau yn uniongyrchol gysylltiedig â gofynion, galwadau a chyfrifoldebau'r rôl. Mae'r Cyngor yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar Gyflogau'r Rhywiau sy'n manylu ar unrhyw fwlch cyflog rhwng y rhywiau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r bwlch rhwng y rhywiau.

## 3 TELERAU AC AMODAU CYFLOGAETH

3.1 Mae'r Cyngor yn cyflogi tua 3,600 o weithwyr. Mae'r swyddi y cyflogir hwy ynddynt yn dod o dan gwmpas ystod o delerau ac amodau sy'n deillio o:

- Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol
- Y Cyngor Cenedlaethol ar y Cyd (JNC) ar gyfer Prif Weithredwyr
- Y Cyngor Cenedlaethol ar y Cyd (JNC) ar gyfer Prif Swyddogion
- Pwyllgor Soulbury
- Athrawon (nad ydynt o dan gwmpas yr adroddiad hwn, ar wahân i baragraff 11.3.3)

3.2 Mae'r graddfeydd cyflogau canlynol yn Atodiadau i'r polisi hwn:

- Atodiad A Graddfeydd Cyflog Gweithwyr (NJC)
- Atodiad B Graddfeydd Cyflog Prif Swyddogion (JNC)
- Atodiad C Graddfeydd Cyflogau Soulbury

3.3 Mae manylion ynghylch niferoedd staff fesul band cyflog ac yn ôl rhyw wedi eu cyhoeddi ar wahân yn Adroddiad Cydraddoldeb y Gweithlu blynyddol.

3.4 **Codiadau Cyflog Cenedlaethol**

3.4.1 Ar gyfer pob grŵp o weithwyr, gweithredir unrhyw godiadau cyflog y cytunir arnynt yn genedlaethol, yn sgil trafodaethau rhwng cyflogwyr llywodraeth leol ac undebau llafur cydnabyddedig. Bydd y Cyngor yn talu'r codiadau cyflog hyn y cytunir arnynt yn genedlaethol pan benderfynir arnynt, oni bai bod y Cyngor llawn yn penderfynu fel arall.

3.5 **Gwerthuso Swyddi**

3.5.1 Mae gwerthuso swyddi yn ffordd systematig o benderfynu ar werth swydd o'i chymharu â swyddi eraill mewn sefydliad. Y nod yw gwneud cymhariaeth systematig rhwng swyddi i asesu eu gwerth cymharol, at ddibenion sefydlu strwythur cyflogau rhesymol a chyflog cyfartal rhwng swyddi. Yn 2012 aeth y Cyngor ati i gynnal ymarfer Gwerthuso Swyddi mewn perthynas â swyddi sydd wedi'u llywodraethu gan delerau ac amodau cyflogaeth NJC.

3.5.2 O ran gwerthuso swyddi'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC), mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn defnyddio Cynllun Gwerthuso Swyddi Cyngor Taleithiol Llundain Fwyaf (y GLPC). O ran swyddi Prif Swyddog, mae'r Cyngor yn defnyddio Cynllun Gwerthuso Swyddi Uwch Reolwr Cymdeithas Llywodraeth Leol.

3.5.3 Mae'r Cyngor yn defnyddio'r golofn gyflogau a drafodir yn genedlaethol gan yr NJC yn sail ar gyfer ei strwythur cyflogau, heblaw am y ffaith ei fod wedi ymestyn y raddfa uchaf o bwynt 44 hyd bwynt 53 ar y golofn gyflogau. Dyma sy'n penderfynu cyflogau'r mwyafrif helaeth o'r gweithwyr heblaw am athrawon. O 1 Ebrill 2019 cyflwynodd y Cyflogwyr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol golofn gyflogau newydd, cytunwyd ar y newidiadau hyn gyda'r Undebau Llafur i'w gweithredu ym mis Ebrill 2019. Fel rhan o'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2022/23, bydd pwynt 1 ar y golofn gyflogau yn cael ei ddileu'n barhaol ar 1 Ebrill 2023. Mae'r golofn gyflogau i'w gweld yn Atodiad A.

3.5.4 Nid yw'r trafodaethau ar gyfer codiad cyflog Ebrill 2024 wedi dechrau eto.

3.5.5 Mae'r Cyngor am gadw'r strwythur tâl a graddio sy'n bodloni'r prawf cydraddoldeb trwy gynnal asesiad gwerthuso swydd ar unrhyw swydd newydd neu swyddi sydd wedi newid yn sylweddol. Bydd Panel Gwerthuso Swyddi ar y Cyd, sy'n cynnwys rheolwyr hyfforddedig a chynrychiolwyr undebau llafur yn cwrdd yn ôl yr angen i ystyried a phenderfynu ar apeliadau ynghylch gradd.

## 3.6 Cyflogau cychwynnol

3.6.1 Polisi'r Cyngor yw bod pob penodiad i swyddi gyda'r Cyngor yn cael ei wneud ar waelod y radd gyflog berthnasol, er bod modd amrywio hyn pan fo angen cael yr ymgeisydd(wyr) gorau sydd ar gael.

3.6.2 Gall y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol awdurdodi amrywiad i gyflog cychwynnol ar gyfer pob swydd ac eithrio'r rhai a gyflogir ar delerau ac amodau Prif Swyddog. Y Cyngor Llawn fydd yn pennu cyflog cychwynnol y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol.

## 3.7 Ystyriaethau eraill cysylltiedig â thâl

3.7.1 Mae'r holl ystyriaethau eraill cysylltiedig â thâl yn destun cytundebau a drafodir yn genedlaethol a/neu'n lleol, ac fe'u cyfeirir at y Cabinet a/neu'r Cyngor Llawn fel y bo'n briodol (gweler y broses Gwneud Penderfyniadau i gael rhagor o wybodaeth).

3.7.2 Mae'r telerau ac amodau cyflogaeth sy'n ymwneud â gwyliau blynyddol, oriau gwaith, taliadau goramser, trefniadau gweithio ar y penwythnos a thâl salwch ar gyfer pob grŵp o weithwyr (ac eithrio staff addysgu) wedi'u nodi yn Atodiad D.

## 3.8 Taliadau Honoraria

3.8.1 Gall fod adegau pryd y gofynnir i weithiwr gyflawni dyletswyddau ychwanegol i'r rheiny yn ei swydd bresennol, am gyfnod o amser. O dan amgylchiadau felly gellir gwneud taliad ychwanegol yn unol â Pholisi Honorariwm y Cyngor. Mae'r polisi i'w weld yn Atodiad E.

## 3.9 Taliadau atodol grym y farchnad

3.9.1 Mae defnyddio gwerthuso swyddi wedi galluogi'r Cyngor i bennu lefelau cydnabyddiaeth ariannol priodol ar sail y berthynas rhwng maint swyddi mewnol a geir yn y Cyngor. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau eithriadol, gall fod angen rhoi sylw i'r farchnad gyflogau allanol er mwyn denu a chadw gweithwyr sydd â'r profiad, y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol.

3.9.2 Mae gan y Cyngor Gynllun Taliadau Atodol Grym y Farchnad er mwyn sicrhau bod y rheidrwydd i gynnig unrhyw daliadau atodol grym y farchnad yn cael ei gyfiawnhau'n wrthrychol trwy gyfeirio at dystiolaeth glir, dryloyw o elfennau cymaradwy yn y farchnad, gan ddefnyddio ffynonellau data priodol. Gellir gweld Cynllun Taliadau Atodol Grym y Farchnad yn Atodiad F. Polisi'r Cyngor yw bod unrhyw daliadau ychwanegol o'r fath yn cael eu cyfyngu gymaint â phosibl, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn medru eu tynnu'n ôl lle bernir nad oes eu hangen bellach.

3.9.3 Mae'r egwyddorion sy'n sail i'r Cynllun Taliadau Atodol Grym y Farchnad hwn yr un mor berthnasol i bob grŵp o weithwyr yn y Cyngor. Pan gynigir rhoi

ychwanegiad grym y farchnad at swydd Prif Swyddog yn y Cyngor, rhaid cael cymeradwyaeth y Cyngor Llawn. Os yw ychwanegiad grym y farchnad yn arwain at becyn cyflog gwerth mwy na £100,000, rhaid cael cymeradwyaeth y Cyngor Llawn.

3.10 **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)**

3.10.1 Er mwyn helpu pobl i gynilo mwy o arian ar gyfer eu hymddeoliad, mae'r Llywodraeth bellach yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gofrestru eu gweithwyr yn awtomatig ar gynllun pensiwn gweithle. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Os oes gan weithiwr gontract cyflogaeth am o leiaf 3 mis (ac os yw'n iau na 75 oed), bydd yn cael ei gofrestru'n awtomatig ar y Cynllun, o ddyddiad dechrau ei gyflogaeth. Mae darpariaethau ar gyfer peidio ag ymuno ar gael.

3.10.2 Mae'r tabl isod yn dangos cyfraddau cyfraniadau gweithwyr, a ddiffinnir gan statud, ac maent yn seiliedig ar ganran y cyflog pensiynadwy yn dibynnu ar lefelau cyflog cyfwerth ag amser llawn. Pennir cyfradd cyfraniad cyflogwyr gan actiwarïaid sy'n cynghori Cronfa Bensiwn Dyfed ac fe'i hadolygir bob tair blynedd er mwyn sicrhau yr ariennir y cynllun yn briodol.

| **Band** | **Ystod cyflog cyfwerth amser cyflawn** | **Cyfradd cyfraniad y gweithiwr** | **Adran 50/50** | **Cyfradd cyfraniad y cyflogwr** |
|---|---|---|---|---|
| **1** | Hyd at £16,500 | 5.5% | 2.75% | 14.6% |
| **2** | £16,501 - £25,900 | 5.8% | 2.90% | 14.6% |
| **3** | £25,901 - £42,100 | 6.5% | 3.25% | 14.6% |
| **4** | £42,101 - £53,300 | 6.8% | 3.40% | 14.6% |
| **5** | £53,301 - £74,700 | 8.5% | 4.25% | 14.6% |
| **6** | £74,701 - £105,900 | 9.9% | 4.95% | 14.6% |
| **7** | £,105,901 - £124,800 | 10.5% | 5.25% | 14.6% |
| **8** | £124,801- £187,200 | 11.4% | 5.70% | 14.6% |
| **9** | £187,201 neu fwy | 12.5% | 6.25% | 14.6% |

*Cyfraddau yn dod i rym 1 Ebrill 2023*

3.10.3 Mae cyfle i weithwyr sy'n aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (gweler uchod) ymuno â Chynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol a Rennir Costau Aberthu Cyflog (AVC), gan gynorthwyo gweithwyr sy'n dymuno cynyddu buddion pensiwn ar eu hymddeoliad trwy dalu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i Gynllun AVC Llywodraeth Leol.

3.11 **Buddion eraill i weithwyr**

3.11.1 Cred y Cyngor fod cyfrifoldeb arno i helpu iechyd, lles a llesiant y staff er mwyn sicrhau bod eu perfformiad gyda'r gorau. Yn hynny o beth, ac fel y mae llawer o gyflogwyr mawr eraill yn ei wneud, mae'r Cyngor yn cynnig nifer o fuddion ar ben y cyflogau, megis talebau profion llygaid ar gyfer pobl sy'n gweithio ar gyfarpar sgriniau arddangos yn y gwaith, a threfniadau aberthu cyflog ar gyfer talebau gofal plant (yn sgil cau'r cynlluniau hyn gan y Llywodraeth, dim ond i'r rhai a ymunodd â'r cynllun cyn mis Hydref 2018 y mae'r budd hwn ar gael bellach), prydlesu ceir a chymryd rhan yn y cynllun Beicio i'r Gwaith.

## 4 GWNEUD PENDERFYNIADAU

4.1 Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, y Cabinet sy'n gyfrifol am bennu penderfyniadau polisi a gweithdrefnau yn ymwneud â recriwtio, telerau ac amodau, a threfniadau diswyddo gweithwyr y Cyngor.

4.2 O dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014, mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i bennu neu amrywio cydnabyddiaeth ariannol Prif Swyddogion, neu'r rhai sydd i'w penodi yn Brif Swyddogion, gael ei wneud gan y Cyngor Llawn.

## 5 TREFNIADAU CYD-FARGEINIO GYDA'R UNDEBAU LLAFUR

5.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr undebau llafur canlynol:

*5.1.1 NJC ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol*
- UNSAIN
- GMB
- UNITE

*5.1.2 JNC ar gyfer Prif Swyddogion*
- UNSAIN
- GMB

*5.1.3 Athrawon*
- NAHT
- NASUWT
- NEU
- UCAC
- ASCL

5.2 Cydnabyddir undebau llafur at ddibenion ymgynghori a thrafod ar y cyd mewn perthynas â materion perthnasol, rhai nad ydynt yn cael eu pennu gan gyrff trafod cenedlaethol, a rhai y mae'r ddwy ochr yn cytuno ei bod yn briodol ac yn fuddiol penderfynu arnynt trwy gytundeb. Cynhelir trafodaethau gyda'r nod o ddod i gytundeb ac osgoi anghydfodau. Hefyd mae cydnabod undebau llafur yn ymwneud â chynrychiolaeth i aelodau unigol.

## 6 CYDNABYDDIAETH ARIANNOL CYFLOGAU UWCH

6.1 Prif Weithredwr

6.1.1 Y Prif Weithredwr yw'r uwch swyddog sy'n arwain y Cyngor ac yn cymryd cyfrifoldeb drosto. Y Prif Weithredwr yw'r Prif Swyddog Gweithredol a benodwyd yn statudol yn unol ag Adran 56 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r Cyngor yn sefydliad mawr a chymhleth sydd â chyllideb gwerth sawl miliwn o bunnau. Mae ganddo ystod eang iawn o swyddogaethau ac mae'n gyfrifol am ddarparu ystod eang o wasanaethau hanfodol, gan gyflogi tua 3,600 o staff.

6.1.2 Mae rôl y Prif Weithredwr yn swydd amser llawn a pharhaol. Dewisir deiliad y swydd ar sail teilyngdod, yn erbyn meini prawf gwrthrychol, yn dilyn hysbyseb cyhoeddus. Penodir y Prif Weithredwr gan y Cyngor Llawn.

6.1.3 Cydweithia'r Prif Weithredwr yn agos ag Aelodau Etholedig i gyflawni nodau strategol y Cyngor, gan gynnwys y blaenoriaethau a ganlyn:

- Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth;
- Creu cymunedau gofalgar ac iach;
- Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu;
- Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd.

6.1.4 Mae'r Prif Weithredwr yn gweithio'n rheolaidd gyda'r hwyr ac ar benwythnosau yn ogystal â'r wythnos fusnes safonol o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn arwain y trefniadau 'ar alwad' yn enwedig ar gyfer trefniadau cynllunio at argyfwng.

6.1.5 Mae'r Prif Weithredwr presennol, Mr Eifion Evans, wedi bod yn ei swydd ers mis Hydref 2017 ac wedi gweithio i'r Cyngor ers dros 30 mlynedd. Dechreuodd Mr Evans ar ei yrfa yn y Sir fel athro yn 1991, cyn dod yn Bennaeth yn 1997. Yn 2007 penodwyd Mr Evans yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg, daeth yn Gyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol yn 2009 ac yn Gyfarwyddwr Strategol – Dysgu a Phartneriaethau yn 2013. Cyn ei rôl bresennol roedd Mr Evans yn Ddirprwy Brif Weithredwr.

6.1.6 Gan ddod i rym o 1 Ebrill 2024 (codiad cyflog yn yr arfaeth), daw cyflog y Prif Weithredwr o fewn y band cyflog £129,755 i £138,674 y flwyddyn (gweler Atodiad B i gael rhagor o fanylion).

6.1.7 Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i benodi Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau a refferenda penodol. Penodwyd y Prif Weithredwr i'r rôl honno yng Ngheredigion. Mae'r Swyddog Canlyniadau yn bersonol gyfrifol am ystod eang o swyddogaethau yn ymwneud â chynnal etholiadau a refferenda ac fe'i telir am gyflawni'r swyddogaethau hyn yn unol â ffioedd a bennwyd.

6.1.8 Cyhoeddir manylion am dâl y Prif Weithredwr, gan gynnwys unrhyw daliadau ychwanegol, yn y Datganiad Cyfrifon. Cyhoeddir y ddogfen hon ar wahân.

6.1.9 Mae treuliau mewn perthynas â milltiredd car, trafnidiaeth gyhoeddus, llety dros nos a pharcio ac ati yn cael eu hawlio'n ôl yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth y Cyngor.

6.1.10 Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a datgelir y manylion yn y Datganiad Cyfrifon. Ni fu unrhyw godiadau neu ychwanegiadau i'r pensiwn y tu allan i drefniadau safonol.

## 6.2 Uwch Staff

6.2.1 At ddibenion y datganiad hwn, mae uwch staff yn golygu 'Prif Swyddogion' fel y'u diffinnir yn Adran 43 y Ddeddf Lleoliaeth. Mae'r swyddi sy'n berthnasol i'r diffiniad statudol wedi'u nodi yng Nghyfansoddiad y Cyngor fel a ganlyn:

- **Prif Swyddogion:**
- Prif Weithredwr
- Cyfarwyddwr Corfforaethol (dwy rôl)

- **Dirprwy Brif Swyddogion** (deuddeg rôl):
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151) (A2)

- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal (Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol) (A2)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Dysgu Gydol Oes (Prif Swyddog Addysg) (A2)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyswllt Cwsmeriaid (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Yr Economi ac Adfywio (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Priffyrdd ac Amgylcheddol (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu (Swyddog Monitro) (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cymorth Cynnar (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion (A1)

## 6.3 Tâl

6.3.1 O 1 Ebrill 2024 (codiad cyflog yn yr arfaeth) mae swyddi Cyfarwyddwr Corfforaethol yn denu cyflog o fewn y band cyflog £104,202 hyd at £111,337 y flwyddyn (gweler Atodiad B i gael rhagor o fanylion).

6.3.2 O 1 Ebrill 2024 (codiad cyflog yn yr arfaeth) mae swyddi Swyddog Arweiniol Corfforaethol A2 yn denu cyflog o fewn y band cyflog o £84,846 hyd at £90,164 y flwyddyn (gweler Atodiad B i gael rhagor o fanylion).

6.3.3 O 1 Ebrill 2024 (codiad cyflog yn yr arfaeth) mae swyddi Swyddog Arweiniol Corfforaethol A1 yn denu cyflog o fewn y band cyflog o £77,796 hyd at £83,085 y flwyddyn (gweler Atodiad B i gael rhagor o fanylion).

6.3.4 Cyhoeddir manylion cyflogau uwch staff yn y Datganiad Cyfrifon.

## 6.4 Recriwtio Prif Swyddogion

6.4.1 Mae Polisi a Gweithdrefnau'r Cyngor yng nghyswllt recriwtio Prif Swyddogion i'w gweld yn Rheolau Gweithdrefn Cyflogi Swyddogion, fel y nodir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad. Pennir y tâl cydnabyddiaeth sydd i'w gynnig i unrhyw Brif Swyddog newydd ei benodi yn unol â'r strwythur tâl a gymeradwywyd a'r polisïau perthnasol sydd gan y Cyngor ar waith adeg recriwtio. Rhaid i unrhyw gyflog sy'n fwy na'r trothwy o £100,000 gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Cyngor Llawn.

## 6.5 Ychwanegiadau at gyflog Prif Swyddogion

6.5.1 Mae'r Cyngor yn talu cyfradd costau teithio safonol o 45 ceiniog y filltir i Brif Swyddogion (a phob gweithiwr arall) pan fo'r Prif Swyddog yn defnyddio cerbyd preifat ar gyfer gwaith y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn ad-dalu unrhyw dreuliau eraill rhesymol a ddaw i ran y Prif Swyddog, wrth gyflawni gwaith y Cyngor, ar ôl cyflwyno derbynebau, ac yn unol ag amodau'r Cyd-bwyllgor Trafod Telerau (JNC) ac amodau lleol eraill.

6.5.2 Nid yw'r Cyngor yn talu cost aelodaeth i gorff proffesiynol ar gyfer unrhyw weithiwr ac eithrio'r rhai sy'n dilyn cwrs astudio ar gyfer cymhwyster proffesiynol, a hynny am gyfnod y cwrs yn unig.

6.6 **Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

6.6.1 Mae Adran 143A Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cyfeirio at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ("yr IRP") ac mae'n nodi'r swyddogaethau sydd ganddo o ran cyflogau'r Prif Weithredwr. Gall y Panel wneud argymhellion ynghylch unrhyw bolisi y cyfeirir ato yn y Datganiad Polisi Cyflogau hwn sy'n ymwneud â chyflog Prif Weithredwr y Cyngor ac unrhyw newid arfaethedig i gyflog Prif Weithredwr y Cyngor.

6.6.2 Bydd y Cyngor, fel y bo'n ofynnol, yn ymgynghori â'r Panel ynghylch unrhyw newidiadau i gyflog y Prif Weithredwr os nad ydynt yn gymesur â newidiadau i gyflogau gweddill staff y Cyngor, a bydd yn rhoi sylw i unrhyw argymhellion a geir gan y Panel wrth benderfynu a yw am fwrw ymlaen â'r newid ai peidio.

## 7 RHEOLI TALENT

7.1 Mae'r broses Gwerthuso Perfformiad, yn ogystal â rhoi pwyslais ar berfformiad, yn ceisio rhoi cynlluniau dysgu unigol ar waith, gan ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol nid yn unig ar gyfer rolau presennol, ond drwy fod â ffocws yn y dyfodol ar gefnogi datblygiad gyrfa a chynllunio olyniaeth.

7.2 Mae tîm Dysgu a Datblygu'r Cyngor yn cynnig ystod eang iawn o opsiynau hyfforddi a datblygu a ddarperir yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys rhoi mynediad i weithwyr at gymwysterau trwy broses Panel Cymwysterau Corfforaethol sy'n cefnogi datblygiad gweithwyr ar bob lefel y sefydliad. Cefnogir cynllunio olyniaeth a dilyniant gyrfa'r gweithlu hefyd trwy ddarparu cyrsiau penodol ar gyfer 'Darpar Reolwyr' a 'Rheoli am y Tro Cyntaf'. Mae swyddi prentisiaethau lefel mynediad ar draws yr awdurdod yn cynnig llwybrau i amrywiaeth o yrfaoedd yn ogystal â chynnig ffordd i adnabod talent yn gynnar.

7.3 Mae cymwysterau'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) wedi'u cyflwyno i gefnogi rheolwyr ac i gynnig cymhwyster rheoli cyson ar draws yr awdurdod. Mae saith charfan Lefel 4 ILM wedi galluogi i 33 o bobl ei gwblhau ac mae 29 rheolwr arall yn gweithio tuag at ei gwblhau. Hefyd mae dwy garfan wedi bod yn gweithio tuag at gymhwyster Lefel 5 ILM, mae 12 o'r rhain wedi cwblhau'r cwrs ac mae 7 yn gweithio tuag at ei gwblhau ar hyn o bryd. Er mwyn datblygu a chefnogi talent a dilyniant gyrfa ymhellach, bydd Lefel 3 ILM yn cael ei gyflwyno yn ystod 2024/25.

## 8 TÂL YN ÔL PERFFORMIAD

8.1 Nid yw'r Cyngor yn gwneud unrhyw daliadau bonws na thaliadau ar sail perfformiad i unrhyw un o'i staff.

## 9 CYMORTH AR GYFER STAFF SY'N DERBYN TÂL IS

9.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau i drafod ag Undebau Llafur gyda'r nod o gyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar sail fforddiadwy a chynaliadwy pan fo amgylchiadau'n caniatáu. Mae'r pwynt isaf ar golofn gyflogau NJC, SCP 2, ar hyn o bryd yn cyfateb i £11.59 yr awr sy'n is na chyfradd cyflog byw gwirioneddol y Sefydliad Cyflog Byw Cenedlaethol o £12.00 yr awr.

## 10 CYMHARU CYFLOGAU O FEWN Y CYNGOR

10.1 Mae’r gweithiwr sydd ar y cyflog isaf yn cael tâl o £22,366 y flwyddyn, yn unol â’r pwynt isaf ar y golofn gyflogau (SCP 2) yng ngholofn gyflogau’r NJC ar gyfer gweithwyr Gwasanaethau Llywodraeth Leol. Nid yw hyn yn cynnwys prentisiaid sydd wedi’u cyflogi ar drefniadau gwahanol gan mai hyfforddiant yw prif nodwedd y trefniant hwnnw, ac mae hefyd yn eithrio staff asiantaeth.

10.2 Y gweithiwr sydd â’r cyflog uchaf yw’r Prif Weithredwr a lleiafswm y band cyflog hwnnw yw £129,755 yn codi i uchafswm y band cyflog o £138,674 (codiad cyflog yn yr arfaeth ar gyfer 2024/25). Mae deiliad presennol y swydd yn ennill £138,674.

10.3 Y cyflog canolrifol yn y Cyngor yw £24,294, yn seiliedig ar gyflogau ar 31 Ionawr 2024.

- Y lluosydd rhwng cyflog y gweithiwr cyfwerth ag amser llawn sydd â’r cyflog isaf ac uchafswm cyflog y Prif Weithredwr yw **1:6.2**
- Y lluosydd rhwng y gweithiwr â chyflog isaf a chyfartaledd uchafswm cyflog y Prif Swyddogion yw **1:4.1**
- Y lluosydd rhwng canolrif enillion cyfwerth ag amser llawn (ac eithrio athrawon) ac uchafswm cyflog y Prif Weithredwr yw **1:5.7**
- Y lluosydd rhwng canolrif enillion cyfwerth ag amser llawn (ac eithrio athrawon) a chyfartaledd uchafswm cyflog y Prif Swyddogion yw **1:3.8**

## 11 POLISI YMADAEL

### 11.1 Ymddeol yn Gynnar, Dileu Swydd yn Wirfoddol a Dileu Swydd yn Orfodol

11.1.1 Mae ymagwedd y Cyngor at daliadau statudol a dewisol pan derfynir cyflogaeth gweithwyr, cyn iddynt gyrraedd oedran ymddeol arferol, wedi’i gyflwyno yn ei ddatganiad Polisi Disgresiwn Cyflogwr (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol), yn unol â Rheoliadau 5 a 6 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) 2006. Gweler Atodiad G. Mae hyn mewn perthynas â thaliad dileu swydd yn seiliedig ar enillion wythnosol gwirioneddol (Rheoliad 5) a byddai taliad dileu swydd uwch o hyd at 45 wythnos o dâl yn cael ei ganiatáu (Rheoliad 6). Nid yw Rheoliadau 12 a 13 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniad) 2007 yn gymwys gan nad yw’r Awdurdod yn cynyddu cyfanswm aelodaeth aelodau gweithredol (Rheoliad 12) nac yn dyfarnu pensiwn ychwanegol (Rheoliad 13).

11.1.2 Mae pob datganiad o ddiddordeb ar gyfer Ymddeoliad Cynnar a Diswyddiad Gwirfoddol yn destun achos busnes cadarn i geisio cadw’r iawndal yn ôl disgresiwn i derfyn fforddiadwy, yn ogystal ag ystyried costau unrhyw newidiadau canlyniadol i’r sefydliad/graddfeydd cyflog.

11.1.3 Wrth gyfrifo gwerth pecyn terfynu cyflogaeth, dylid cynnwys y taliadau canlynol:

- tâl a dalwyd yn lle rhybudd
- cyfandaliad dileu swydd / taliad terfynu cyflogaeth
- y gost i’r Cyngor o ran y straen ar y gronfa bensiwn sy’n deillio o gael mynediad cynnar i bensiwn heb ei leihau.

11.1.4.1 Fel yr argymhellwyd yng Nghanllaw Statudol Llywodraeth Cymru, "Atebolrwydd Cyflogau mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru", rhaid i unrhyw

becyn diswyddo mewn perthynas â therfynu cyflogaeth Prif Swyddog sy'n fwy na throthwy o £100,000 gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Cyngor Llawn. Mae’n rhaid i aelodau fod yn ymwybodol o unrhyw hawliadau statudol neu gontractiol y pecyn diswyddo, ynghyd â chanlyniadau atal y rhain o safbwynt cyfraith cyflogaeth. Wrth gyfrifo gwerth pecyn diswyddo, bydd y taliad canlynol yn cael ei gynnwys:

(i) Cyflog a delir yn lle rhybudd
(ii) Swm llawn unrhyw daliad diswyddo
(iii) Cost i'r Cyngor o daliad y gronfa bensiwn sy'n codi o fynediad cynnar i bensiwn heb ei leihau.

11.1.5 Mae’r Cyngor wedi gweithredu Cynllun Diswyddo Gwirfoddol yn ystod blwyddyn ariannol 2023/2024 ac mae’r costau sy’n gysylltiedig â gweithwyr a adawodd gyflogaeth y Cyngor o dan y Cynllun hwn i’w gweld yn y Datganiad Cyfrifon blynyddol.

11.2 **Prif Swyddog**

11.2.1 Rhaid i’r Cyngor Llawn gymeradwyo unrhyw becyn diswyddo mewn perthynas â therfynu cyflogaeth Prif Swyddog.

11.3 **Ailgyflogi**

11.3.1 Ni fydd gweithwyr sy’n gadael cyflogaeth y Cyngor ar sail ymddeoliad cynnar, diswyddo neu ddiswyddiad gwirfoddol sy’n cael eu cyflogi mewn rolau Prif Swyddog fel arfer yn cael dychwelyd i unrhyw gyflogaeth am dâl dros dro neu’n barhaol gyda Chyngor Sir Ceredigion (sy’n cynnwys ysgolion) na chael eu hailgyflogi fel gweithiwr asiantaeth neu ymgynghorwyr. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, gellir caniatáu ailgyflogaeth ar sail achos busnes cadarn pan gymeradwyir hynny gan y Prif Weithredwr ac Aelod y Cabinet dros Bobl a Threfniadaeth.

11.3.2 Os yw’r ailgyflogi yn ymwneud â swydd y Prif Weithredwr neu Brif Swyddog, yna bydd y penderfyniad hwn angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn.

11.3.3 Ni chaniateir i weithwyr eraill sy’n gadael cyflogaeth y Cyngor ar sail ymddeoliad cynnar neu ddiswyddiad gwirfoddol ddychwelyd i gyflogaeth gyda’r Cyngor am gyfnod o 2 flynedd ar ôl eu dyddiad gadael. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, gellir caniatáu ailgyflogaeth yn gynt os yw’r Swyddog Arweiniol Corfforaethol sy’n “cyflogi” yn gallu darparu achos busnes cadarn dros wneud hynny sy’n dderbyniol i’r Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol a’r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth. Nid yw'r cymal hwn yn berthnasol i gontractau achlysurol.

11.4 **Hyblygrwydd o ran ymddeol**

11.4.1 Mae hawl gan weithwyr gael ymddeoliad hyblyg yn unol â darpariaethau’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chynllun Ymddeoliad Hyblyg y Cyngor.

## 12 TREFNIADAU ODDI AR Y GYFLOGRES

12.1 Os nad yw’r Cyngor yn gallu recriwtio rhywun i swydd o dan gontract cyflogaeth neu os bydd angen cymorth arbenigol i brosiect penodol, bydd y Cyngor, lle bo angen, yn ystyried cyflogi unigolion o dan gontract ar gyfer gwasanaethau. Mewn

achos o’r fath, dilynir y broses gaffael berthnasol yn y Rheolau yn ymwneud â Gweithdrefnau Contractau y Cyngor, gan sicrhau bod y Cyngor yn gallu dangos gwerth am arian o gymharu â’r gystadleuaeth o ran sicrhau’r gwasanaeth perthnasol.

12.2 Os mai llenwi swydd wag yw’r contract ar gyfer gwasanaeth, yn ychwanegol at sicrhau y cydymffurfir â’r Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau, caiff penderfyniadau mewn perthynas â phenodi eu gwneud yn unol â rheolau’r Cyngor mewn perthynas â phenodiadau h.y. bydd y Cyngor yn penderfynu ar benodiadau ar lefel Prif Swyddog a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol neu bydd y rhai sy’n gweithredu o dan eu hawdurdod yn penderfynu ar benodiadau ar lefel Rheolwr Corfforaethol ac is.

12.3 Gan ddod i rym yn Ebrill 2017, cyflwynodd Llywodraeth y DU “Ddeddfwriaeth Cyfryngwyr” a elwir IR35, a ddiwygiodd reolau treth gweithio oddi ar y gyflogres yn y sector cyhoeddus ac mae’r Cyngor wedi rhoi’r rheolau newydd ar waith i gydymffurfio â’r ddeddfwriaeth hon.

## 13 CYHOEDDI

13.1 Ar ôl ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn, cyhoeddir y datganiad hwn ar wefan y Cyngor.

13.2 Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â’r gofyniad arno o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 i gynnwys yn ei Ddatganiad Blynyddol Ariannol yr wybodaeth ofynnol mewn perthynas â’r gweithwyr hynny lle mae’r tâl cyfwerth ag amser llawn yn £60,000 y flwyddyn o leiaf.

**ATODIAD A**

# GRADDFEYDD CYFLOG AR GYFER GWEITHWYR NJC

**Codiad cyflog diwethaf:** 1 Ebrill 2023 (dangosir isod)

**Codiad cyflog disgwyliedig nesaf:** 1 Ebrill 2024 (yn yr arfaeth)

| Gradd | Band Sgôr Gwerthuso Swyddi | Pwynt ar y Raddfa | Cyflog Blynyddol (FTE) |
|---|---|---|---|
| **Gradd 2** | 200 – 294 | 2 | £22,366 |
| **Gradd 3** | 295 – 329 | 3 | £22,737 |
| **Gradd 4** | 330 – 364 | 4 | £23,114 |
| **Gradd 5** | 365 – 399 | 5 | £23,500 |
| | | 6 | £23,983 |
| **Gradd 6** | 400 – 434 | 7 | £24,294 |
| | | 8 | £24,702 |
| | | 9 | £25,119 |
| | | 10 | £25,545 |
| **Gradd 7** | 435 – 469 | 12 | £26,421 |
| | | 13 | £26873 |
| | | 14 | £27,334 |
| | | 15 | £27,803 |
| | | 16 | £28,282 |
| **Gradd 8** | 470 – 504 | 18 | £29,269 |
| | | 19 | £29,777 |
| | | 20 | £30,296 |
| | | 21 | £30,825 |
| | | 22 | £31,364 |
| **Gradd 9** | 505 – 539 | 24 | £33,024 |
| | | 25 | £33,945 |
| | | 26 | £34,834 |
| **Gradd 10** | 540 – 579 | 28 | £36,648 |
| | | 29 | £37,336 |
| | | 30 | £38,223 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gradd 11** | 580 – 619 | 32 | £40,221 |
| | | 33 | £41,418 |
| | | 34 | £42,403 |
| **Gradd 12** | 620 – 659 | 35 | £43,421 |
| | | 36 | £44,428 |
| | | 37 | £45,441 |
| **Gradd 13** | 660 – 699 | 39 | £47,420 |
| | | 40 | £48,474 |
| | | 41 | £49,498 |
| **Gradd 14** | 700 – 739 | 43 | £51,515 |
| | | 44 | £52,544 |
| | | 45 | £53,558 |
| **Gradd 15** | 740 – 779 | 47 | £55,609 |
| | | 48 | £56,631 |
| | | 49 | £57,654 |
| **Gradd 16** | 780 – 1000 | 51 | £59,904 |
| | | 52 | £61,062 |
| | | 53 | £62,243 |

**ATODIAD B**

# GRADDFEYDD CYFLOG PRIF SWYDDOGION

**Codiad cyflog diwethaf:** 1 Ebrill 2023 (dangosir isod)

**Codiad cyflog disgwyliedig nesaf:** 1 Ebrill 2024 (yn yr arfaeth)

## GRADDFA GYFLOG PRIF WEITHREDWR

| Gradd | Pwynt ar y Raddfa | Cyflog Blynyddol (FTE) |
|---|---|---|
| **Prif Weithredwr** | 1 | £129,755 |
| | 2 | £132,729 |
| | 3 | £135,701 |
| | 4 | £138,674 |

## GRADDFA GYFLOG CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL

| Gradd | Pwynt ar y Raddfa | Cyflog Blynyddol (FTE) |
|---|---|---|
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol** | 1 | £104,202 |
| | 2 | £106,581 |
| | 3 | £108,959 |
| | 4 | £111,337 |

## GRADDFA GYFLOG SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL

| Gradd | Pwynt ar y Raddfa | Cyflog Blynyddol (FTE) |
|---|---|---|
| **A1** | 1 | £77,796 |
| | 2 | £79,560 |
| | 3 | £81,323 |
| | 4 | £83,085 |
| **A2** | 1 | £84,846 |
| | 2 | £86,608 |
| | 3 | £88,369 |
| | 4 | £90,164 |

**ATODIAD C**

# GRADDFEYDD CYFLOGAU SOULBURY

**Codiad cyflog diwethaf:** 1 Medi 2023 (dangosir isod)

**Codiad cyflog disgwyliedig nesaf:** 1 Medi 2024 (yn yr arfaeth)

## GWEITHWYR PROFFESIYNOL GWELLA ADDYSG (EIPS)

| Pwynt ar y Raddfa | Cyflog Blynyddol (FTE) |
|---|---|
| 1 | £40,540 |
| 2 | £41,920 |
| 3 | £43,224 |
| 4 | £44,545 |
| 5 | £45,857 |
| 6 | £47,170 |
| 7 | £48,550 |
| 8 | £49,878* |
| 9 | £51,425 |
| 10 | £52,805 |
| 11 | £54,166 |
| 12 | £55,484 |
| 13 | £56,976** |
| 14 | £58,308 |
| 15 | £59,777 |
| 16 | £61,106 |
| 17 | £62,440 |
| 18 | £63,748 |
| 19 | £65,097 |
| 20 | £65,794*** |
| 21 | £67,133 |
| 22 | £68,301 |
| 23 | £69,586 |
| 24 | £70,739 |
| 25 | £71,971 |
| 26 | £73,173 |

| Pwynt ar y Raddfa | Cyflog Blynyddol (FTE) |
|---|---|
| 27 | £74,403 |
| 28 | £75,650 |
| 29 | £76,899 |
| 30 | £78,146 |
| 31 | £79,382 |
| 32 | £80,637 |
| 33 | £81,894 |
| 34 | £83,180 |
| 35 | £84,465 |
| 36 | £85,784 |
| 37 | £87,083 |
| 38 | £88,396 |
| 39 | £89,691 |
| 40 | £90,985 |
| 41 | £92,285 |
| 42 | £93,585 |
| 43 | £94,883 |
| 44 | £96,189 |
| 45 | £97,490 |
| 46 | £98,794 |
| 47 | £100,102 |
| 48 | £101,399 |
| 49 | £102,700 |
| 50 | £104,004 |
| 51 | £108,164**** |
| 52 | £112,491**** |

Nodiadau:

Nid yw graddfeydd cyflog i gynnwys mwy na phedwar pwynt olynol, a seiliwyd ar y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth swyddi a'r angen i recriwtio a symbylu staff.

* y pwynt isaf ar y raddfa fel arfer ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg (EIP) sy'n cyflawni'r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.

** y pwynt isaf ar y raddfa fel arfer ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg Uwch sy'n cyflawni'r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.

*** y pwynt isaf ar y raddfa fel arfer ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg Arweiniol sy'n cyflawni'r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.

**** estyniad i'r ystod er mwyn darparu ar gyfer asesiadau proffesiynol strwythuredig.

## SEICOLEGWYR ADDYSG – GRADDFA A

| Pwynt ar y Raddfa | Cyflog Blynyddol (FTE) |
|---|---|
| 1 | £42,422 |
| 2 | £44,474 |
| 3 | £46,525 |
| 4 | £48,575 |
| 5 | £50,627 |
| 6 | £52,678 |
| 7 | £54,609 |
| 8 | £56,540 |
| 9 | £58,348 |
| 10 | £60,160 |
| 11 | £61,848 |
| 12 | £62,540* |
| 13 | £63,836* |
| 14 | £65,120* |

Nodiadau:
Mae'r graddfeydd cyflog i gynnwys chwe pwynt olynol, a seiliwyd ar y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth swyddi a'r angen i recriwtio, cadw a symbylu staff.

* Estyniad i'r ystod er mwyn darparu ar gyfer pwyntiau asesiadau proffesiynol strwythuredig.

Chwe ystod cyflog: A1 – 6, A2 – 7, A3 – 8, A4 – 9, A5 – 10 ac A6 – 11

Ni fydd pwyntiau SPA yn cael eu chwyddo â phwyntiau amrediad.

## PRIF SEICOLEGWYR ADDYSG AC UWCH SEICOLEGWYR ADDYSG GRADDFA GYFLOG B

| Pwynt ar y Raddfa | Cyflog Blynyddol (FTE) |
|---|---|
| 1 | £52,678 |
| 2 | £54,609 |
| 3 | £56,540 |
| 4 | £58,348 |
| 5 | £60,160 |
| 6 | £61,848* |
| 7 | £62,540 |
| 8 | £63,836 |
| 9 | £65,120 |
| 10 | £66,425 |
| 11 | £67,706 |
| 12 | £69,010 |
| 13 | £70,337 |
| 14 | £71,621 |
| 15 | £72,966 |
| 16 | £74,297 |
| 17 | £75,637** |
| 18 | £76,976** |
| 19 | £80,055** |
| 20 | £83,257** |
| 21 | £86,587** |

Nodiadau:
Nid yw graddfeydd cyflog i gynnwys mwy na phedwar pwynt olynol, a seiliwyd ar y dyletswyddau a’r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth swyddi a’r angen i recriwtio, cadw a symbylu staff.

* Y pwynt isaf ar y raddfa fel arfer ar gyfer Prif Seicolegydd Addysg sy’n cyflawni’r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.

** Estyniad i’r ystod er mwyn darparu ar gyfer pwyntiau dewisol ar y raddfa ac asesiadau proffesiynol strwythuredig.

## SEICOLEGWYR ADDYSG CYNORTHWYOL

| Pwynt ar y Raddfa | Cyflog Blynyddol (FTE) |
|---|---|
| 1 | - |
| 2 | £35,228 |
| 3 | £36,531 |
| 4 | £37,828 |
| 5 | 39,341 |

Cafodd Pwynt Graddfa 1 ei ddileu gyda phwynt graddfa 2 pwynt cyntaf y raddfa yn weithredol o 1 Medi 2023.

## SEICOLEGWYR ADDYSG DAN HYFFORDDIANT

| Pwynt ar y Raddfa | Cyflog Blynyddol (FTE) |
|---|---|
| 1 | - |
| 2 | £29,872 |
| 3 | £31,770 |
| 4 | £33,673 |
| 5 | £35,572 |
| 6 | £37,473 |

Cafodd Pwynt Graddfa 1 ei ddileu gyda phwynt graddfa 2 pwynt cyntaf y raddfa yn weithredol o 1 Medi 2023.

**ATODIAD D**

## YR HOLL GRWPIAU GWEITHWYR – PRIF AMODAU GWASANAETH

| **GWYLIAU BLYNYDDOL (pro rata ar gyfer gweithwyr rhan-amser)** | |
|---|---|
| ➢ Prif Weithredwr<br>➢ Prif Swyddogion | 33 diwrnod y flwyddyn<br>36 diwrnod ar ôl gwasanaeth 10 mlynedd |
| ➢ Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) | 27 diwrnod y flwyddyn<br>31 diwrnod ar ôl gwasanaeth 5 mlynedd<br>34 diwrnod ar ôl gwasanaeth 10 mlynedd |
| ➢ Soulbury | 27 diwrnod y flwyddyn<br>31 diwrnod ar ôl gwasanaeth 5 mlynedd<br>34 diwrnod ar ôl gwasanaeth 10 mlynedd |
| **ORIAU GWAITH** | |
| ➢ Prif Weithredwr<br>➢ Prif Swyddogion | O leiaf 37 awr yr wythnos, ynghyd â gwaith ychwanegol gyda'r nos, ar y penwythnos a gŵyl y banc yn ôl yr angen |
| ➢ Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) | Wythnos waith safonol yw 37 awr |
| ➢ Soulbury | Wythnos waith safonol yw 37 awr |
| **TALIADAU GWEITHIO GORAMSER** | |
| ➢ Prif Weithredwr<br>➢ Prif Swyddogion<br>➢ Soulbury | Dim i'w dalu |
| ➢ Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) | Gradd 8 ac is: amser a hanner;<br>Gradd 9 ac uwch: TOIL neu amser arferol os na ellir ei gymryd o fewn 13 wythnos. |
| **TALIADAU GWEITHIO AR Y PENWYTHNOS** | |
| ➢ Prif Weithredwr<br>➢ Prif Swyddogion<br>➢ Soulbury | Dim i'w dalu |
| ➢ Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) | Gradd 8 ac is:<br>Sadwrn – amser a chwarter;<br>Sul – amser a hanner<br>Gradd 9 ac uwch:<br>Sadwrn a Sul – amser arferol |

| CYNLLUN TÂL SALWCH | | |
|---|---|---|
| ➢ Prif Weithredwr<br>➢ Prif Swyddogion<br>➢ Soulbury<br>➢ Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) | Yn ystod blwyddyn $1^{af}$ gwasanaeth | 1 mis o gyflog llawn; ac ar ôl cwblhau 4 mis o wasanaeth 2 fis o hanner cyflog |
| | Yn ystod $2^{il}$ flwyddyn gwasanaeth | 2 fis o gyflog llawn;<br>2 mis o hanner cyflog; |
| | Yn ystod $3^{ydd}$ flwyddyn gwasanaeth | 4 mis o gyflog llawn;<br>4 mis o hanner cyflog |
| | Yn ystod y $4^{ydd}$ a'r $5^{ed}$ blwyddyn gwasanaeth | 5 mis o gyflog llawn;<br>5 mis o hanner cyflog |
| | Ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth | 6 mis o gyflog llawn;<br>6 mis o hanner cyflog |

**ATODIAD E**

# POLISI HONORARIWM

## 1. Datganiad Polisi

1.1 Mae'r Cyngor yn sylweddoli y gall fod angen rhoi tâl ychwanegol, o bryd i'w gilydd, os oes gofyn i weithiwr weithredu ar lefel swydd uwch neu ysgwyddo dros dro ddyletswyddau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gradd uwch.

1.2 Os yw'r newidiadau i'r swydd yn debygol o fod yn barhaol, dylid ailwerthuso'r swydd o dan gynllun Gwerthuso Swyddi'r Cyngor a phennu gradd ffurfiol ar ei chyfer.

1.3 Diben y polisi hwn yw sicrhau bod y taliadau ychwanegol yn cael eu hystyried yn briodol a'u gweithredu'n gyson. Mae'r polisi hwn yn nodi'r meini prawf a fydd yn berthnasol i bob swydd beth bynnag yw swm y taliad dan sylw.

## 2. Honorariwm

2.1 Gellir talu tâl honorariwm os gofynnir i weithiwr ysgwyddo rhai o ddyletswyddau a/neu gyfrifoldebau swydd ar radd uwch.

2.2 Os oes mwy nag un gweithiwr addas ar gael sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad priodol i ymgymryd â'r dyletswyddau a/neu'r cyfrifoldebau ychwanegol, bydd angen dilyn proses ddethol i bennu'r unigolyn gorau i ymgymryd â'r dyletswyddau a/neu'r cyfrifoldebau hynny.

2.3 Dim ond mewn sefyllfaoedd sy'n para mwy na mis y gellir talu unrhyw lwfans neu honorariwm, a chaiff ei ôl-ddyddio i'r diwrnod cyntaf.

2.4 Telir unrhyw dâl honorariwm am hyd at 12 mis. Os oes eithriad a bod y cyfnod hwnnw'n hirach, caiff y swydd ei hailwerthuso gan ddefnyddio Cynllun Gwerthuso Swyddi'r Cyngor.

## 3. Gweithdrefn

3.1 Cyn rhoi strwythur graddau newydd y Cyngor ar waith, caiff yr holl daliadau honorariwm presennol eu hadolygu fel y nodir isod.

3.2 Os oes honorariwm ar waith, a'i fod yn seiliedig ar ddyletswyddau a gafodd eu hymgorffori yn yr holiadur gwerthuso swyddi a'u gwerthuso, bydd y radd a aseswyd yn berthnasol o'r dyddiad gweithredu a bydd yr honorariwm yn dod i ben.

3.3 Gan mai taliad ychwanegol at y cyflog sylfaenol ydyw, bydd y Cyngor yn cadw'r sefyllfa Cyflog Cyfartal mewn cof ac, i'r perwyl hwnnw, bydd unrhyw daliad o'r fath yn daliad dros dro, bydd yn destun adolygiad a bydd rhaid ei gyfiawnhau'n wrthrychol.

3.4 Rhaid i'r rheolwr perthnasol wneud achos busnes i ategu cais am daliad honorariwm, gan ddefnyddio'r ffurflen "Cais am Daliad Honorariwm" (Atodiad 1). Rhaid cyflwyno'r cais i Gyfarwyddwr yr Adran i'w gymeradwyo.

Mae'r mathau o dystiolaeth yn cynnwys:

- Y rheswm dros y taliad, e.e. i ddirprwyo am rywun sy'n absennol am gyfnod hir, neu i gyflawni darn penodol o waith
- Manylion y swydd yr effeithir arni a graddau'r swydd barhaol a'r swydd bosib ar lefel uwch
- I ba raddau y mae'r dyletswyddau yn llawn neu'n rhannol – os ydynt yn rhannol, rhaid rhoi canran
- Cost – cyfrifiad o'r swm y byddai gan y gweithiwr hawl i'w gael bob mis.

3.5 Mewn achosion o'r fath, dylid talu'r swm llawn neu ganran o'r gwahaniaeth rhwng y cyflog presennol ac isafswm cyflog y radd uwch.

3.6 Mewn sefyllfaoedd a fydd yn para'n hirach, e.e. dirprwyo dros gyfnod mamolaeth, dylid ystyried hysbysebu'r swydd gan ddilyn trefniadau recriwtio arferol y Cyngor.

3.7 Os bydd gweithiwr sy'n derbyn cyflog wedi'i ddiogelu yn ysgwyddo dyletswyddau ar lefel uwch na'i swydd wedi'i gwerthuso, ond is na'i gyflog wedi'i ddiogelu, ni fydd ganddo/i hawl i gael taliad ychwanegol.

## 4 Dull Talu

4.1 Gellir talu'r taliadau uchod ar ffurf swm misol rheolaidd os yw'r manylion yn wybyddus ymlaen llaw, neu gellir eu talu ar ffurf un ôl-daliad ar ddiwedd y cyfnod perthnasol.

## 5 Ymgynghori

5.1 Mae gan y Cyfarwyddwyr bwerau dirprwyedig i gymeradwyo rhoi tâl Honorariwm. I sicrhau cysondeb, rhaid i'r Cyfarwyddwyr ymgynghori â'r Pennaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol pan fyddant yn ystyried taliadau o dan y cynllun hwn ac anfon copi o'r ffurflen "Cais am Daliad Honorariwm" ato. Bydd y Pennaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol yn anfon y ffurflen i Isadran y Gyflogres at ddibenion talu.

**ATODIAD F**

# TALIADAU ATODOL GRYM Y FARCHNAD

## 1. Datganiad Polisi

1.1 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl weithwyr yn cael cyflog cyfartal am waith cyfatebol.

1.2 Wrth wneud hynny, mae'r Cyngor yn sylweddoli y gall fod yn ofynnol talu tâl atodol grym y farchnad, o bryd i'w gilydd, yn ychwanegol at radd asesedig swydd. Fel arfer, bydd hyn yn deillio o brinder sgiliau yn y farchnad swyddi (yn lleol neu'n genedlaethol) neu oherwydd bod cyfradd y farchnad ar gyfer set sgiliau benodol yn uwch nag a bennwyd gan werthusiad swyddi lleol a'r strwythur cyflogau a graddau.

1.3 Er bod y broses gwerthuso swyddi yn cynnig canlyniadau sy'n bodloni ystyriaethau cyflog cyfartal, mae'n amlwg y gall anawsterau godi ar gyfer rhai swyddi o ran recriwtio a chadw staff. Er bod darpariaethau Cyflog Cyfartal yn cael eu bodloni, gall cyfraddau cyflog rhai swyddi gymharu'n anffafriol â swyddi tebyg mewn mannau eraill.

1.4 Mewn achosion o'r fath, gellir ychwanegu tâl atodol at radd y swydd. Caiff taliadau atodol eu mynegi'n glir mewn dogfennau cyflogaeth. Cynhelir adolygiad bob blwyddyn ar ddyddiad cyflwyno'r tâl atodol yn wreiddiol. Gellir diddymu taliadau atodol grym y farchnad os rhoddir rhybudd ysgrifenedig heb fod yn llai na thri mis.

1.5 Diben y polisi hwn yw sicrhau bod taliadau atodol grym y farchnad a ychwanegir at swyddi'n cael eu hystyried a'u gweithredu'n gyson.

## 2. Cyfiawnhad Gwrthrychol

2.1 Os bwriedir chwyddo cyflog swydd benodol i adlewyrchu amodau'r farchnad, rhaid dangos bod 'seiliau wedi'u cyfiawnhau'n wrthrychol' ar gael, h.y. bod anawsterau recriwtio a chadw'n bodoli mewn perthynas â'r swydd(i) o dan sylw a fyddai'n arwain at broblemau sefydliadol a/neu weithredol gwirioneddol neu ragweladwy.

2.2 Dylid cymryd ystyriaethau Cyflog Cyfartal i ystyriaeth a dylid asesu'r posibilrwydd o her cyflog cyfartal. Ni fydd modd i'r Cyngor ddibynnu ar y ffaith bod y farchnad yn awgrymu bod rhai swyddi, a wneir gan fenywod fel arfer, yn cael tâl is na swyddi a wneir gan ddynion fel arfer, oherwydd gall cyfradd y farchnad ei hun fod yn seiliedig ar ragdybiaethau sy'n gwahaniaethu rhwng y rhywiau. Prif egwyddor y penderfyniad yw'r hyn y mae angen i'r Cyngor ei dalu i benodi'r sawl sydd ei angen i lenwi'r swydd wag.

2.3 Dylid cymryd ystyriaethau eraill i ystyriaeth wrth wneud y penderfyniad hwn hefyd, fel materion gweithredol ac enw da'r Cyngor, a allai ddioddef os na fydd gwasanaethau allweddol wedi'u staffio'n llawn.

2.4 Yn ogystal, rhaid dangos bod dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd gymharol i raddau helaeth yr un fath â'r swydd dan sylw, ac nad oes gwahaniaethau sylweddol o ran y pecyn gwobrwyo cyffredinol h.y. hawl i wyliau, cynllun tâl salwch, trefniadau gweithio hyblyg. Nid yw'r rhain yn daliadau ariannol, ond gallent gyfrif am y gyfradd dâl is.

2.5 Caiff taliadau atodol grym y farchnad eu rhoi/adnewyddu/diddymu yn amodol ar gymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol, gan ymgynghori â'r Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol.

2.6 Caiff taliadau atodol grym y farchnad eu cymhwyso'n gyfartal i'r holl staff mewn swydd benodol (neu faes arbenigol). Caiff y costau eu talu gan y maes gwasanaeth perthnasol.

**3. Tystiolaeth**

3.1 Rhaid i'r achos busnes dros daliadau atodol o'r fath sicrhau cyfiawnhad gwrthrychol, ynghyd â thystiolaeth ategol. Nid yw tystiolaeth anecdotaidd yn ddigon.

Mae'r mathau o dystiolaeth yn cynnwys:

- data meincnodi cyflogau – beth yw'r 'gyfradd gyfredol' ar gyfer y swydd?
- tystiolaeth o unrhyw brosesau recriwtio (aflwyddiannus) diweddar, e.e. sut cafodd y swydd ei hysbysebu yn y gorffennol? A ddefnyddiwyd y cyfryngau cywir? Beth yw'r gyfradd ymateb i hysbysebion? Beth yw cyfradd newid/gadael y swydd?
- lefel a chost gyffredinol y taliadau atodol arfaethedig
- unrhyw fesurau amgen a gafodd eu hystyried neu y gellir eu hystyried, e.e. a ellir ailfodelu'r swydd i ddarparu'r gwasanaeth gofynnol?
- y risgiau gweithredol a/neu'r risgiau o ran enw da
- manylion unrhyw effaith andwyol dybiedig ar y gwasanaeth a ddarperir o fethu â recriwtio (neu gadw) gweithiwr/gweithwyr o safon briodol
- manylion unrhyw sgil-effeithiau posib a sut y gellir eu datrys, e.e. cymharu cyflog gwahanol swyddi mewn adain neu grŵp gwaith.

**4 Tâl**

4.1 Ar ôl cael gafael ar y data gofynnol am gyflogau, gwneir asesiad i weld a oes angen cyflwyno tâl atodol grym y farchnad ac, os felly, gwir werth y tâl atodol.

4.2 Caiff pob cais ei drin fesul achos a bydd angen rhoi cyfiawnhad gwrthrychol gan ddefnyddio'r ffurflenni yn Atodiadau I a II, cyn cael cymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.

4.3 Cedwir tâl atodol y farchnad ar wahân i'r cyflog y cytunwyd arno ar gyfer y swydd. Rhaid egluro hyn wrth fynd ati i recriwtio i swyddi gwag ac wrth recriwtio ymgeiswyr llwyddiannus. Rhaid i'r gweithwyr ddeall y gall tâl atodol y farchnad amrywio o flwyddyn i flwyddyn neu ddod i ben yn llwyr.

4.4 Bydd gweithwyr mewn swyddi sy'n derbyn tâl atodol y farchnad, neu weithwyr a benodir i swyddi o'r fath, yn cael cadarnhad ysgrifenedig sy'n nodi swm y taliad, y trefniadau adolygu a sut y caiff unrhyw newidiadau eu rhoi ar waith. Mae llythyr safonol ar gyfer hyn i'w gael yn Atodiad III.

4.5 Caiff y tâl atodol ei dalu ar ffurf lwfans yn ychwanegol at y cyflog misol a (chan fod y tâl yn seiliedig ar bwyntiau cynyddrannol) bydd codiadau cyflog costau byw blynyddol yn berthnasol iddo. Oherwydd ei fod yn rhan o gyflog gweithiwr, bydd yn bensiynadwy.

4.6 Pan fo'n briodol, telir taliadau atodol ar sail pro rata yn ôl yr oriau a weithiwyd.

**5. Cyfrifo Tâl Atodol y Farchnad**

5.1 Caiff unrhyw dâl atodol ei gyfrifo fel cynyddran ychwanegol ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd a bydd yn cyfateb i'r gynyddran agosaf islaw'r cyflog cymharol. Dylid pennu'r tâl ar lefel y tybir y bydd yn lliniaru'r anawsterau recriwtio a chadw / anawsterau gweithredol, ond na fydd yn ormodol, ac ar lefel y gellir ei chyfiawnhau o ran y cyflog a delir ar gyfer swyddi cymharol ar y farchnad.

5.2 Rhaid i ddiben unrhyw dâl atodol, y cyfiawnhad drosto a'i swm fod yn dryloyw a rhaid cadw cofnodion i ddangos hyn, er mwyn i'r Cyngor allu ymateb yn effeithiol i unrhyw her o ran y rhesymeg dros roi tâl o'r fath.

**6. Amserlen**

6.1 Er mwyn cynnal tegwch a chyfartaledd y strwythur cyflogau ac i sicrhau bod y tâl yn parhau i fod yn gyfiawn ac yn briodol, caiff y taliadau atodol eu hadolygu bob blwyddyn.

6.2 Ar ôl cynnal adolygiad, dylai'r Pennaeth Gwasanaeth, ar y cyd â'r Tîm Gwerthuso Swyddi a'r Undeb Llafur priodol, benderfynu a ddylid diddymu tâl atodol y swydd(i) o dan sylw, cadw'r tâl atodol ar yr un lefel, neu addasu'r swm a delir.

6.3 Gellir diddymu taliadau atodol grym y farchnad ar ôl rhoi rhybudd ysgrifenedig heb fod yn llai na thri mis.

**7. Apelio**

7.1 Efallai y bydd gweithiwr yn credu na roddwyd ystyriaeth lawn o ran rhoi / adnewyddu / diddymu tâl atodol a gall fod am apelio yn erbyn penderfyniad o'r fath.

7.2 I apelio, rhaid i'r gweithiwr ysgrifennu at y Prif Weithredwr, gan amlinellu'r rhesymau dros yr apêl, cyn pen 14 diwrnod ar ôl derbyn hysbysiad ysgrifenedig am y penderfyniad ynghylch yr hawl i gael tâl atodol neu

newidiadau iddo.

7.3 Rhaid i'r Prif Weithredwr drefnu i gwrdd â'r gweithiwr i drafod yr apêl cyn pen 14 diwrnod ar ôl y llythyr apêl ysgrifenedig. Mae gan y gweithiwr hawl i fynd â rhywun gydag ef/hi i'r cyfarfod hwn. Ar ôl cynnal y cyfarfod, bydd y Prif Weithredwr yn ysgrifennu at y gweithiwr cyn pen 14 diwrnod i roi gwybod i'r gweithiwr am ganlyniad yr apêl.

7.4 Os nad oes modd ymateb o fewn yr amserlen honno, dylid egluro'r rheswm dros yr oedi wrth y gweithiwr a dylid rhoi gwybod iddo/iddi pryd i ddisgwyl ymateb, ond ni ddylai fod yn hirach na 14 diwrnod arall.

7.5 Bydd hyn yn gweithredu fel hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniad yr apêl a hwn fydd penderfyniad terfynol Cyngor Sir Ceredigion. I bob pwrpas, dyma ddiwedd y weithdrefn ffurfiol yn y gweithle.

7.6 Os bydd gweithiwr yn methu â dod i'r cyfarfod apêl heb roi gwybod ymlaen llaw, dylai gysylltu â'r Prif Weithredwr cyn gynted â phosib i egluro pam ei fod/bod yn absennol. Dylai'r Prif Weithredwr aildrefnu'r cyfarfod ar yr adeg nesaf sy'n gyfleus i bawb perthnasol. Mae'n bwysig rhoi rhybudd rhesymol am y cyfarfod. Os bydd y gweithiwr yn methu â dod i gyfarfod fwy nag unwaith ac os na fydd yn rhoi eglurhad rhesymol, tybir bod y cais wedi'i dynnu'n ôl. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd y Prif Weithredwr yn ysgrifennu at y gweithiwr i gadarnhau eu bod yn tybio bod y cais wedi'i dynnu'n ôl.

## 8. Hawl gweithwyr i fynd â rhywun arall gyda nhw i gyfarfodydd

8.1 Mae gan weithwyr hawl i fynd â Chynrychiolydd eu Hundeb Llafur neu gydweithiwr gyda nhw i unrhyw gyfarfod a drefnir i drafod diddymu tâl atodol neu unrhyw apêl sy'n deillio o hynny.

8.2 Os nad oes modd i'r sawl sy'n mynd gyda'r gweithiwr ddod i'r cyfarfod, dylai'r gweithiwr aildrefnu'r cyfarfod ar ddyddiad cyn pen 7 diwrnod ar ôl yr amser gwreiddiol a gynigiwyd, gan sicrhau bod yr amser newydd yn gyfleus i bawb perthnasol; neu, dylid ystyried gofyn i unigolyn arall fynd gyda'r gweithiwr i'r cyfarfod.

**ATODIAD G**

lgps 2014

## Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2006 (fel y'u diwygiwyd)

O dan Reoliad 7 y Rheoliadau Iawndal yn ôl Disgresiwn, rhaid i bob awdurdod (heblaw am Gorff Derbyniedig) lunio a chadw o dan adolygiad bolisi sy'n berthnasol i weithredu'r disgresiwn sydd ganddynt parthed yr isod:

| Disgresiwn | Rheoliad | Polisi |
|---|---|---|
| Seilio taliadau dileu swydd/diswyddo ar y cyflog wythnosol gwirioneddol pan fo hyn yn fwy na therfyn cyflog yr wythnosau statudol. | 5 | Talu taliadau dileu swydd/diswyddo/iawndal ar sail y cyflog gwirioneddol |
| Rhoi iawndal ar ffurf cyfandaliad hyd at gyflog 104 o wythnosau mewn achosion o ddileu swydd/diswyddo, terfynu cyflogaeth ar sail effeithlonrwydd neu ddiweddu penodiad ar y cyd. | 6 | **Dileu swydd (*redundancy*)**<br>Rhyddhau'r buddion pensiwn pan fo'r gweithiwr wedi cyrraedd 55 oed ar ddyddiad terfynu cyflogaeth gan gynyddu wythnosau statudol y dileu swydd gan 1.5 (h.y. uchafswm o 45 wythnos).<br>Mae iawndal o'r fath i gynnwys gwerthoedd taliad dileu swydd statudol.<br>Byddai'r unigolion yn medru dewis trosi'r gwahaniaeth sydd rhwng y taliad dileu swydd statudol a'r union iawndal a roddir i brynu pensiwn ychwanegol drwy gyfrwng ffactorau y darperir gan Adran Actwari'r Llywodraeth.<br><br>**Terfynu er Effeithlonrwydd**<br>Ni chaiff y buddion pensiwn eu rhyddhau oni fydd y person yn 55 oed erbyn y dyddiad terfynu.<br><br>**Diswyddo (*severance*)**<br>Pan geir cytundeb ar y naill ochr a'r llall i ryddhau unigolyn o dan Gynllun Diswyddo'r Cyngor, bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r disgresiwn sydd ganddo o dan Reoliad 5 i roi |

| | | |
|---|---|---|
| | | taliadau iawndal ar sail y cyflog gwirioneddol. Bydd y taliadau diswyddo yn ôl disgresiwn yn seiliedig ar ganllaw cyflym colli gwaith statudol a bydd nifer yr wythnosau y bydd hawl iddynt wedi eu seilio ar oedran a Gwasanaeth. Bydd lluosydd o 1.5 ar waith a bydd uchafswm o 45 o wythnosau. Mae'r taliad diswyddo gwirfoddol yn cynnwys y taliad colli gwaith statudol. Os yw unigolyn wedi cyrraedd ei 55 oed, rhyddheir buddion pensiwn iddynt heb eu lleihau a fydd wedi cronni hyd at ddyddiad y terfyniad. Mae'n rhaid wrth wasanaeth cymwys parhaus o ddwy flynedd er mwyn cael mynediad at y trefniadau iawndal hyn. |
| Rhoi blynyddoedd iawndal ychwanegol i unigolyn 50 oed neu hŷn sydd ag aelodaeth (neu aelodaeth dybiannol) ers 5 mlynedd neu fwy o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn achosion o ddileu swyddi, terfynu cyflogaeth er effeithlonrwydd, neu ddiweddu penodiad ar y cyd a ddigwyddodd ar ôl 30 Medi 2006 a chyn 1 Ebrill 2007 (ond dim ond os dechreuodd y cyfnod gwaith cyn 1 Hydref 2006). | 11(2) | Peidio â gweithredu'r disgresiwn hwn |

Eitem Agenda 8

**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **21 Mawrth 2024** |
| **Teitl:** | **Darlledu cyfarfodydd pwyllgor ychwanegol** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Ystyried yr argymhellion mewn perthynas â chynyddu nifer y cyfarfodydd sy'n cael eu darlledu** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |

**Portffolio'r Cabinet a'r Aelod Cabinet:**
**Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth**

**Cefndir**
Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Ceredigion yn darlledu'r trafodion ym mhob cyfarfod o'r Cyngor a'r Cabinet. Mae hyn yn fwy na gofynion presennol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n ymwneud â chyfarfodydd y Cyngor yn unig. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu darlledu ar hyn o bryd trwy wefannau Facebook y Cyngor, sy'n drwm iawn o ran adnoddau gan fod angen i Swyddog TGCh fynychu pob cyfarfod o bell er mwyn hwyluso'r ffrydio byw i safle Facebook Cyngor Sir Ceredigion (sy'n darparu darllediad gyda chyfieithu) ac i safle Facebook Cyngor Sir Ceredigion (sy'n darparu darllediad 'fel y'i clywir').

Ym mis Hydref 2023, cynhaliodd Swyddogion TGCh a Gwasanaethau Democrataidd brofion i raglen ffrydio byw y system rheoli cyfarfodydd hybrid er mwyn sicrhau ei bod yn gallu bodloni'r gofynion ar gyfer darlledu cyn i'r system gael ei chychwyn. Roedd y profion yn llwyddiannus, fodd bynnag, bydd angen rhywfaint o ddatblygiad pellach gan TGCh i sicrhau bod y rhan o'r broses sy'n ymwneud â rhannu cyflwyniadau yn gweithio. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, bydd y Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn gallu rheoli'r darlledu heb gymorth ychwanegol gan Swyddogion TGCh. Mae'r gwelliant hwn yn gyfle i gynyddu nifer y cyfarfodydd pwyllgorau sy'n cael eu darlledu'n fyw ac sydd ar gael am gyfnod penodol ar ôl y cyfarfod, heb fod angen i Swyddogion TGCh fod yn bresennol.

Yn ystod ei gyfarfod ar 20 Medi 2023, gofynnodd aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am adroddiad i ystyried ffrydio byw ar gyfer pwyllgorau ychwanegol. Cyflwynwyd papur trafod i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w ystyried yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2024. Cydnabu'r Aelodau y pwysau ychwanegol a fyddai'n cael eu gosod ar Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd i reoli'r broses ddarlledu yn ogystal â rheoli'r system hybrid a chymryd cofnodion. Fe wnaethant hefyd ystyried yr adborth a dderbyniwyd gan Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru sy'n argymell bod y Swyddog Monitro neu ei Ddirprwy yn bresennol ym mhob cyfarfod sy'n cael ei ddarlledu. Felly rhoddwyd ystyriaeth i gapasiti'r Swyddog Monitro a'r Dirprwy i fynychu cyfarfodydd ac mae'r argymhellion yn adlewyrchu hyn.

Rhoddwyd ystyriaeth i ba Bwyllgor y gellid ei ffrydio'n fyw a chytunwyd mai'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fyddai'r mwyaf priodol oherwydd budd y cyhoedd ac oherwydd y ffaith bod Swyddog Monitro (neu Ddirprwy) yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r fath.

Yn dilyn trafodaeth, argymhellodd aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yr amserlen ganlynol mewn perthynas â'r darlledu gan ofyn i'r amserlen gael ei hadolygu yn y dyfodol, i ystyried ymestyn y ddarpariaeth i gynnwys yr holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu pan fydd capasiti yn caniatáu.

**Amserlen a argymhellir ar gyfer darlledu ychwanegol**

| | |
|---|---|
| Cyngor | Darpariaeth ddarlledu eisoes ar waith |
| Cabinet | Darpariaeth ddarlledu eisoes ar waith |
| Pwyllgor Rheoli Datblygu | Dechrau darlledu o fis Mai 2024 |

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**A oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam, os gwelwch yn dda.**

Na, mae'r cynnig hwn yn ychwanegol at fodloni a rhagori'r gofynion deddfwriaethol presennol.

**Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Rhoddir ystyriaeth i adolygu'r amserlen ddarlledu pan fydd capasiti yn caniatáu hyn. |
| **Cydweithio:** | Cyflwynwyd a thrafodwyd papur trafod gydag Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Cynnal:** | Gwella mynediad a chyfranogiad y cyhoedd. |
| **Atal:** | Amherthnasol |
| **Integreiddiad:** | Amherthnasol. |

**Argymhellion:**

**I'r Cyngor gymeradwyo bod y ddarpariaeth ar gyfer darlledu cyfarfodydd yn cael ei hymestyn i gynnwys y Pwyllgor Rheoli Datblygu o fis Mai 2024.**

**Rhesymau dros y penderfyniad:**

**Fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac i ymestyn mynediad i'r cyhoedd i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.**

**Trosolwg a Chraffu:**

Amherthnasol.

**Fframwaith Polisi:**

Dim

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**

Amherthnasol.

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**

Dim.

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Dim

**Goblygiadau staffio:**
Ni fydd unrhyw adnoddau ychwanegol ar gael.

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Dim.

**Risg(au):**
Dim

**Pwerau Statudol:**
Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Papurau Cefndir:**
Dim

**Atodiadau:**
Dim

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**Swyddog Adrodd:**
Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**Dyddiad:**
29 Chwefror 2024

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Eitem Agenda 9

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **21 Mawrth 2024** |
| **Teitl:** | **Fframwaith Llywodraethu** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Cymeradwyo'r Fframwaith Llywodraethu** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |
| **Portffolio'r Cabinet ac Aelod o'r Cabinet:** | **Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu ac Amddiffyn y Cyhoedd** |

## Cefndir

Yn dilyn adolygiad o ddogfennau llywodraethu'r Cyngor, cytunwyd y byddai Fframwaith Llywodraethu yn cael ei greu i weithredu fel dogfen gyffredinol sy'n cwmpasu trefniadau llywodraethu'r Cyngor ac i gymryd lle'r Cod Lleol cyfredol ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol 2023-2024-local-code-of-corporate-governance.pdf (ceredigion.gov.uk).

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddangos bod ganddo'r trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol y neu lle i berfformio'n effeithiol, ac i sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn nogfennaeth trefniadau llywodraethu'r Cyngor.

Mae'r Fframwaith Llywodraethu drafft sydd ynghlwm (**Atodiad 1**) yn dangos y trefniadau sydd yn eu lle i sicrhau bod y canlyniadau arfaethedig ar gyfer pob rhanddeiliad yn cael eu diffinio a'u cyflawni, gan sicrhau hefyd bod y Cyngor bob amser yn gweithredu er budd y cyhoedd. Mae'n nodi'r modd y mae'r Cyngor yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw er mwyn cyflawni gweledigaeth ac Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor, yn dwyn ynghyd yr holl drefniadau llywodraethu ac yn rhoi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu clir yn eu lle.

Mae'r ddogfen Fframwaith Llywodraethu yn crynhoi sut mae'r Cyngor:

- yn trefnu ei weithgareddau drwy benderfynu ar lywodraethu priodol, goruchwyliaeth weithredol a strwythur sefydliadol
- yn cytuno ac yn gweithredu polisïau, systemau a phrosesau cadarn
- yn gwneud ac yn gweithredu penderfyniadau mewn modd effeithlon a thryloyw gan ymgysylltu â phobl leol ac thrwy fod yn atebol i bobl leol

Rhannwyd y Fframwaith Llywodraethu drafft gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wrth ddrafftio'r ddogfen.

Ar 14 Mawrth 2024 argymhellodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y ddrafft Fframwaith Llywodraethu i'r Cyngor i'w fabwysiadu.

**Cynnig**
Cynigir bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Fframwaith Llywodraethu, a fydd yn disodli'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol presennol.

**ARGYMHELLIAD(AU):**
Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r Fframwaith Llywodraethu (**Atodiad 1)**

**RHESWM DROS ARGYMHELLIAD(AU):**
Er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn addas i'r diben.

**Atodiad(au):**
Atodiad 1: Fframwaith Llywodraethu

**Pennaeth y Gwasanaeth:**
Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro

**Swyddog Adrodd:**
Katy Sinnett-Jones – Swyddog Llywodraethu

**Dyddiad:** 05.03.2024

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y Fframwaith Llywodraethu



Mawrth 2024
V10

**Cyflwyniad**

**Nodau**
Mae ein Fframwaith Llywodraethu (y 'Fframwaith') yn cynnwys y trefniadau a roddwyd ar waith i sicrhau bod y canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer ein holl rhanddeiliaid yn cael eu diffinio a'u cyflawni, gan sicrhau ein bod bob amser yn gweithredu er budd y cyhoedd. . Mae hefyd yn nodi'r ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw er mwyn cyflawni gweledigaeth ac Amcanion Lles Corfforaethol y Cyngor, yn dwyn ynghyd yr holl drefniadau llywodraethu ac yn rhoi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu clir ar waith.

Mae'r ddogfen Fframwaith hon yn crynhoi sut mae'r Cyngor yn:

- trefnu ei faterion drwy benderfynu ar lywodraethu priodol, goruchwyliaeth weithredol a strwythur sefydliadol
- cytuno ac yn gweithredu polisïau, systemau a phrosesau cadarn
- gwneud ac yn gweithredu penderfyniadau mewn modd effeithlon a thryloyw
- ymgysylltu â phobl leol ac yn atebol iddynt

Mae'r Fframwaith hwn yn ddatganiad cyhoeddus ar gyfer ein rhanddeiliaid sy'n nodi'r ffordd yr ydym wedi ymrwymo i gyflawni ein Strategaeth Gorfforaethol yn effeithiol er budd pobl leol/dinasyddion Ceredigion.

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn nodi gweledigaeth y Cyngor a'i Amcanion Llesiant Corffor-aethol.
Ein pedwar Amcan Llesiant Corfforaethol yw:
• Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth
• Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
• Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Hwyluso Dysgu Ym mhob Oedran
• Creu Cymunedau Cynaliadwy, Gwyrdd a Chysylltiadau Da

Mae ein llywodraethu yn seiliedig ar y saith egwyddor sylfaenol o atebolrwydd, tryloywder, effeith-iolrwydd, uniondeb, didueddrwydd, a chynwysoldeb ynghyd â'r cysyniad cyffredinol o arweinydd-iaeth.

Rydym yn gwneud hyn mewn 7 ffordd:

- Gweithredu'n foesegol
- Ymgysylltu â'r cyhoedd
- Diffinio'r hyn sydd angen ar y bobl
- Nodi camau gweithredu i ddiwallu anghenion
- Ymgysylltu â'r gallu i gyflawni camau gweithredu
- Monitro risgiau a rheoli perfformiad
- Bod yn agored ac yn atebol agored

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r Fframwaith, *Framework for Delivering Good Governance in Local Government* (CIPFA / Solace, 2016). Mae'r fframwaith yn nodi 7 egwyddor allweddol ar gyfer cyflawni llywodraethu da. Mae'r Fframwaith yn cynnwys dwy egwyddor graidd a phum egwyddor ategol. Mae Egwyddorion A a B yn rhedeg drwy egwyddorion C i G ond mae llywodraethu da yn ddeinamig, ac mae'r Cyngor yn ei gyfanrwydd wedi ymrwymo i wella llywodraethu yn barhaus trwy broses o werthuso ac adolygu.

Mae'r egwyddorion wedi'u nodi isod:

A: Ymddwyn yn onest, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y

gyfraith
- Gweithredu'n foesegol
- Monitro risgiau a rheoli perfformiad
- Bod yn agored ac yn atebol

B:Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltu'n gynhwysfawr â rhanddeiliaid
- Ymgysylltu â'r gymuned i sicrhau bod y Cyngor yn deall yr hyn y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl gennym ni ac i ddangos sut rydym yn ceisio cyflawni hyn.
- Gwnewch yn siŵr ein bod yn cyfathrebu â phob rhan o'r gymuned ac yn annog cyfranogiad gweithredol yn ein gweithgareddau.
- Gweithredu fel 'llysgenhadon' i hyrwyddo buddiannau Ceredigion a'i thrigolion
- Diffinio'r hyn sydd ei angen ar y bobl

C Diffinio canlyniadau o ran buddion cynaliadwy yn economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.
- Cynaliadwy
- Agored
- Tryloywder
- Ymgysylltu â'r cyhoedd
- Diffinio'r hyn sydd ei angen a'i eisiau ar y bobl.

D: Penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd.
- Ymgysylltu â'r cyhoedd
- Diffinio'r hyn sydd ei angen ar bobl.
- Nodi'r camau gweithredu sy'n diwallu anghenion.
- Sicrhau capasiti i gyflawni'r camau gweithredu

E: Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo.
- Sicrhau bod cynghorwyr a staff yn dilyn y safonau ymddygiad uchaf.
- Cynnal gweithdrefn ddisgyblu deg ac effeithiol i ymchwilio i achosion honedig o dorri'r safonau ymddygiad
- Sicrhau'r gallu i gyflawni'r camau gweithredu

F: Rheoli'r risgiau a'r perfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.
- Adnabod, rheoli a monitro'r risgiau sy'n ein hwynebu yn ystod ein gwaith.
- Cynnal systemau a gweithdrefnau i reoli risgiau a monitro eu heffeithiolrwydd i sicrhau bod y rhain yn cael eu dilyn.

G: Gweithredu arferion da wrth adrodd ar dryloywder, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol.
- Mae adroddiadau archwilio yn mynd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfarfod cyhoeddus ac mae papurau'n cael eu cyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol.
- Gwneud gwahaniaeth clir rhwng rolau a chyfrifoldebau staff a chynghorwyr.
- Agor gwaith y Cyngor iddo gael ei graffu mewn modd priodol ac effeithiol
- Cynnal prosesau gwneud penderfyniadau cyfredol a thryloyw.
- Bod yn agored pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau am y ffyrdd gorau o ddarparu gwasanaethau lleol

**<u>Y Broses Lywodraethu</u>**

Mae'r ddogfen hon yn manylu sut mae cynlluniau'r Cyngor yn cydymffurfio gyda phob un o'r egwyddorion hyn i adlewyrchu llywodraethu da o fewn y Fframwaith, gan gynnwys sut mae dogfennau allweddol megis Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor, y Cyfansoddiad, polisïau a gweithdrefnau, a

chodau ymarfer yn unioni gydag Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor a'r egwyddorion sydd wedi'u gosod o fewn y Fframwaith.

O leiaf unwaith y flwyddyn, mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd ein fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheoli fewnol. Mae'r adolygiad effeithiolrwydd yn cael ei lywio gan waith rheolwyr o fewn y Cyngor sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, a hefyd drwy unrhyw sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygu ac arolygiadau eraill.

Mae effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu yn cael ei werthuso trwy gyfuniad o ganlyniadau'r adolygiad a'r monitro rheolaidd yn ystod y flwyddyn gan swyddogion a phwyllgorau sy'n cynnwys:

- Rheoli Risg, gan gynnwys ystyriaeth benodol o'r risgiau hynny sy'n gysylltiedig â phrosesau llywodraethu;
- Archwilio Mewnol, sydd â'r gwaith yn cynnwys archwilio prosesau llywodraethu, rheolaethau mewnol a'r risgiau yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan gynnwys rheoli risgiau, yn unol â'r strategaeth archwilio fewnol flynyddol, ac sy'n cynnwys gwaith 'dilynol' i sicrhau bod uwch swyddogion yn mynd i'r afael â 'Gweithredoedd Rheoli' a gytunwyd;
- Gwaith Pwyllgorau Craffu a Phwyllgorau eraill y Cyngor, gan gynnwys ei bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio a Safonau;
- Barn ac argymhellion archwilwyr allanol y Cyngor ac asiantaethau adolygu ac arolygiaethau eraill;
- Monitro gwelliant a pherfformiad yn rheolaidd yn erbyn Strategaeth y Cyngor a'i gynlluniau a'i strategaethau ategol gan aelodau ac uwch reolwyr;
- Adolygiad o ddogfennau perthnasol a baratowyd yn ystod y flwyddyn neu'n ymwneud â'r flwyddyn;
- Adolygiad o gynnydd yn erbyn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor;
- Adolygiadau o adborth gan reoleiddwyr y Cynghorau a'r pwyllgorau craffu cysylltiedig;
- Trafodaethau a derbyn sylwadau gan grwpiau o swyddogion allweddol ac aelodau, gan gynnwys y Grŵp Arweinyddiaeth.
- Adolygiad o Gyfansoddiad y Cyngor - gwneir hyn gan y Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â Gweithgor Cyfansoddiad y Cyngor sy'n cynnwys 7 aelod trawsbleidiol. Gwneir mân newidiadau gan y Swyddog Monitro a phob un arall gan y Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn adolygu ac yn adrodd wrth ystyried ei drefniadau llywodraethu yn rheolaidd.

Mae canlyniad yr adolygiad fframwaith llywodraethu blynyddol yn sail i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) y Cyngor. Cyflwynir yr AGS i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor a'i gyhoeddi fel rhan o Ddatganiad Cyfrifon Blynyddol y Cyngor. Pwrpas yr AGS yw adrodd yn gyhoeddus ar y graddau y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r fframwaith hwn.

**Strwythurau a Chyfrifoldebau ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol**

Mae gan bob Aelod a Swyddog gyfrifoldeb am gynnal egwyddorion llywodraethu a moeseg da. Mae'n gyfrifoldeb allweddol i Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr.

**Aelodau**

Mae'r Cyngor yn cynnwys 38 Aelod (cynghorwyr). Mae'r holl Gynghorwyr yn aelodau o'r Cyngor, a gallant hefyd fod yn aelodau o un neu fwy o gyrff Aelodau'r Cyngor (megis y Cabinet neu bwyllgor). Mae aelodau'n gweithio gyda'i gilydd i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar bawb sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld â Cheredigion. Mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol am y gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud - am ei bolisïau a pha mor dda y mae'n perfformio. Nhw yw llais y gymuned ac maent yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod democratiaeth ar waith. Mae gan bob Aelod rywfaint o gyfrifoldeb dros lywodraethu.
Rhaid i Aelodau:

- Ddeall eu cymunedau

- Ddarparu gweledigaeth strategol
- Sicrhau bod uwch swyddogion yn gyfrifol
- Peidio gwyro i reolaeth weithredol

Yn ogystal, mae aelodau/personau lleyg yn eistedd ar y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Llywodraethu ac Archwilio, Moeseg a Safonau a Dysgu, sy'n darparu annibyniaeth.

Rhaid i'r berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion gan gynnwys y Grŵp Arweinyddiaeth fod yn seiliedig ar barch at ei gilydd.

**Swyddogion**

Cefnogir aelodau etholedig y Cyngor gan Swyddogion cyflogedig, sy'n atebol i'r Cyngor ac sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor, y Cabinet a'u pwyllgorau a'u cyrff.
Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb corfforaethol a gweithredol cyffredinol am waith y Cyngor ac am holl swyddogion cyflogedig y Cyngor.
Rhaid i Swyddogion:

- Ddarparu rheolaeth weithredol a darparu gwasanaethau,
- Arbenigedd technegol a phroffesiynol
- Cyngor a gwybodaeth ddiduedd i'r aelod
- Bod yn ddiduedd yn wleidyddol

Mae'r hierarchaeth a'r strwythur sefydliadol wedi'u nodi yn Atodiad 1, dan arweiniad y Prif Weithredwr. Mae hyn yn nodi llinell atebolrwydd gweithwyr y Cyngor.

**Grŵp Arweiniol**

Mae'r Grŵp Arweiniol, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, yn gyfrifol am ddatblygiad, darpariaeth ac adolygiad o drefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn.

**Cyfansoddiad**

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ddogfen lywodraethu allweddol sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, gan bwy, y strwythur democrataidd a'r gweithdrefnau a ddilynir. Mae hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu mewn ffordd effeithlon, dryloyw ac atebol i bobl leol a rhanddeiliaid perthnasol. Mae rhai o'r prosesau hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith, tra bod eraill yn fater o ddewis lleol.

Mae'r Cyfansoddiad yn caniatáu: -

- y Cyngor i wneud penderfyniadau yn effeithlon ac yn effeithiol;
- y cyhoedd i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- Cynghorwyr i gynrychioli eu hetholwyr yn fwy effeithiol;
- y cyhoedd i wneud y Cyngor yn gyfrifol am eu gweithredoedd;

Mae'r Cyfansoddiad yn nodi pwerau dirprwyedig swyddogaeth y Prif Swyddog.

Mae'r Swyddog Monitro yn cynghori ar gydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau tra bod swyddog Adran 151 yn cynghori ar bob mater ariannol, yn sicrhau bod cofnodion ariannol priodol yn cael eu cadw a bod system gadarn o reolaeth fewnol ar waith.

**Gwneud Penderfyniadau**

Mae polisïau allweddol, ac unrhyw ddiwygiadau iddynt, yn cael eu cymeradwyo gan y Cabinet (y Gweithredwr) a, lle bo hynny'n briodol, wedi eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor.

**Mae Atodiad** 2 yn dangos strwythur Democrataidd a Gwneud Penderfyniadau Cyngor Sir Ceredigion. Mae hyn yn dangos y berthynas rhwng y Cyngor, y Cabinet a'r pwyllgorau amrywiol gan gynnwys y pwyllgorau Rheoleiddio Llywodraethu a Chraffu.

Mae'r cylch gorchwyl a'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer pob pwyllgor wedi'u hamlinellu yn y Cyfansoddiad.

Mewn sefyllfaoedd lle mae angen gwneud penderfyniadau brys mewn argyfwng cenedlaethol, ac yn absenoldeb yr Arweinydd/Dirprwy Arweinydd, efallai y bydd swyddogaethau Cabinet yn cael eu dirprwyo ymhellach.

**Strategaeth Gorfforaethol**

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol bresennol wedi bod ar waith ers 2022 ac mae'n nodi gweledigaeth ac Amcanion Lles Corfforaethol y Cyngor. Mae hyn yn rhoi pwyslais ar y gofyniad o strwythurau llywodraethu effeithiol i gefnogi cyflawni'r amcanion llesiant.

Ein pedwar Amcan Llesiant Corfforaethol yw:

- Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth
- Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
- Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi Addysg i bob Oed
- Creu Cymunedau Cynaliadwy, Gwyrdd a Chysylltiadau Da

Mae'r Cyngor yn anelu at gyrraedd y safonau llywodraethu da hyn trwy gydymffurfio â'r saith egwyddor a hefyd gydymffurfio ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Strategaeth a Fframwaith Risg**

Mae ein Polisi a'n Strategaeth Rheoli Risg yn bwysig i sicrhau bod gweithdrefnau priodol ar waith a bod parodrwydd i dderbyn risg a blaenoriaethau risg ar waith. Mae Rheoli Risg yn rhan annatod o'r polisi a'r gosodiad Strategaeth cynllunio busnes gweithredol.

Mae trefniadau Rheoli Risg Corfforaethol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac mae rheoli risgiau wedi'i gynnwys yng nghynlluniau Busnes Gwasanaethau unigol. Dyrennir yr holl risgiau i Swyddog Arweiniol Corfforaethol (Perchennog Risg). Mae risgiau gwasanaeth hefyd yn cael eu hystyried ar lefel CLO a'u huwchgyfeirio i LG fel y bo'n briodol.

Mae gan y Cyngor Gofrestr Risg Gorfforaethol a gaiff ei hystyried yn chwarterol yng nghyfarfodydd y Grŵp Arweinyddiaeth a chan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel eitem sefydlog. Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth yn ystyried y Gofrestr Risg Gorfforaethol ym mhob penderfyniad.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyfeirio materion risg at Bwyllgorau Craffu, lle bo hynny'n briodol. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth a sicrwydd parhaus bod risgiau'n parhau i gael eu rheoli.

Mae 'risgiau' hefyd yn sail i raglen waith archwilio Archwilio Mewnol ac mae adroddiadau'r Cabinet yn cynnwys risgiau a goblygiadau sy'n codi.

**Sut ydym yn dangos cydymffurfiaeth â'r Fframwaith Llywodraethu?**

Er mwyn cydymffurfio â'r Fframwaith, mae'r Cyngor yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sy'n esbonio'r prosesau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, mae'r Cyngor yn

cynnal Adolygiad Fframwaith Llywodraethu Blynyddol i ddangos enghreifftiau o sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (a chefnogol) er mwyn sicrhau bod:

- ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol;
- arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo'n briodol;
- penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd cadarn a chynhwysol;
- adnoddau'n cael eu defnyddio'n economaidd, effeithlon ac effeithiol; a
- atebolrwydd clir am ddefnyddio'r adnoddau hynny i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt sydd o fudd i bobl a chymunedau lleol.

Datblygwyd y ddogfen hon felly yn unol â Fframwaith CIPFA/SOLACE a CIPFA/SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government Framework Guidance notes for Welsh authorities* (2016 Edition).
Er bod ein trefniadau llywodraethu yn adlewyrchu'r egwyddorion craidd a'r is-egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yng Nghanllawiau CIPFA, rydym yn cydnabod bod yr egwyddorion a gynhwysir ynddo yn enghreifftiau o arfer da a bod y Cyngor yn cael ei reoli'n fwy effeithiol o ganlyniad.

. Er mwyn hwyluso llywodraethu da, mae gennym hefyd;
• Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
• Pwyllgor Moeseg a Safonau
• Pwyllgorau Craffu
• Adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu
• Polisi Chwythu'r Chwiban.
• Grŵp Arweinyddiaeth
• Swyddog Llywodraethu
•

**Monitro ac Adolygu Llywodraethu Corfforaethol**
Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r trefniadau llywodraethu fel y disgrifir yn y Fframwaith hwn.

Mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn flynyddol i fesur i ba raddau y mae'r Cyngor yn bodloni gofynion yr egwyddorion craidd a'r is-egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn Fframwaith y CIPFA.

Drwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, bydd y Cyngor yn sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn cynnwys ystyried:

- Gwaith Archwilio Mewnol ac Allanol
- Barn asiantaethau ac arolygiaethau adolygu eraill
- Barn Swyddogion Statudol y Cyngor
- Gweithredu'r Fframwaith Llywodraethu
- Cynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a chamau gweithredu sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â materion llywodraethu sy'n codi

**Sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol**
Mae gan y Cyngor berthnasoedd gwaith da a sianeli cyfathrebu effeithiol gyda rheoleiddwyr allanol.
Mae gennym broses i sicrhau bod argymhellion o bob adroddiad gan reoleiddiwr allanol yn cael sylw drwy Ffurflenni Ymateb Sefydliadol. Cyflwynir ymatebion y gwasanaeth i'r Grŵp Arweinyddiaeth, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i sicrhau monitro cynnydd gweithredoedd/argymhellion.

Mae trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol ar waith i sicrhau monitro mewnol digonol o ran darparu gwasanaethau.

Mae'r Prif Archwilydd Mewnol yn rhoi barn wrthrychol flynyddol ar brosesau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu'r Cyngor ac mae ganddo fynediad llawn a dirwystr i'r Prif Weithredwr a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ar gynnydd Archwilio Mewnol.

**Casgliad**

Credwn fod y Fframwaith hwn yn cynnwys trefniadau llywodraethu angenrheidiol i gefnogi cyflawni gweledigaeth ac Amcanion Lles Corfforaethol y Cyngor, ac mae'n rhoi sicrwydd bod gan y Cyngor brosesau effeithiol ar waith.

## Atodiad 1


Siart y Sefydliad

**PRIF WEITHREDWR**

| **CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL** | **CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL** |
|---|---|
| • Sicrhau bod blaenoriaethau ac amcanion strategol corfforaethol sy'n darparu gwasanaethau diogel, effeithlon ac effeithiol o ansawdd uchel i drigolion Ceredigion yn cael eu datblygu, eu gweithredu a'u gwerthuso<br>• Gweithio'n greadigol ac yn strategol er mwyn cyflawni'r safonau uchaf posibl o ran perfformiad gwasanaethau Cyngor Sir Ceredigion | • Bod yn Gyfarwyddwr Corfforaethol a darparu arweinyddiaeth strategol o fewn y Cyngor g sicrhau bod pob gwasanaeth yn cydymffurfio ag amcanion a safonau strategol y Cyngor yn eu cefnogi.<br>• Dirprwyo ar ran y Prif Weithredwr yn ôl yr angen<br>• Darparu arweinyddiaeth a chyngor i hyd at chwe Swyddog Arweiniol Corfforaethol a rhe eu perfformiad |
| **SWYDDOGION ARWEINIOL CORFFORAETHOL (7)** | **SWYDDOGION ARWEINOL CORFFORAETHOL (6)** |
| • Bod yn Swyddog Arweiniol Corfforaethol ac yn gynghorwr arweiniol i'r Cyngor ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â'u swyddogaethau penodol yn unol â'r rhestr isod.<br>• Darparu cyswllt allweddol â'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol a gweithio gyda Swyddogion Arweiniol Corfforaethol eraill i sicrhau bod amcanion strategol | • Er bod gan y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol gyfrifoldeb penodol dros reoli ac arwa portffolio o feysydd gwasanaeth, mae ganddynt gyfrifoldeb corfforaethol hollbwysig hefy sicrhau bod gweithgarwch a gweithredoedd pob gwasanaeth yn cydymffurfio ag amcani a safonau strategol y Cyngor ac yn eu cefnogi<br>• Gweithio'n greadigol ac yn strategol er mwyn cyflawni'r safonau uchaf posibl o r perfformiad gwasanaethau Cyngor Sir Ceredigion |

| **YSGOLION A DYSGU GYDOL OES** | | **CYFREITHIOL A LLYWODRAETHU** | **CYLLID A CHAFFAEL** | **POLISI, PERFFORMIAD & DIOGELU'R CYHOEDD** | **ECONOMI AC ADFYWIO** | **PRIFFYRDD A GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL** | **PORTH CYNNAL - GWASANAETHAU ARBENIGOL GYDOL OES** | **PORTH GOFAL YMYRRAETH WEDI'I THARGEDU** | **PORTH CYMORTH CYNNAR** | **POBL A THREFNIADAETH** | **CYSWLLT CWSMERIAID, TGCh a DIGIDOL** | **GWASA AETHAU DEMOC ATAIDD** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **DYSGU GYDOL OES** | **YSGOLION** | | | | | | | | | | | |
| *Prif Swyddog Addysg | Dirprwy Brif Swyddog Addysg | *Swyddog Monitro | *Prif Swyddog Cyllid (Swyddog a151) | | | | *Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol | Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol | | | *UBRG<br>*Swyddog Priodol ar gyfer Cofrestru Sifil | *Pennaeth Gwasan aethau Democ taidd |
| • Addysg ôl-16<br>• Presenoldeb, cynhwysiant a chymorth ymddygiad<br>• Lles disgyblion<br>• Unedau Cyfeirio Disgyblion<br>• EOTAS<br>• Dysgu gydol oes, Sgiliau a Chyflogaeth<br>• Gwasanaethau Diwylliant<br>• Arlwyo<br>• Darpariaeth cyn ysgol<br>• Cynnig gofal plant<br>• Safonau Iaith | Gwella Ysgolion<br>• Cyflawniad<br>• Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>• Derbyn i Ysgolion ac Apeliadau<br>• Llywodraethwyr<br>• Rhaglen Ysgol Gynaliadwy | • Cyfreithiol<br>• Llywodraethu Corfforaethol<br>• Archwilio Mewnol<br>• Gwasanaeth Crwneriaid | • Caffael, Comisiynu a Thaliadau<br>• Cyllid Craidd (Dirprwy Swyddog 151)<br>• Gwasanaeth Cyllid (Dirprwy Swyddog 151)<br>• Refeniw ac Asesiad Ariannol | • Partneriaethau Strategol, Ymgysylltu ac Ymchwil<br>• Cwynion, Canmoliaethau a Rhyddid Gwybodaeth<br>• Diogelu'r Cyhoedd<br>• Perfformiad ac Ymchwil Corfforaethol<br>• Adsefydlu Ffoaduriaid<br>• Argyfyngau Sifil a Pharhad Busnes | • Twf a Menter<br>• Cynllunio Eiddo | • Cynnal a Chadw Priffyrdd<br>• Datblygu Priffyrdd<br>• Gwasanaethau Amgylcheddol Lleol<br>• Gwasanaethau Trafnidiaeth | Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes gan gynnwys:<br>• Diogelu Strategol<br>• Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol<br>• Lles meddyliol a cham-ddefnyddio sylweddau<br>• Gofal wedi'i gynllunio<br>• Cymorth estynedig | • Tîm Derbyn a Brysbennu Porth Gofal<br>• Gwasanaethau ymyrraeth wedi'i thargedu<br>• Gwasanaethau Maethu<br>• Gwasanaethau Preswyl a Gofal dydd (*Unigolyn Cyfrifol)<br>• Storfeydd Cyfarpar Cymunedol Integredig.<br>• Tim Dyletswydd Argyfwng | • Canolfannau Lles<br>• Cefnogaeth ac Atal<br>• Ymyrraeth Gynnar<br>• Gwasanaethau Tai | • Adnoddau Dynol-Cynghori a Gweinyddu<br>• Cyflog, Buddion a Systemau<br>• Dysgu a Datblygu<br>• Iechyd a Diogelwch<br>• Ymgysylltu â gweithwyr a lles gweithwyr | • TGCh<br>• Cysylltu â Chwsmeriaid<br>• Archifau a Rheoli Gwybodaeth<br>• Gwasanaethau Llyfrgell<br>• Cofrestru Sifil | • Gwasanaethau Democ ataidd<br>• Cyfieith<br>• Cyfathru Allan<br>• Gwasanaethau Etholiaol<br>• Cymorth i wasanaeth Corfforethol<br>• Rheoli Prosiecau |

**Atodiad 2**
**Strwythur democrataidd a gwneud penderfyniadau**



## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **21 Mawrth 2024** |
| **Teitl:** | **Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Cymeradwyo penodiad Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu am gyfnod o ddwy flynedd** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |
| **Portffolio'r Cabinet a'r Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu ac Amddiffyn y Cyhoedd** |

**Cyflwyniad**
Ym mis Mehefin 2022 penododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Gadeirydd lleyg ac Is-gadeirydd am dymor o ddwy flynedd a fydd yn effeithiol o 6 Mehefin 2022 gan ddod i ben ar 16 Mai 2024.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ailbenodi Alan Davies yn Gadeirydd ac Andrew Blackmore yn Is-gadeirydd am gyfnod o ddwy flynedd o 17 Mai 2024 tan 17 Mai 2026.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:**
**Cydweithio:**
**Cynnwys:** Darparu adnoddau i atal problemau, neu rhag iddynt waethygu
**Atal:** Effaith gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant a cheisio sicrhau budd i'r tri.
**Integreiddio:**

**Argymhelliad:**
Cymeradwyo

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**
Cymeradwyo apwyntio Alan Davies yn Gadeirydd ac Andre Blackmore yn Is-Gadeirydd

**Trosolwg a Chraffu:**

**Fframwaith Polisi:**

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**

**Goblygiadau cyfreithiol:**

**Goblygiadau staffio:**
Amherthnasol

**Goblygiadau eiddo / asedau:**

**Risg(iau):**
Amherthnasol

**Pwerau Statudol:**
Amherthnasol

**Papurau Cefndir:**
Er enghraifft:

**Atodiadau:**
Amherthnasol

| | |
|---|---|
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu |
| **Swyddog Adrodd:** | Katy Sinnett-Jones – Swyddog Llywodraethu |
| **Dyddiad:** | 05.03.2024 |